Rhaglen Gyflawn

# CABINET

# CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | Dydd Mawrth, 21ain Ionawr, 2020 |
| **AMSER** | 1.00 y.h. |
| **LLEOLIAD** | Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon LL55 1SH |
| **PWYNT CYSWLLT** | Annes Siôn<br>01286 679490<br>cabinet@gwynedd.llyw.cymru |

## AELODAU CABINET CYNGOR GWYNEDD

| **Aelodau** | |
|---|---|
| Dyfrig L. Siencyn | Arweinydd |
| Dafydd Meurig | Dirprwy Arweinydd, Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant |
| Craig ab Iago | Aelod Cabinet Tai |
| Gareth Wyn Griffith | Aelod Cabinet Amgylchedd |
| Nia Wyn Jeffreys | Aelod Cabinet dros Gefnogaeth Gorfforaethol |
| Dilwyn Morgan | Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc |
| Gareth Thomas | Aelod Cabinet Datblygu'r Economi a Chymuned |
| Ioan Thomas | Aelod Cabinet Cyllid |
| Catrin Wager | Aelod Cabinet Priffyrdd a Bwrdeistrefol |
| Cemlyn Rees Williams | Aelod Cabinet Addysg |

# RHAGLEN

| | Eitem | Cyflwynir gan | Swyddog | Tud. |
|---|---|---|---|---|
| 1 | YMDDIHEURIADAU | | | |
| 2 | DATGAN BUDDIANT PERSONOL | | | |
| 3 | MATERION BRYS | | | |
| 4 | MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU | | | |
| 5 | COFNODION CYAFARFOD A GYNHALIWYD AR 17 RHAGFYR 2019 | | | 5 - 10 |
| 6 | POLISI IECHYD A DIOGELWCH A LLESIANT | Cyng. Nia Jeffreys | Geraint Owen | 11 - 39 |
| 7 | CYNLLUN GWYNEDD 2018-23 - ADNODDAU I'R CYNLLUN 'CYNYDDU BUDD DIGWYDDIADAU MAWRION' | Cyng. Gareth Thomas | Roland Evans | 40 - 44 |
| 8 | CYLLIDEB REFENIW - ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD | Cyng. Ioan Thomas | Ffion Madog Evans | 45 - 66 |
| 9 | RHAGLEN CYFALAF - ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD | Cyng. Ioan Thomas | Ffion Madog Evans | 67 - 74 |
| 10 | ADRODDIAD PERFFORMIAD AELOD CABINET DROS GYLLID | Cyng. Ioan Thomas | Dilwyn Williams | 75 - 90 |
| 11 | ADRODDIAD PERFFORMIAD AELOD CABINET DROS AMGLYCHEDD | Cyng. Gareth Grffith | Dilwyn Williams | 91 - 98 |
| 12 | ADRODDIAD PERFFORMIAD AELOD CABINET DROS OEDOLION, IECHYD A LLESIANT | Cyng. Dafydd Meurig | Morwena Edwards | 99 - 105 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 13 | ADRODDIAD PERFFORMIAD AELOD CABINET DROS DDATBYLGU'R ECONOMI | Cyng. Gareth Thomas | Dilwyn Williams | 106 - 114 |
| 14 | BLAEN RAGLEN Y CABINET | Cyng. Dyfrig Siencyn | | 115 - 116 |

**Y CABINET DYDD MAWRTH, 17 RHAGFYR**

**Yn bresennol-**
Y Cynghorwyr: Dyfrig Siencyn, Dafydd Meurig, Craig ab Iago, Dilwyn Morgan, Nia Wyn Jeffreys, Gareth Griffith, Gareth Thomas, Ioan Thomas, Catrin Wager a Cemlyn Rees Williams

**Hefyd yn bresennol-**
Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Iwan Evans (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol), Dewi Morgan (Pennaeth Cynorthwyol - Refeniw a Risg), Morwena Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol), ac Annes Sion (Arweinydd Tîm Democratiaeth).

Eitem 5 a 6: Sioned Williams (Pennaeth Adran Economi a Chymuned), Roland Evans (Pennaeth Cynorthwyol Diwylliant, Economi a Chymuned) a Gareth Jones (Pennaeth Cynorthwyol, Amgylchedd)
Eitem 7: Ffion Madog Evans (Uwch Reolwr Cyllid)
Eitem 8: Geraint Owen (Pennaeth Adran Cefnogaeth Gorfforaethol) a Vera Jones (Arweinydd Tîm Democratiaeth a Iaith)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Croesawyd Aelodau'r Cabinet a Swyddogion i'r cyfarfod.
Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid).

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Nid oedd unrhyw faterion brys

**4. MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU**

Nid oedd unrhyw faterion yn codi o drosolwg a chraffu.

**5. COFNODION CYFARFOD A GYNHALIWYD AR Y 26 TACHWEDD 2019**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 26 Tachwedd 2019 fel rhai cywir.

**6. CYMERADWYO CYFLWYNO ENWEBIAD TREFTADAETH BYD TIRLUN LLECHI GOGLEDD ORLLEWIN CYMRU I UNESCO**

Cyflwynwyd gan Cyng. Gareth Thomas

**PENDERFYNIAD**

Penderfynwyd i:

- Gydnabod yr adborth yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus ar Gynllun Rheoli Safle Treftadaeth Byd Tirlun Lechi Gogledd Cymru
- Cydnabod yr addasiadau perthnasol sydd wedi eu gwneud i gynnwys y Cynllun Rheoli a'r Enwebiad Unesco mewn ymateb i'r ymgynghoriad;
- Cymeradwyo cyflwyno Enwebiad Llawn Safle Treftadaeth Byd Tirlun Lechi Gogledd Orllewin Cymru i Adran Ddigidol, Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon Llywodraeth Cymru a Chanolfan Treftadaeth Byd Unesco ym Mharis er ystyriaeth y Pwyllgor Treftadaeth Byd.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi'r penderfyniad a gesiwyd. Ychwanegwyd fod ymgynghoriad cyhoeddus wedi ei gynnal ar y Cynllun Rheoli ac fod addasiadau wedi eu gwneud yn dilyn yr ymgynghoriad hwn.

Ategwyd fod dwy ran i'r cais a fydd yn cael ei gyflwyno i Unesco sef y Cynllun Rheoli a'r Cais Llawn. Pwysleisiwyd fod y llechi, y diwylliant ac yr iaith yn rhan o'r tirlun sydd yn cael ei gyfleu yn y cais. Nodwyd fod addasiadau wedi cael eu gwneud i'r cais hyd y funud olaf, ac o ganlyniad fod y cais yn uniaith Saesneg ar hyn o bryd er mwyn ei gyflwyno i Unesco. Ychwanegwyd y bydd cyfieithiad ar gael yn y flwyddyn newydd.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Diolchwyd am y gwaith gan holi beth fydd y camau a fydd yn cael eu cymryd o ran y pryderon oedd wedi codi o ran yr iaith a thwristiaeth yn dilyn yr ymgynghoriad. Cydnabuwyd fod yr elfennau iaith a diwylliant yn wan yn y cais gychwynnol ond eu bod bellach wedi eu cryfhau. Ychwanegwyd y bydd gwaith cael ei wneud ar effaith twristiaeth gan y Gwasanaeth Cynllunio ynghyd â'r Gwasanaeth Iaith.
- Nodwyd fod gordwrisitiaeth wedi bod yn bryder dros y misoedd diwethaf ond ei bod yn bwysig fod y cais wedi ymateb i'r pryderon drwy edrych ar effaith.
- Diolchwyd i'r cyhoedd a rhanddeiliaid am gymryd amser i ymateb i'r ymgynghoriad.
- Holwyd os yw'r mentrau cymdeithasol sydd i'w gweld yn frith ar hyd yr ardaloedd llechi wedi bod yn rhan o'r broses. Nodwyd eu bod wedi bod yn rhan o'r broses a hefyd yn bartner. Ychwanegwyd eu bod yn gweld y cais fel cyfle.

**7. CYFRANIAD CYLLID GAN CYNGOR GWYNEDD I ELUSEN AMGUEDDFA LLOYD GEORGE**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Gareth Thomas

**PENDERFYNIAD**

I gyfrannu £27,000 o'r Gronfa Drawsffurfio i Elusen Amgueddfa Lloyd George ar gyfer 2020-21 er mwyn caniatáu mwy o amser i'r Ymddiriedolwyr ystyried modelau gorau ar gyfer y dyfodol.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod y Cyngor wedi penderfynu torri'r cyfraniad a wneir ar gyfer Amgueddfa Lloyd George yn 2017. Mynegwyd yn dilyn y penderfyniad fod Canghellor Llywodraeth Prydain wedi cyhoeddi y byddai'r bwlch ariannol yn cael ei gyfarch gan Lywodraeth Prydain ar gyfer cyfnod pontio.

Ychwanegwyd nad oes datrysiad parhaol wedi ei gytuno yn ystod y cyfnod hwn ac felly fod yr adran yn gofyn am flwyddyn ychwanegol o gyllid er mwyn penderfynu ar opsiynau o sut y gall yr Amgueddfa symud yn ei blaen.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Nodwyd fod gan y Cyngor ddwy rôl yn y sefyllfa hon gan fod y Cyngor yn gweithredu fel ymddiriedolwr elusennol yr Amgueddfa yn ogystal â rhedeg yr amgueddfa fel un o'i wasanaethau. Pwysleisiwyd fod yr adroddiad gerbron er ystyriaeth yn edrych ar y priodweddau ariannol ac y bydd trafodaeth bellach fel 'Ymddiriedolwyr' yn digwydd yn dilyn y penderfyniad hwn.
- Pwysleisiwyd fod yr adnodd yn un mor bwysig i Gymru ac y byddai'r flwyddyn ychwanegol yn rhoi cyfle i wneud mwy â'r amgueddfa ac i ddod o hyd i ateb er mwyn sicrhau dyfodol yr Amgueddfa.
- Mynegwyd fod efallai angen trafodaeth i weld os oes modd i'r Amgueddfa fod yn rhan o'r Cynllun Llechi ar gyfer y cais Safle Treftadaeth y Byd fel un o'r lleoliadau.
- Gan fod y cais yn un ar gyfer edrych am ddatrysiad hir dymor i'r Amgueddfa, pwysleisiwyd mai'r Gronfa Drawsffurfio fyddai ffynhonnell briodol y cyllid.

## 8. CYNIGION ARBEDION A CHYLLIDEB Y CYNGOR

Cyflwynwyd gan Cyng. Ioan Thomas

**PENDERFYNIAD**

Ein bod yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf a gafwyd gan yr Adran Gyllid am yr hyn y mae'r setliad yn ei olygu, ac at ddibenion ymgynghori gyda'n cyd aelodau yn y gweithdai yn Ionawr, ein bod yn ymwrthod rhag defnyddio'r arbedion yn y pedair rhes isaf yn y tabl ym mharagraff 13, ond y dylid defnyddio'r rhai sy'n gynwysedig yn llinell gyntaf y tabl (gwerth £1.06m o arbedion effeithlonrwydd) er mwyn cwrdd ag elfen o'r galwadau ychwanegol sydd arnom ac er mwyn i ni fedru ystyried cynnydd Treth Gyngor sy'n fwy rhesymol.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi ein bod bellach wedi derbyn y setliad drafft a'i fod yn well na'r disgwyl. Ategwyd er bod y setliad yn cyfarch chwyddiant nid yw'n cyrraedd lefel fydd ei angen er mwyn ariannu'r galw ychwanegol ar adrannau.

Ychwanegwyd ym mis Gorffennaf fod y Cabinet wedi penderfynu ar strategaeth o gynllunio i gwrdd â bwlch o £2 filiwn a fuasai'n cael ei rannu rhwng yr holl adrannau. Ategwyd fod y cynlluniau yma wedi cael ei graffu gan y Pwyllgorau Craffu perthnasol cyn cael eu cyflwyno i'r Cabinet. Er hyn mynegwyd fod y setliad yn un cadarnhaol ond pwysleisiwyd ei fod yn un drafft a dim ond am y flwyddyn sydd i ddod. Ni wyddom beth fydd yn digwydd mewn blynyddoedd dilynol.

Ychwanegodd yr Uwch Reolwr Cyllid y bydd y setliad terfynol yn cael ei gyhoeddi ym mis Chwefror. Nodwyd ar gyfartaledd fod awdurdodau wedi derbyn cynnydd o 4.3% yn y grant ar gyfer y flwyddyn nesaf ond fod Gwynedd ychydig yn uwch ar 4.6%. Mynegwyd fod y setliad drafft yn cyfarch y 3.1% o chwyddiant ond nad yw'n cyfarch y 2.3% o alw ychwanegol ar wasanaethau. Amlygwyd y tebygolrwydd y bydd bwlch ariannol o £3.5miliwn yn parhau i fod angen ei gyfarch.

Pwysleisiodd y Prif Weithredwr y gall y ffigyrau yma newid cyn mis Chwefror, ond fod y drafft yn amlygu mai'r setliad hwn fydd y gorau ers 10 mlynedd i'r Cyngor gan ei fod yn cyfarch ein anghenion chwyddiant. Ategodd er mwyn cyfarch y bwlch y byddai modd codi'r dreth Cyngor 5% neu benderfynu defnyddio'r holl gynigion arbedion o'r adrannau a chodi'r dreth 2% neu unrhyw gyfuyniad rhwng y ddau begwn yma. Nodwyd fod angen penderfyniad ar argymhelliad fel bod modd i'r Adran Gyllid ymgynghori â'r holl gynghorwyr ar y gyllideb ym mis Ionawr.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Pwysleisiwyd fod toriadau difrifol i'w gweld yn y tabl o arbedion ac y buasai effaith mawr ar drigolion Gwynedd. Cynigwyd i ddefnyddio'r arbedion sy'n gynwysedig yn llinell gyntaf y tabl (gwerth £1.06miliwn o arbedion effeithlonrwydd lle na fyddai effaith o sylwedd ar drigolion Gwynedd) er mwyn i ystyried cynnydd Treth Cyngor mwy rhesymol.
- Nodwyd balchder fod y gyllideb yn cydnabod y galw ychwanegol sydd ar adrannau gan fod yr arian ar gyfer y bobl mwyaf bregus yn y sir.
-

**9. YMATEB CYNGOR GWYNEDD I BIL LLYWODRAETH LEOL AC ETHOLIADAU**

Cyflwynwyd gan Cyng. Dyfrig Siencyn

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwywyd yr ymateb drafft a baratowyd ar ran y Cyngor i'r ymgynghoriad ar Bil Llywodraethol Lleol ac Etholiadau (Cymru) - Tachwedd 2019 er ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn am gymeradwyaeth ar 19 Rhagfyr 2019.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod y Bil wedi ei gyhoeddi a bod rhai elfennau mae'r Cyngor yn cytuno â hwy, megis yr oed pleidleisio ac egwyddor i bleidlais sengl drosglwyddadwy.

Mynegwyd nad oedd y cynnig i greu Cyd Bwyllgor Corfforaethol ar gyfer prif elfennau yn dderbyniol gan ei fod yn gam tuag at greu haen uwch o awdurdod rhanbarthol. Ategwyd y byddai ychwanegu'r awdurdodau hyn yn pellhau'r penderfyniadau oddi wrth yr etholwyr. Ychwanegwyd fod gwaith o gydweithio rhanbarthol sydd i'w gweld yn y Maes Iechyd ar hyn o bryd yn gweithio yn dda oherwydd ei fod wedi digwydd yn wirfoddol. Pwysleisiwyd y buasai cydweithio gorfodol yn aneffeithiol.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Mynegwyd fod angen edrych ar ôl y Cynghorau Cymuned ac efallai dechrau ail edrych ar y drefn o'r lefel yma er mwyn cryfhau'r seiliau cyn mynd ymhellach.
- Nodwyd fod y bil hwn yn fygythiad i ddemocratiaeth ac yn ychwanegu haen ychwanegol ble nad oes sôn am atebolrwydd ac yn mynd a penderfyniadau ymhellach oddi wrth yr etholwyr.
- Pwysleisiwyd fod angen ail edrych ar y berthynas rhwng Llywodraeth Cymru ac yr awdurdodau i sefydlu perthynas gyfartal fel na fydd Llywodraeth Cymru yn ymyrryd â phenderfyniadau ar lefel leol.

**10. LLYTHYR BLYNYDDOL YR OMBWDSMON 2018/19**

Cyflwynwyd gan Cyng. Dafydd Meurig a'r Cyng. Dyfrig Siencyn

**PENDERFYNIAD**

Derbyniwyd Llythyr Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2018/19 a'r sylwadau a nodwyd.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod y llythyr yn adrodd ar gwynion o fewn y Cyngor. Ategwyd fod adroddiad wedi ei gyflwyno i'r Cabinet yn ystod yr haf yn adrodd ar y drefn gwynion a'r achosion unigol oedd y tu ôl i ffigyrau'r adroddiad. Esboniwyd nad oes neges nodweddiadol nac unrhyw bryderon yn codi.

Fodd bynnag nododd y Prif Weithredwr fod yna broblemau wedi codi gyda'r ffordd y bu i ni ymdrin a'r achos a gyfeiriwyd ato lle cafwyd adroddiad gan yr Ombwdsmon gan egluro'r cefndir. Nid oeddem wedi gweithredu yn unol ag union eiriad yr hyn a gytunwyd gydag ef. Yn sgil hynny roedd yn afnodlon gydag ymateb y Cyngor a bu'r Prif Weithredwr yn ei weld er mwyn egluro'r sefyllfa. Bwriad y Prif Weithredwr oedd adolygu ein trefniadau cwynion pan yr oedd adroddiad yn cyrraedd yr Ombwdsmon er mwyn sicrhau gweithrediad priodol.

Ychwanegwyd fod trefn cwynion y Cyngor yn annog Adrannau i ddysgu o'r cwynion a rhoi eu hunain yn esgidiau'r dinesydd. Mynegwyd fod yr Ombwdsmon yn gwneud i'r Cyngor weithio mewn ffordd wahanol ac felly fod angen o bosib

rhoi camau yn y drefn gwynion i fewnosod cyfundrefn gorfforaethol pan fydd adroddiad Ombwdsmon drafft yn cyrraedd fel bod y ddwy drefn yn gweithio gyda'i gilydd.

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 y.h. a daeth i ben am 2.20 y.h.

**CADEIRYDD**

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **Ionawr 21ain 2020** |
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Nia Jeffreys** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Geraint Owen** |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | **01286 679335** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Polisi Iechyd Diogelwch a Llesiant** |

### 1 Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Cymeradwyaeth y Cabinet i'r Polisi Iechyd Diogelwch a Llesiant newydd

### 2 Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

Mae'r polisi hwn yn ofyniad cyfreithiol yn unol â'r Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith. Mae'r polisi cyfredol yn dyddio nôl i 2015 ac felly roedd angen ei adolygu i sicrhau ei fod yn adlewyrchu trefniadau presennol y Cyngor.

Mae derbyn cymeradwyaeth y Cabinet yn arddangos ymrwymiad strategol yn y maes pwysig hwn.

### 3 CYFLWYNIAD

Mae gwaith i adolygu'r polisi hwn wedi bod ar droed ers rhai misoedd, ac yn wir, mae'n ofyniad cyfreithiol i'w adolygu'n rheolaidd. Gan fod adolygiad rheolaethol wedi ei gynnal yn gorfforaethol tros y misoedd diwethaf, roedd yn synhwyrol aros am gadarnhad o'r strwythur newydd cyn ymgynghori yn derfynol gyda Swyddogion, yr Undebau a'r aelodau etholedig hynny sy'n eistedd ar y Panel Iechyd a Diogelwch, er mwyn sicrhau fod y polisi newydd yn cyd-fynd, ac yn adlewyrchu'r strwythur rheolaethol newydd.

Wedi derbyn ac ymgorffori rhai sylwadau fel rhan o'r ymgynghoriad, mae'r prif newidiadau yn cynnwys:

- Diffinio cyfrifoldebau Penaethiaid Adran a Rheolwyr, ac egluro rôl y Penaethiaid Cynorthwyol ac Arweinyddion Tîm yn eu cynorthwyo yn y rolau hyn.
- Ail strwythuro'r Polisi fel bod cyfrifoldebau staff yn glir ar ddechrau'r Polisi yn hytrach nac wedi eu colli yng nghanol y ddogfen.
- Gwahaniaethu rhwng cyfrifoldebau'r Cabinet ac aelodau etholedig eraill
- Plethu egwyddorion Ffordd Gwynedd i bob lefel o gyfrifoldeb o fewn y Cyngor.

- Cadarnhau a chryfhau trefniadau llywodraethu corfforaethol.
- Sicrhau fod geiriad y Polisi yn ddigonol i anghenion rhai achrediadau ISO (Sefydliad Safoni Rhyngwladol) sydd yn allweddol i rai Adrannau.

## 4 RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

Byddai cymeradwyaeth y Cabinet yn help i ddatblygu model rheolaethol o fewn y Cyngor ble fo Rheolwyr yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb am safonau diogelwch i staff a'r cyhoedd, ynghyd ag iechyd a llesiant staff o fewn eu Gwasanaethau.

Nid oes unrhyw wrthwynebiadau wedi cyflwyno fel rhan o'r broses ymgynghori.

Mae asesiad cydraddoldeb wedi ei gynnal ar effaith y polisi arfaethedig, ac nid oed unrhyw asesiad negyddol wedi ei ganfod. Yn wir, mae'r polisi yn cael gam positif i nifer o unigolion sydd hefo nodweddion gwarchodedig o dan y Ddeddf.

## 5 CAMAU NESAF AC AMSERLEN

Ar sail fod y polisi yn cael ei gymeradwyo gan y Cabinet, bydd gofyn i'r Arweinydd ynghyd a'r Prif Weithredwr ei arwyddo, a bydd gwaith yn mynd rhagddo yn syth i gyfathrebu'r polisi newydd ar draws gweithlu'r Cyngor, a chodi ymwybyddiaeth staff o bob lefel ynglŷn â'u cyfrifoldebau.

## 7 UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

Mae'r polisi wedi ei rannu gyda'r Prif Weithredwr, Penaethiaid Adran a holl aelodau'r Panel Iechyd Diogelwch a Llesiant sy'n cynnwys cynrychiolwyr yr Undebau Llafur, ac aelodau y Fforwm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol fel rhan o broses ymgynghori.

Roedd y prif sylwadau a dderbyniwyd yn cynnwys:

- Dyhead fod y polisi yn cydfynd â strwythur rheolaethol newydd y Cyngor. Oherwydd hyn, penderfynwyd dal y polisi yn ôl hyd nes fod y strwythur rheolaethol wedi ei gyhoeddi er mwyn gallu ei adlewyrchu.
- Cais i gryfhau yr ymrwymiad cyffredinol tuagat iechyd a diogelwch y tu hwnt i gydymffurfio gyda isafswm lefel y gyfraith i anelu at welliant parhaus, ac mae'r newid hwn wedi ei ymgorffori.
- Nodwyd fod peth son am reoli contractwyr yn y ddogfen, a derbyniwyd cais i Adrannau gael canllaw ar y mater yma, a bydd gwaith yn digwydd i adolygu ein canllawiau presennol ar hyn tros y misoedd nesaf.
- Ni dderbyniwyd sylwadau gan yr Undebau Llafur

Sylwadau ar ran y Swyddog Cyllid Statudol ar gyfer yr adroddiad:

"*Nid yw'r penderfyniad a geisir yn creu ymrwymiad gwariant. Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb ariannol.'*

Sylwadau y Swyddog Monitro:

*"Fel sydd wedi ei nodi o fewn yr adroddiad, mae cyfrifoldeb statudol ar y Cyngor i fabwysiadu ac adolygu Polisi Iechyd a Diogelwch. Mae hefyd gofynion penodol ynglŷn â chynnwys a chyfrifoldebau o fewn y polisi. Mae'r polisi yn cyfarch y materion hyn ac mae proses gynhwysol wedi ei ymgymryd o ran ymgynghori oedd yn cynnwys yr undebau llafur."*

## ADRAN 1: DATGANIAD POLISI

### Datganiad Polisi Iechyd a Diogelwch

Yma yng Nghyngor Gwynedd, rydym yn ymdrechu i roi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth y mae'r Cyngor yn ei wneud. Mae hynny yn golygu sicrhau ein bod yn gwybod beth sy'n bwysig i'n trigolion a gweithredu i gyflawni hynny.  yna yw amcan Ffordd Gwynedd.

Yn amlwg, mae bod yn ddiogel yn bwysig i ni gyd ac felly mae iechyd a diogelwch wrth wraidd Ffordd Gwynedd ac yn un o'r egwyddorion hynny na ellir cyfaddawdu arno.  Yn sicr, mae disgwyliad sylfaenol gan bobl Gwynedd na fydd y Cyngor yn eu niweidio mewn unrhyw ffordd.  Toes 'run o staff y Cyngor chwaith yn dod i'w gwaith i gael eu hanafu. Yn gryno, waeth i ni heb a phoeni am safon y gwasanaeth y mae'r Cyngor yn ei gynnig i'r cyhoedd os nad ydi'r gwasanaeth hynny yn ddiogel i'w gynnig yn y lle cyntaf.

All 'run ohonom gyflawni Cyngor diogel ar ben ein hunain.  Mae gofyn i bawb o staff y Cyngor gydweithio, gan fod yn agored ac adrodd ar unrhyw berygl neu broblem yn syth tra ar yr un pryd fod yn synhwyrol am risgiau, gan dderbyn na allwn wastad eu dileu yn gyfan gwbl, ond yn hytrach eu rheoli.

Caiff ei ddweud yn aml mai mater o synnwyr cyffredin yw iechyd a diogelwch, ac er bod elfen o wirionedd yn hynny; mewn sefydliad mor fawr a chymhleth a'r Cyngor, ni allwn gymryd dim yn ganiataol. Mae'n bwysig cael strwythur, cyfrifoldebau a threfniadau clir y mae pawb yn eu deall er mwyn gallu gwarchod staff a phobl Gwynedd, a dyna beth am amlinellir yn y polisi yma.

Amcanion y Cyngor mewn perthynas â'r uchod yw:

1. I wneud ein gwaith yn ddiogel gan gydymffurfio a gofynion y gyfraith.
2. I sicrhau fod iechyd, diogelwch, a llesiant yn derbyn lefel gyfatebol o ystyriaeth ac amlygrwydd a materion rheoli eraill o fewn y Cyngor
3. Sicrhau bod staff ar bob lefel o fewn y Cyngor yn gymwys i ymdrin â'u gwaith a'u cyfrifoldebau mewn ffordd ddiogel, gan ddeall oblygiadau a risgiau sydd ynghlwm a'u gwaith neu'i penderfyniadau.
4. Darparu offer a systemau gweithio diogel.
5. Darparu a chynnal mannau gwaith ac adeiladau cyhoeddus iach a diogel.
6. I sicrhau fod partneriaid a chontractwyr yn gymwys i reoli unrhyw risgiau sydd yn gysylltiedig â'u gwaith.
7. I gynnal trefniadau a system addas ar gyfer cael gwared o beryglon ble bynnag bosibl, a lleihau a rheoli risgiau.
8. I fonitro gweithrediad y trefniadau a'r system honno yn rheolaidd a chyflwyno gwelliannau parhaus.
9. Ymgynghori a chynnwys gweithwyr a'u cynrychiolwyr ynghylch y materion sy'n effeithio ar eu hiechyd a'u diogelwch.
10. Cymryd pob cyfle i hybu iechyd a llesiant staff y Cyngor.

**Dilwyn Williams**
**Prif Weithredwr**

**Dyfrig Siencyn**
**Arweinydd**

draft

**ADRAN 2**
**CYFUNDREFN A CHYFRIFOLDEBAU O FEWN Y CYNGOR**

Cyflwynir y Polisi hwn i gydymffurfio a'r Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974.

Mae'r polisi yn amlinellu cyfrifoldebau ac atebolrwydd o fewn y Cyngor mewn perthynas ag iechyd a diogelwch Cyngor Gwynedd ac mae'n ofynnol dod a'r cynnwys i sylw pob aelod staff:

## 1. Pob gweithiwr

Un o hanfodion Ffordd Gwynedd yw os oes unrhyw un yn gwybod am unrhyw beth sy'n llesteirio ein gallu i gyflawni yr hyn sy'n bwysig i bobl Gwynedd, yna mae'n ddyletswydd arnynt i wneud rhywbeth amdano.

Yn sylfaenol felly, mae disgwyl iddynt adrodd wrth eu Harweinydd Tîm neu Reolwr cyn gynted a phosibl am unrhyw bryderon sydd ganddynt am fater neu sefyllfa iechyd a diogelwch yr ystyrir yn beryglus ganddynt, neu rwystr i allu gweithio yn ddiogel.

Yn ogystal â hyn, cyfrifoldeb pob gweithiwr yw:

1.1. Cymryd gofal rhesymol o'u hiechyd , diogelwch a'u llesiant eu hunain, ynghyd ag iechyd a diogelwch eraill a allai gael eu heffeithio gan eu gweithredoedd neu ddiffyg gweithredu.

1.2. Gydweithio gyda'u Rheolwr a goruchwyliwr ar faterion iechyd a diogelwch.

1.3. Dod yn gyfarwydd â'r Polisi hwn ac unrhyw weithdrefnau iechyd a diogelwch a ddarparwyd iddynt neu a ddaethpwyd i'w sylw fel arall, a gweithredu yn unol â hwy.

1.4. Mynychu'r hyfforddiant a ddarperir iddynt a gweithredu yn unol â'r hyfforddiant a ddarperir neu unrhyw gyfarwyddiadau a roddwyd iddynt ar lafar neu mewn dogfennau.

1.5. Dilyn gweithdrefnau a chyfarwyddiadau gweithredu diogel a threfniadau argyfwng, a pheidio â chamddefnyddio neu ddifrodi offer.

1.6. Cynorthwyo i gadw safon cadw tŷ uchel yn eu gweithle.

1.7. Adrodd am bob damwain, digwyddiad, damwain fu bron a digwydd a digwyddiadau treisgar ar unwaith wrth eu Rheolwr Llinell drwy ddefnyddio'r ffurflen HS11. Rhaid gwneud hyn cyn gynted â phosib ar ôl y digwyddiad. Mae hyn yn cynnwys adrodd am unrhyw ddamwain / digwyddiad a ddaw i'w sylw yn ymwneud â pherson nad yw'n weithiwr i'r Cyngor tra'r oedd ef/hi ar eiddo neu safleoedd y Cyngor neu a effeithiwyd gan weithgarwch y Cyngor.

1.8. Sicrhau eu bod yn ymwybodol o sut i ymgymryd â thasgau gwaith a ddyrannir iddynt, a sut i ddefnyddio offer y mae'n ofynnol iddynt ei ddefnyddio, a gofyn i oruchwyliwr neu reolwr os ydynt yn ansicr ynglŷn ag unrhyw agwedd o'u dyletswyddau.

1.9. Gwisgo dillad diogelwch a defnyddio offer diogelwch a ddarperir ar eu cyfer, eu cynnal a'u cadw'n dda a gofyn am rai newydd os nad ydynt yn ffitio, os ydynt yn aneffeithiol neu wedi gwisgo.

draft

1.10. Asesu unrhyw berygl sylweddol a allai godi yn ystod proses waith (h.y. asesiad dynamig) a sicrhau nad ydynt yn ymgymryd â gwaith mewn amgylchedd peryglus.

1.11. Gwneud awgrymiadau adeiladol wrth eu Rheolwr Llinell ar unrhyw agwedd o iechyd a diogelwch a llesiant

## 2. Rheolwyr Gwasanaeth (i gynnwys Penaethiaid ysgol)

Mae Rheolwyr Gwasanaeth yn atebol am sicrhau fod yna drefniadau iechyd, diogelwch a llesiant priodol o fewn eu Gwasanaeth / safle. Byddant yn gyfrifol am:

2.1. Sicrhau eu hunain eu bod wedi ymgyfarwyddo a'r risgiau y maent yn eu rheoli i lefel sy'n ddigonol i'w gallu eu rheoli o ddydd i ddydd ac yn deall eu cyfrifoldebau rheoli. Yn ogystal a mynychu hyfforddiant rheoli'n ddiogel, gall hyn olygu mynychu hyfforddiant arbenigol a / neu thynnu ar gyngor cymwys.

2.2. Arwain trwy esiampl; meithrin a chynnal diwylliant iechyd a diogelwch cadarnhaol bob amser, trwy sefydlu iechyd a diogelwch a rheolaeth risg synhwyrol fel egwyddor gweithredu o fewn eu Gwasanaeth.

2.3. Datblygu diwylliant agored sy'n meithrin ymddiriedaeth ac yn hyrwyddo cyfranogiad ac ymglymiad pob aelod o staff, gyda llinellau cyfathrebu agored er mwyn i staff allu adrodd am bryderon a chynnig gwelliannau.

2.4. Sicrhau bod staff yn perchnogi gweithdrefnau adrodd am ddamweiniau a digwyddiadau, a bod damweiniau'n cael eu hadrodd, ac arwain ar ymchwilio'r ddamwain a sicrhau fod camau cywiro prydlon yn cael eu cymryd pan fo'r angen.

2.5. Sicrhau bod asesiadau risg addas a digonol yn cael eu cynnal yn y maes y maent yn gyfrifol amdano. Dylid cynnwys staff yn y broses o lunio'r asesiadau, cofnodi'r asesiadau, eu rhannu â staff perthnasol, a'u hadolygu'n rheolaidd neu pan fo unrhyw newid. Dylid cofio fod rhai carfannau o staff angen asesiadau arbenigol gan gynnwys merched beichiog, neu bobl ifanc o dan 18.

2.6. Sicrhau bod anghenion hyfforddiant staff eu wedi eu hadnabod, a'u bod yn derbyn hyfforddiant, cyfarwyddyd a gwybodaeth iechyd a diogelwch penodol fel sy'n berthnasol i'w rôl, a fod yr hyfforddiant yno yn cael ei adnewyddu yn ôl yr angen. Yn ogystal, sicrhau bod staff newydd yn derbyn hyfforddiant a chyfarwyddyd anwytho digonol.

2.7. Sicrhau fod gweithdrefnau iechyd a diogelwch mewnol y Cyngor yn cael eu gweithredu o fewn y Gwasanaeth.

2.8. Sicrhau fod cydweithio a chyd-gordio gyda Rheolwyr eraill ble fo rheolaeth risg yn golygu gweithio ar draws ffiniau Gwasanaethau.

2.9. Sicrhau fod proses o adnabod ac ystyried yn llawn unrhyw risgiau sydd ynghlwm ac unrhyw newid i drefniadau gwaith, neu brosiect gan ddwyn ar gyngor cymwys ble gall fod risgiau arwyddocaol.

2.10. Adnabod partneriaid a chontractwyr sy'n gweithio i'r / gyda'r Gwasanaeth a sicrhau eu bod



drafft

yn gymwys i wneud y gwaith a fod gweithdrefnau'r Cyngor ar reoli contractwyr wedi eu dilyn wrth gomisiynu'r gwaith.

2.11. Llunio rhaglen o unrhyw weithrediadau sy'n codi o'r asesiadau risg / archwiliadau / ymchwiliadau gan adrodd am unrhyw rwystrau neu risgiau na ellir eu datrys o fewn y Gwasanaeth wrth y Pennaeth a/neu Pennaeth Cynorthwyol fel fo rhwydwaith ble gall y risg ei gynnwys ar y gofrestr risg Adrannol ble fo'n berthnasol.

2.12. Cyfathrebu materion iechyd a diogelwch yn effeithiol gyda phob aelod o staff yn eu hadran, a chynnwys Iechyd a Diogelwch fel eitem rheolaidd mewn cyfarfodydd tîm.

2.13. Adrodd wrth y Pennaeth Adran am unrhyw fater iechyd a diogelwch sydd angen sylw brys.

2.14. Sicrhau fod unrhyw oblygiad iechyd a diogelwch yn cael ei ystyried yn y broses o gaffael offer newydd, a fod yr offer hwnnw wedyn yn cael ei gynnal a'i gadw mewn cyflwr diogel.

2.15. Sicrhau bod gan bob gweithiwr a hyfforddai offer a dillad diogelu priodol, ac yn derbyn gwybodaeth, hyfforddiant a chanllawiau addas ar sut i'w defnyddio.

2.16. Sicrhau fod unrhyw anghenion gwyliadwriaeth iechyd neu brofion meddygol statudol wedi eu hadnabod o fewn staff y Gwasanaeth a'r wybodaeth wedi ei basio i'r Gwasanaeth iechyd Diogelwch a Llesiant, a fod staff yn cael eu rhyddhau o'u dyletswyddau i fynychu unrhyw brofion angenrheidiol er mwyn eu diogelu.

2.17. Sicrhau eu bod yn dilyn trefniadau Corfforaethol ac Adrannol o ran rheoli unrhyw gontractwr neu bartner sy'n ymgymryd â gwaith i'r Gwasanaeth.

2.18. Sicrhau fod monitro digonol ar fesurau rheoli gyda adolygiadau rheolaidd a llwybr at welliant parhaus.

**2.19. Bydd disgwyl i Arweinyddion Tim ymgymryd a rhai o gyfrifoldebau y Rheolwr er mwyn eu cynorthwyo gyda'u dyletswyddau.**

(Noder ble fo gofyn i adrodd am risgiau wrth Bennaeth Cynorthwyol / Pennaeth Adran, bydd hyn yn cynnwys y corff llywodraethol mewn cyd-destun ysgol)

### 3. Cyfrifoldeb Rheolwyr Safle (i gynnwys Penaethiaid ysgol)

Mae rôl Rheolwyr Safle yn ganolog i ymdrechion y Cyngor i wella cyflwr a defnydd o'i adeiladau a thir o fewn ffiniau'r safle ac i sicrhau eu bod yn gweithredu'n ddiogel ac yn effeithlon: unigolion ydynt sy'n cadw llygaid ar adeiladau a thir y Cyngor fel eu bod yn cael eu cynnal mewn cyflwr diogel, glân, taclus ac atyniadol, yn ogystal â bod yn addas ar gyfer anghenion staff a chwsmeriaid.

Cyfrifoldebau'r Rheolwyr Safle yw:-

3.1. Arwain trwy esiampl; meithrin a chynnal diwylliant iechyd a diogelwch positif bob amser.

3.2. Rheoli unrhyw gyllideb ddatganoledig ar gyfer cynnal a chadw / gwasanaethu pan fo'n briodol. Nid yw hyn yn cynnwys unrhyw gyllidebau a gaiff eu rheoli gan y Gwasanaethau Eiddo

3.3. Gweithredu fel, neu sicrhau fod person addas arall wedi ei ddynodi i fod yn bwynt cyswllt cyntaf

draft

am faterion dydd i ddydd yn ymwneud â’r eiddo.

3.4. Sicrhau y caiff ceisiadau am waith cynnal a chadw eu hadrodd i’r Ddesg Gymorth Eiddo, ble bo’n briodol

3.5. Os yw Rheolwr Safle / Wasanaeth yn dymuno trefnu gwaith ar yr adeilad, yna rhaid sicrhau fod cais wedi ei gyflwyno i’r Gwasanaeth Eiddo ar ffurflen C1 a sicrhau fod caniatâd ar yn awdurdodi’r gwaith wedi ei dderbyn gan y Gwasanaeth Eiddo cyn i unrhyw waith gael ei drefnu.

3.6. Sicrhau fod unrhyw waith gwasanaethu sy’n gyfrifoldeb ar y sefydliad i’w gyllido allan o’u cyllideb ddatganoledig yn digwydd yn amserol.

3.7. Cydweithio â Rheolwr Prosiect gwaith adeiladu i sicrhau integreiddiad esmwyth y gwaith prosiect â defnydd arferol yr adeilad, gan leihau’r effaith ar ddefnyddwyr yr adeilad, a chyfathrebu’n glir â defnyddwyr yr adeilad.

3.8. Sicrhau y cwblheir ac adolygir asesiadau risg, a sicrhau y cydymffurfir â’r trefniadau i reoli’r risgiau sy’n gysylltiedig â’r adeilad, y safle a’r defnydd ohono. Bydd asesiadau arbenigol ac arolygon tân, asbestos a chlefyd y lleng filwyr (*legionella*) yn cael eu cydgordio gan y gwasanaeth eiddo a rhennir y canfyddiadau gyda’r Rheolwr Safle.

3.9. Sicrhau bod y ffeiliau Gwybodaeth Eiddo / Bocsys Glas yn cael eu cadw’n gyfredol

3.10. Sicrhau bod Cynlluniau Rheoli e.e. cynllun rheoli tân sy’n ymwneud â materion eiddo yn cael eu gweithredu ar y safle e.e. materion rheoli legionella, profi taenellwyr a gwagio unrhyw systemau biomass.

3.11. Sicrhau bod gweithdrefnau arwyddo mewn ac allan corfforaethol yn cael eu gweithredu ar y safle a bod staff, contractwyr ac ymwelwyr yn ymwybodol o wybodaeth sy’n berthnasol i risgiau ar y safle a fod y gofrestr asbestos yn cael ei dangos i gontractwyr ar bob achlysur.

3.12. Trefnu cynnal a chadw’r tiroedd.

3.13. Cefnogi ymdrechion y Cyngor i leihau ein defnydd o ynni a sicrhau bod trefniadau wedi’u sefydlu i gofnodi’r defnydd ar y safle ac anfon gwybodaeth at y Gwasanaeth Eiddo yn fisol.

3.14. Sicrhau fod trefniant mewn lle i ymdrin â cheisiadau i ddefnyddio/llogi rhannau o’r adeilad yn unol â’r math o wasanaeth a ddarperir o’r adeilad hwnnw a sicrhau bod trefniadau trosglwyddo digonol wedi’u sefydlu sy’n cynnwys defnyddio a gwagio’r adeilad yn ddiogel (*fodd bynnag, dylai unrhyw geisiadau am ddefnydd ehangach e.e. hawliau mynediad, trwyddedu, prydlesau a phryniadau gael eu dwyn i sylw’r Gwasanaeth Eiddo*).

3.15. Sicrhau bod unrhyw gontractwyr a ddefnyddir ganddynt i wneud gwaith yn gymwys i ymgymryd â’r gwaith yn ddiogel, yn cynhyrchu asesiadau risg ar y gwaith, ac yn cydymffurfio â gweithdrefnau rheoli Contractwyr Cyngor Gwynedd.

3.16. Sicrhau y dilynir gweithdrefnau diogelwch Cyngor Gwynedd.

3.17. Sicrhau bod archwiliadau safle yn digwydd yn rheolaidd ac yn cael eu cofnodi ar y daflen log perthnasol e.e. llyfr log diogelwch tân.

3.18. Mynychu unrhyw hyfforddiant a ddarperir ar gyfer rheolwyr safle gan gynnwys hyfforddiant atgoffa.

draft

3.19. Ymateb yn brydlon i geisiadau am wybodaeth gan y Gwasanaeth iechyd Diogelwch a Llesiant neu'r Gwasanaethau Eiddo.

## 4. Cyfrifoldeb Penaethiaid Adran

Mae Penaethiaid Adran yn gyfrifol am ddiogelwch staff yn eu Hadran ac am ddiogelwch unrhyw unigolyn allai gael ei effeithio gan weithgareddau'r Adrannau. Maent yn atebol i'r Prif Weithredwr a'u haelod Cabinet am sicrhau bod eu Hadran yn cydymffurfio â gofynion iechyd a diogelwch.

Mae'n gyfrifoldeb ar bob Pennaeth Adran i:

4.1. Sicrhau bod y Polisi hwn, ynghyd â'r gweithdrefnau iechyd a diogelwch perthnasol, yn rhan hanfodol o waith, diwylliant, egwyddorion a safonau perfformiad yr Adrannau, a bod cyngor cymwys wedi ei dderbyn ar unrhyw oblygiadau iechyd a diogelwch arwyddocaol.

4.2. Sicrhau fod strwythur clir yn bodoli o fewn eu hadran er mwyn gallu gweithredu'r polisi hwn.

4.3. Darparu arweinyddiaeth glir i Reolwyr a staff ar iechyd a diogelwch, a gosod ac adolygu targedau ar gyfer cyflawni gwelliannau mewn iechyd a diogelwch.

4.4. Datblygu diwylliant agored a synhwyrol sy'n meithrin ymddiriedaeth ac yn hyrwyddo cyfranogiad ac ymglymiad pob aelod o staff

4.5. Sicrhau bod ymgynghori yn digwydd a staff eu Hadran ar unrhyw fater allai effeithio ar eu hiechyd neu ddiogelwch, a bod trefniadau yn eu lle i sicrhau bod gwybodaeth am iechyd a diogelwch yn cael ei rannu o fewn yr Adran yn ogystal â thu hwnt ble fo'n addas.

4.6. Cynnal fforwm Iechyd a Diogelwch Adrannol yn rheolaidd gan gynnwys aelod o'r Uned Iechyd a Diogelwch Corfforaethol a chynrychiolydd staff. Sicrhau hefyd fod cynrychiolaeth ar lefel priodol o'u hadran ar y Fforwm I&D gorfforaethol.

4.7. Sicrhau fod anghenion hyfforddi staff a Rheolwyr wedi'u hadnabod, a sicrhau bod rhaglen hyfforddiant trylwyr a mandadol yn ei lle (gan gynnwys anwytho a hyfforddiant gloywi) er mwyn sicrhau fod staff ar bob lefel yn gymwys a medrus i allu ymgymryd â'u dyletswyddau'n ddiogel.

4.8. Sicrhau bod cyfrifoldebau am iechyd a diogelwch yn glir o fewn eu Hadran a'u bod yn cael eu mynegi i staff ac yn cael eu cynnwys mewn swydd ddisgrifiadau.

4.9. Sicrhau bod pob perygl arwyddocaol sy'n codi o waith eu Hadran wedi'u nodi a bod gweithdrefnau wedi'u dogfennu ac asesiadau risg clir wedi cael eu paratoi.

4.10. Sicrhau bod cofrestr risg adrannol yn cael ei chadw dan adolygiad parhaus a system o uchafu risgiau uchel i'r gofrestr risg gorfforaethol neu broses bidiau, a bod adrodd ar unrhyw rwystrau neu risgiau o dan y drefn herio perfformiad.

4.11. Sicrhau bod digon o staff cefnogol, cynrychiolwyr ac adnoddau yn gweithredu'r polisi hwn yn effeithiol.

4.12. Asesu, datblygu, gweithredu a gwella trefniadau gweithio diogel yn barhaus.

4.13. Sicrhau bod iechyd a diogelwch yn cael ei ystyried, a bod cynlluniau'n cael eu ffurfio ar gychwyn unrhyw ddatblygiad, brosiect neu newid arwyddocaol sy'n cael ei reoli gan eu Hadran fel bod risgiau naill ai'n cael eu gwaredu, eu rheoli'n effeithiol, neu ble nad yw hynny yn bosibl, eu hamlygu i lefel uwch. Dylid gofyn ar gyngor cymwys ble gall fo oblygiadau arwyddocaol. Yn ogystal, ble bo'n briodol, dod â materion iechyd a diogelwch gerbron y Grŵp Rheoli er mwyn eu trafod a'u datrys.

drafft

4.14. Enwebu person cyfrifol ac addas i weithredu fel Rheolwr Safle ar gyfer pob safle dan reolaeth eu Hadran, a sicrhau bod system effeithiol yn ei lle ar gyfer hysbysu'r Gwasanaeth Eiddo am unrhyw newidiadau.

4.15. Sicrhau bod gweithdrefnau effeithiol yn eu lle o fewn yr Adran i reoli unrhyw gontractwyr a / neu bartneriaid sy'n ymgymryd â gwaith ar ran yr Adran.

Caiff Penaethiaid Adran eu cynorthwyo i gyflawni eu dyletswyddau gan y Penaethiaid Cynorthwyol o fewn eu Hadran. Bydd Penaethiaid Cynorthwyol hefyd yn dal Rheolwyr Gwasanaeth yn atebol am berfformiad iechyd a diogelwch eu Gwasanaeth a'u cynorthwyo i uchafu unrhyw risgiau neu rwystrau na allant eu datrys o fewn y Gwasanaeth.

## 5. Llywodraethwyr Ysgol

Bydd llywodraethwyr ysgol yn gyfrifol am:

5.1. Sicrhau eu bod yn arwain yn ddiogel a bod iechyd a diogelwch yn rhan integredig o reolaeth yr ysgol.

5.2. Penodi un Llywodraethwr i arwain ar faterion iechyd a diogelwch ym mhob ysgol a sicrhau bod y person hwnnw wedi'i hyfforddi'n ddigonol.

5.3. Sicrhau cydymffurfiad gyda gweithdrefnau, arweiniad a chanllawiau iechyd a diogelwch corfforaethol.

5.4. Sicrhau cydweithrediad gyda'r Cyngor ac ymateb priodol i unrhyw arweiniad iechyd a diogelwch a ddarperir.

5.5. Sicrhau bod yr ysgol yn cadw at drefniadau Cyngor Gwynedd o ran cofnodi, ymchwilio ac adrodd ar unrhyw ddamwain, methiant agos, digwyddiad peryglus/treisgar, afiechyd hysbysadwy neu ddigwyddiad arwyddocaol.

5.6. Sicrhau bod gan yr ysgol gofrestr risg gyda mesurau rheoli wedi'u gweithredu i reoli peryglon arwyddocaol i iechyd, diogelwch a llesiant cyn belled ag y bo'n ymarferol bosib.

5.7. Sicrhau gwarcheidwaeth gyfrifol o adeiladau'r ysgol, gan ymateb yn briodol mewn argyfwng a sicrhau bod unrhyw waith adeiladu a drefnir gan yr ysgol yn cydymffurfio â gweithdrefnau llym y Cyngor.

5.8. Annog iechyd a diogelwch synhwyrol.

## 6. Cyfrifoldeb Prif Weithredwr

Y Prif Weithredwr yn y pen draw sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am iechyd, diogelwch a llesiant o fewn Cyngor Gwynedd. Mae cyfrifoldebau penodol yn cynnwys:

6.1. Sicrhau bod iechyd, diogelwch a llesiant yn rhan hanfodol o ddiwylliant Cyngor Gwynedd, trwy egwyddorion Ffordd Gwynedd, trefniadau llywodraethu'r Cyngor, a mesurau perfformiad

6.2. Sicrhau fod y polisi hwn yn cael ei weithredu'n effeithiol gan bob Pennaeth Adran.

6.3. Sicrhau y caiff perfformiad iechyd a diogelwch y Cyngor ei fonitro a'i adolygu yn rheolaidd trwy raglen o archwiliadau ar drefniadaeth pob Adran o fewn y Cyngor a'i fod yn derbyn adroddiadau

drafft

rheolaidd ar y perfformiad hwnnw, ynghyd ac adroddiadau penodol ar ddigwyddiadau arwyddocaol.

6.4. Sicrhau bod adnoddau digonol ar gael o ran amser, cyllid ac offer er mwyn diogelu staff a'r cyhoedd cyn belled â'i bod yn rhesymol ymarferol i wneud hynny.

6.5. Sicrhau bod adroddiad blynyddol ar Iechyd, Diogelwch a Lles yn cael ei lunio a'i gyflwyno i Grŵp Rheoli'r Cyngor ac i'r Cabinet.

6.6. Arwain trwy esiampl bob amser a hyrwyddo rheolaeth risgiau synhwyrol.

Cynorthwyir y Prif Weithredwr gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol a fydd ef /hithau yn arwain trwy esiampl i gynnal diwylliant o reolaeth risgiau synhwyrol a sicrhau fod ystyriaeth lawn i faterion iechyd a diogelwch yn y meysydd gwaith y mae yn arwain arno.

## 7. Cyfrifoldebau Aelodau Cabinet

7.1. Hyrwyddo a dal Penaethiaid yn atebol i ddatblygu diwylliant iechyd, diogelwch a lles cadarnhaol ac agwedd synhwyrol at reoli diogelwch.

7.2. Darparu adnoddau priodol ynghyd â chyfeiriad strategol er mwyn galluogi'r Cyngor a'i swyddogion i gyflawni cyfrifoldebau iechyd a diogelwch.

7.3. Sicrhau bod iechyd a diogelwch a gofynion y Polisi hwn yn cael ei ystyried, a bod cyngor cymwys wedi ei dderbyn ble'n berthnasol ar oblygiadau diogelwch unrhyw benderfyniadau arwyddocaol a wnânt. Byddant yn sicrhau eu bod yn arwain yn ddiogel a pheidio cyfaddawdu ar iechyd diogelwch na llesiant pam yn gwneud penderfyniadau, nac ychwaith yn ystod cyswllt a gweithwyr ac aelodau'r cyhoedd.

7.4. Bydd yr aelod Cabinet sy'n dal portffolio Cefnogaeth Gorfforaethol yn arwain ar faterion iechyd, diogelch a llesiant ac yn gweithredu fel prif bwynt cyswllt ar gyfer aelodau er mwyn sicrhau bod y penderfyniadau a wneir yn unol â'r Polisi hwn. Ef neu hi fydd y Pencampwr(aig) Iechyd a Diogelwch

7.5. Yn ogystal, bydd gan aelodau dynodedig eraill rôl allweddol yn rheoli a monitro iechyd, diogelwch a llesiant Cyngor drwy eu cynrychiolaeth ar bwyllgorau megis y Panel Iechyd, Diogelwch a Lles Corfforaethol, a phwyllgorau craffu corfforaethol er enghraifft.

## 8. Aelodau Etholedig

8.1. Mae pob aelod etholedig yn gyfrifol tros sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth ddigonol o gyfrifioldebau y Cyngor er mwyn eu galluogi i ystyried iechyd a diogelwch yn y penderfyniadau y byddant yn eu cymryd, a phan byddant yn craffu trefniadau a chynigion.

## 9. Gwasanaeth Iechyd Diogelwch a Llesiant

Bydd y Gwasanaeth Iechyd Diogelwch a Llesiant yn cyflawni'r rôl statudol o ddarparu cyngor cymwys i'r Cyngor ar faterion iechyd diogelwch a llesiant, a bydd un Ymgynghorydd o'r Gwasanaeth yn cael ei ddynodi fel prif bwynt cyswllt gyda phob Adran. Yn ogystal, bydd y Gwasanaeth yn:

**9.1.** Hyrwyddo agwedd gadarnhaol a diwylliant yn seiliedig ar reolaeth synhwyrol o iechyd a diogelwch ar bob lefel yn y Cyngor

**9.2.** Datblygu polisïau, gweithdrefnau a chanllawiau ar risgiau cyffredin ble fo goblygiadau ar draws Adrannau'r Cyngor.

**9.3.** Cynghori Rheolwyr ar gynnwys asesiadau risg ble fo risgiau uchel a / neu chymhleth y mae angen mewnbwn arbenigol iddo.

**9.4.** Cynghori ar ddatblygu cynlluniau gweithredu iechyd a diogelwch yn cynnwys gosod amcanion realistig byrdymor a hirdymor.

**9.5.** Cynghori ar ofynion hyfforddiant iechyd a diogelwch cyffredinol ynghyd â darparu rhai elfennau o'r rhaglen hyfforddiant.

**9.6.** Cynnal ymchwiliadau i ddamweiniau a digwyddiadau difrifol o adroddir arnynt o dan reoliadau RIDDOR, neu ddamweiniau difrifol fu bron a digwydd.

**9.7.** Archwilio neu arolygu eiddo, Wasanaeth, prosesau, peiriannau a gweithgarwch o bryd i'w gilydd er mwyn pennu os oes cydymffurfiad â'r ddeddfwriaeth berthnasol, a p'un ai yw'r gofynion statudol iechyd, diogelwch a lles yn cael eu cyrraedd cyn belled ag y bo hynny'n rhesymol ymarferol gan adrodd ar y canfyddiadau i'r Tîm Rheoli Adrannol fel isafswm.

**9.8.** Gweithredu fel y prif bwynt cyswllt rhwng y Cyngor ac awdurdodau gorfodaeth megis AGID, neu'r Gwasanaeth Tân ac Achub.

**9.9.** Gweithredu awdurdod i roi terfyn ar waith neu weithgareddau mewn achosion pan fo risg annioddefol o anaf difrifol. Bydd unrhyw achos o'r angen i wneud hyn yn cael ei adrodd i'r Prif Weithredwr.

**9.10.** Cynghori ar ffitrwydd gweithiwr i weithio, ar addasiadau rhesymol a chyfyngiadau ar gyfer cyflogaeth gyfredol a phosib.

**9.11.** Darparu cyngor meddygol er mwyn cyfarwyddo asesiadau risg unigol ar weithwyr sydd â chyflyrau meddygol gwaelodol.

**9.12.** Darparu cyngor meddygol ar raglenni adfer a dychwelyd i'r gwaith.

**9.13.** Darparu gwyliadwriaeth a chyngor iechyd i unigolion a'u rheolwyr ar unrhyw risgiau i'w iechyd a diogelwch ynghyd â'r mesurau angenrheidiol i atal afiechyd a salwch rhag datblygu.

**9.14.** Darparu rhaglen gefnogi iechyd meddwl, yn cynnwys cwnsela cyfrinachol a gwasanaeth ffisiotherapi.

## 10. Gwasanaeth Eiddo Corfforaethol

Mae cyfrifoldeb landlord gan y Gwasanaeth Eiddo Corfforaethol dros ddiogelwch adeiladau Cyngor Gwynedd, ac mae hefyd yn darparu cyngor ac arweiniad ar draws pob Adran mewn perthynas â datblygu adeiladau newydd ac atgyweirio a chynnal a chadw adeiladu cyfredol. Ni ddylid ymgymryd ag unrhyw waith mewn adeilad Cyngor heb awdurdodiad gan y Gwasanaeth Eiddo Corfforaethol. Mae'r Gwasanaeth yn cysylltu gydag Adrannau i sicrhau bod contractau addas yn eu lle ar gyfer cynnal a chadw adeiladau, peiriannau, offer a gwasanaethau. Yn ogystal, mae'r Gwasanaeth yn rheoli risgiau a darparu cyngor ym maes diogelwch Eiddo sy'n ymwneud â thân, asbestos, radon, a chlefyd y lleng filwyr (*legionella*).

## 11. Cefnogi Iechyd, Diogelwch a Llesiant

draft

Bydd pob Pennaeth Adran yn rhoi ystyriaeth i enwebu swyddogion cefnogol i gynorthwyo gyda gweithredu a hyrwyddo iechyd, diogelwch a lles o fewn yr Adran. Yn gyffredinol, bydd staff cefnogol:

11.1. Wedi derbyn hyfforddiant i safon ‘Rheoli’n Ddiogel’ Sefydliad Diogelwch ac Iechyd Galwedigaethol (IOSH).

11.2. Yn gweithredu fel pwynt cyswllt ar faterion iechyd, diogelwch a lles o fewn y gwasanaeth neu adrannau penodol o’r gwasanaeth.

11.3. Yn cynorthwyo’r Uned Iechyd, Diogelwch a Lles Corfforaethol i godi ymwybyddiaeth o faterion iechyd, diogelwch a lles o fewn y Gwasanaeth.

11.4. Ymgymryd a rhai tasgau iechyd a diogelwch i gynorthwyo Rheolwyr

11.5. Yn mynychu cyfarfodydd ble bo’r angen.

drafft

**Adran 3**

## TREFNIADAU AR GYFER GWEITHREDU'R POLISI

Er mwyn sicrhau bod iechyd, diogelwch a lles yn cael eu rheoli'n effeithiol, rhaid sicrhau bod trefniadau digonol yn eu lle er mwyn galluogi staff i ymgymryd â'u dyletswyddau a'u cyfrifoldebau yn ddiogel.

### 1. Dogfennaeth.

Rhaid cefnogi'r Polisi hwn gan ddogfennaeth ychwanegol sy'n rhoi sylw pellach i bynciau iechyd a diogelwch penodol. Yng Nghyngor Gwynedd, mae'r dogfennau cefnogol hyn ar ffurf dogfennau gweithdrefn neu ddogfennau canllaw.

**Dogfennau gweithdrefn:** yn nodi'r ffordd i ymgymryd â gweithgaredd neu broses, ac maent yn fandadol.

**Dogfennau canllaw:** eu nod yw darparu gwybodaeth a chyfeiriad ar arferion gweithio da er mwyn galluogi rheolwyr a staff i ymgymryd â'u dyletswyddau yn effeithiol a chydymffurfio â gweithdrefnau.

Gall dogfennau gweithdrefn a chanllaw Iechyd a Diogelwch fod mewn un o'r tair ffurf a ganlyn:

Corfforaethol
Adrannol
Lleol

**Lefel Gorfforaethol**
Mae gweithdrefnau a chanllawiau'r polisïau corfforaethol yn berthnasol i'r holl staff beth bynnag fo'u Hadran, Gwasanaeth neu leoliad.

**Lefel Adrannol**
Mae'r dogfennau gweithdrefn neu ganllaw yn berthnasol ar lefel Adrannol yn unig. Nid yw'n bosib nac yn ddymunol i'r Gwasanaeth Iechyd, Diogelwch a Lles Corfforaethol sefydlu gweithdrefnau sy'n gallu ymdrin â phob tasg neu sefyllfa ac yn bodloni anghenion pob Adran a Gwasanaeth. Felly, dylai Adrannau Unigol ddatblygu fframwaith rheoli iechyd a Diogelwch sy'n cyflawni eu hanghenion unigol er mwyn ategu'r gweithdrefnau corfforaethol.

**Lefel Lleol**
Mae gweithdrefnau a chanllawiau yn benodol i'r uned gwasanaeth neu'r lleoliad yn unig.

**Cyfathrebu ac Ymgynghoriad**

Mae'r Cyngor yn cydnabod ei gyfrifoldebau dan Reoliadau Iechyd a Diogelwch (Ymgynghori â Gweithwyr) 1996, a Rheoliadau Cynrychiolwyr Diogelwch a Rheoliadau Pwyllgorau Diogelwch 1977. Bydd y Cyngor yn ymgynghori'n ffurfiol gyda Chynrychiolwyr a benodwyd ynglŷn â materion iechyd a diogelwch sy'n effeithio ar weithwyr ar lefel corfforaethol drwy'r Panel Iechyd, Diogelwch a Lles Corfforaethol. Bydd ymgynghoriad ar lefel adrannol hefyd yn cael ei gynnal drwy fforymau Iechyd a Diogelwch Adrannol a thrwy sicrhau bod iechyd a diogelwch yn eitemau safonol ar raglenni pob cyfarfod tîm.

Yn ogystal ag ymgynghori, bydd gwybodaeth ar faterion iechyd a diogelwch yn cael ei rhannu gyda staff drwy'r hyn a ganlyn:

Hysbysfyrddau ym mhob gweithle ble gall Rheolwyr Safle a Gwasanaeth arddangos gwybodaeth.
Mewnrwyd Cyngor Gwynedd
Newyddlen Cyngor Gwynedd
Arwyddion
Cofnodion cyfarfodydd Fforymau Iechyd a Diogelwch Adrannol

draft

**Monitro Iechyd a Diogelwch**

Bydd effeithiolrwydd y Polisi Iechyd a Diogelwch Corfforaethol a’r safonau Iechyd a Diogelwch a gyflawnir gan Gyngor Gwynedd yn cael eu monitro’n weithredol.

**Monitro Rhagweithiol**

- Bydd pob Adran yn cynnal Fforwm Iechyd, Diogelwch a Llesiant Adrannol o leiaf ddwy waith y flwyddyn. Dylai’r Pennaeth Adran benderfynu ar yr aelodaeth fwyaf priodol o’u Hadran ond rhaid i fforymau gynnwys Rheolwr o bob Gwasanaeth o fewn eu Hadran, Ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch, ynghyd â chynrychiolwyr staff a / neu gynrychiolwyr undeb.

- Bydd y Fforwm Iechyd Diogelwch a Llesiant Corfforaethol yn cyfarfod yn chwarterol. Mae’r Grŵp hwn yn cael ei gadeirio gan y Pennaeth / Pennaeth Cynorthwyol Cefnogaeth Gorfforaethol a’i brif swyddogaeth yw monitro risgiau iechyd a diogelwch corfforaethol yn ogystal â hybu iechyd a lles y gweithle. Fel rhan o fonitro corfforaethol, bydd gofyn i Adrannau unigol adrodd o bryd i’w gilydd ar eu cynlluniau gweithredu. Mae angen i bob Pennaeth Adran enwebu person addas i fynychu’r fforwm ar eu rhan ar lefel Rheolwr fel isafswm. Mae materion brys a godir gan aelodau’r Fforwm yn cael eu dwyn i sylw’r Prif Weithredwr a’r Aelodau(au) Cabinet perthnasol yn uniongyrchol tra bo materion eraill yn cael eu hadrodd i’r Panel Iechyd Diogelwch a Llesiant.

- Bydd y Panel Iechyd a Diogelwch a Llesiant Corfforaethol yn cyfarfod ddwy waith y flwyddyn. Bydd aelodaeth yn cynnwys aelodau etholedig penodedig, gan gynnwys yr Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol, cynrychiolwyr undeb, y Prif Weithredwr, Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol a’r Rheolwr Gwasanaeth Iechyd, Diogelwch a Llesiant.

- Bydd y Gwasanaeth Iechyd Diogelwch a Llesiant yn tynnu sylw y Prif Weithredwr a’r Aeloda(au) Cabinet perthnasol i unrhyw bryder iechyd a diogelwch sy’n codi trwy gwyn / damwain /neu archwiliad ble nad ydynt yn fodlon fod gweithrediad o fewn yr Adran(au) perthnasol.

- Bydd cynlluniau gweithredu iechyd a diogelwch adrannol yn cael eu monitro drwy system reoli perfformiad y Cyngor, sy’n cael ei monitro drwy’r drefn herio perfformiad a Phwyllgor Craffu’r Cyngor.

- Bydd y Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol yn ogystal a Grŵp Rheoli’r Cyngor, y Tim Rheoli a’r Cabinet yn derbyn yr adroddiad blynyddol ar berfformiad iechyd a diogelwch y Cyngor.

**Monitro Adweithiol**

- Bydd pob adroddiad am ddamwain, anaf, digwyddiad, neu fethiant agos yn cael eu hadolygu gan yr Uned Iechyd, Diogelwch a Lles corfforaethol, ble bydd swyddogion yn penderfynu ar lefel y gweithredu dilynol sy’n ofynnol. Bydd pob adroddiad am ddamwain, anaf, digwyddiad a chwyn yn cael eu mewnbynnu i’r bas data iechyd a diogelwch ac adroddir ar yr ystadegau yn chwarterol wrth y Prif Weithredwr.

- Cynhelir a chofnodir ymchwiliadau ffurfiol i ddamweiniau / digwyddiadau. Bydd lefel yr ymchwiliad yn ddibynnol ar natur y digwyddiad ond bydd ymchwiliadau lefel uchel yn cael eu harwain gan y Gwasanaeth Iechyd Diogelwch a Llesiant mewn cydweithrediad a’r rheolwr Gwasanaeth perthnasol.

- Adroddir am ddigwyddiadau perthnasol i’r AGID, fel y’u diffinnir gan Reoliadau Adrodd am Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus 1995 (RIDDOR). Bydd y Gwasanaeth Iechyd Diogelwch a Llesiant yn gyfrifol am adrodd.

- Caiff gwybodaeth ystadegol am ddigwyddiadau ei choladu a’i dadansoddi a’i defnyddio i

ddarparu tueddiadau a gwybodaeth arall fel y gellir targedu ymyriad ble ceir yr un problemau.

**Gwerthuso**


Defnyddir y fframwaith werthuso i osod a mesur perfformiad pob unigolyn ac mae'n cynnwys iechyd a diogelwch. Defnyddir gwerthuso hefyd i nodi anghenion dysgu a datblygu iechyd a diogelwch unigolion ac i fonitro datblygiad cymhwysedd.

## ADOLYGU'R POLISI

Bydd y Gwasanaeth Iechyd Diogelwch a Llesiant yn gyfrifol am adolygu'r polisi hwn ar ddechrau pob blwyddyn galendr, neu pam fo unrhyw newid arwyddocaol.

drafft

**Atodiad A**


Cynrychiolwyr Undeb
Unigolyn
Fforwm Iechyd Diogelwch a Llesiant Adrannol
Rheolwr Tîm
Tîm Gwasanaeth
Ymgynghorydd Iechyd, Diogelwch a Lles
Cyfarfodydd Tîm Iechyd, Diogelwch a Llesiant
Penderfyniad
Fforwm Iechyd Diogelwch a Llesiant Corfforaethol
Grŵp Rheoli
Derbyniol
Dim neu Annerbyniol
Tîm Rheoli Corfforaethol
Gweithdrefn Gwynion
Panel Iechyd, Diogelwch a Llesiant Corfforaethol
Penderfyniad
Argymhelliad
Cabinet

**Atodiad B**

Aelodaeth a Gweithgareddau Arferol ar gyfer Fforymau Iechyd a Diogelwch Adrannol

Bydd yr aelodaeth yn cynnwys:

1. Pennaeth Adran
2. Rheolwyr Gwasanaeth
3. Ymgynghorydd Iechyd, Diogelwch a Lles
4. Cynrychiolwyr Diogelwch yr Undebau Llafur
5. Cynrychiolydd Gweithwyr yn y Gweithle
6. Cynorthwywyr neu Gydlynwyr Iechyd, Diogelwch a Lles (os y'u dynodwyd)
7. Rheolwr Iechyd, Diogelwch a Lles neu ei gynrychiolydd (fel bo'r angen)

Bydd y Fforymau yn ymgymryd â'r gweithgareddau a ganlyn:

1. Adrodd am ystadegau damweiniau a digwyddiadau er mwyn nodi tueddiadau a mesurau i leihau'r digwyddiadau a gwella arferion a gweithdrefnau gweithio;
2. Ymdrin â materion a phryderon a godir gan aelodau'r fforwm;
3. Trafod a cheisio datrys materion iechyd, diogelwch a lles a godir yng nghyfarfodydd y Rheolwyr Gwasanaeth sydd â goblygiadau ehangach i'r Adran;
4. Monitro gweithredu'r argymhellion o'r adroddiadau i ddigwyddiadau difrifol;
5. Cynorthwyo gyda datblygu rheolau diogelwch ac arferion gweithio diogel;
6. Gwirio adroddiadau archwiliadau diogelwch;
7. Monitro cynnwys ac effeithiolrwydd hyfforddiant iechyd, diogelwch a lles;
8. Monitro digonolrwydd cyfathrebu a chyhoeddusrwydd o ran iechyd, diogelwch a lles yn y gweithle; a
9. Derbyn/trafod adroddiadau gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ac unrhyw gorff gorfodaeth arall.

Mewn rhai achosion, efallai y bydd yn briodol i aelodau enwebedig o'r Fforwm Iechyd, Diogelwch a Llesiant gymryd rhan mewn archwiliadau iechyd, diogelwch a lles.

draft

**Atodiad C**

**PANEL IECHYD, DIOGELWCH A LLES CORFFORAETHOL CYNGOR GWYNEDD**

**CYFANSODDIAD**

**1. Cyd-destun**

Mae'r Panel hwn yn ffurfio rhan o drefniadau rheoli iechyd, diogelwch a lles corfforaethol Cyngor Gwynedd. Bydd y Panel yn gweithredu yng nghyd-destun Polisi Iechyd, Diogelwch a Lles y Cyngor sydd wedi'i gyhoeddi.

**2. Teitl**

Gelwir y Panel yn Banel Iechyd, Diogelwch a Llesiant Corfforaethol Cyngor Gwynedd.

**3. Cylch Gorchwyl**

3.1 Bydd y Panel yn ystyried yr holl faterion sy'n ymwneud â goblygiadau cyfreithiol y Cyngor a'i weithwyr dan ddarpariaeth Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 a deddfwriaeth gysylltiedig eraill a gall wneud argymhellion ynglŷn â hwy, ac ynglŷn â materion yr ystyrir yn briodol er mwyn gweithredu polisi Iechyd a Diogelwch cymeradwy'r Cyngor.

Bydd y Panel hefyd yn cymryd rôl arweiniol yn symud ymlaen ac integreiddio mentrau hyrwyddo iechyd o fewn arferion cyflogaeth y Cyngor.

3.2 Bydd y Panel yn ystyried yr hyn a ganlyn yn benodol:

3.2.1. Cynnal a datblygu systemau ac arferion gweithio diogel, yn ogystal â hyrwyddo ymwybyddiaeth diogelwch ar bob lefel yn y Cyngor.

3.2.2. Hyrwyddo datblygiad Fforymau Iechyd, Diogelwch a Lles Adrannol yn weithredol er mwyn mynd i'r afael â materion gweithredol sy'n berthnasol i'r Adrannau gwahanol.

3.2.3. Hyfforddi'r gweithwyr a dosbarthu gwybodaeth iddynt hwy ac aelodau etholedig ynghylch hyrwyddo iechyd, diogelwch a lles yn y gwaith.

3.2.4. Datblygu mentrau hyrwyddo iechyd ar gyfer gweithlu'r Cyngor ac aelodau etholedig.

3.2.5. Diwygiadau i ddeddfwriaeth a rheoliadau Iechyd a Diogelwch a allai effeithio ar fusnes y Cyngor ac arferion cyflogaeth.

3.2.6. Diweddaru neu gyflwyno gweithdrefnau corfforaethol ynghylch hyrwyddo iechyd, diogelwch a lles.

3.2.7. Materion yn ymwneud â Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol y Cyngor, yn benodol o ran y defnydd a wneir ohono, y tueddiadau a'r gwariant.

3.2.8. Adroddiadau chwarterol a dadansoddiad o'r damweiniau a'r digwyddiadau gan gynnwys adroddiadau eithriedig ynglŷn â damweiniau neu ddigwyddiadau difrifol. Gall y Panel argymell y dylid unioni'r cam a/neu gymryd camau archwilio pellach er mwyn mynd i'r afael â phryderon penodol ynghylch yr uchod.

3.2.9. Adroddiadau sy'n dangos arfer dda, a threfniadau ar gyfer dosbarthu'r wybodaeth ar draws y Cyngor.

draft

3.2.10. Adroddiadau ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall a ddarperir gan unrhyw aelod o'r Panel a allai fod â goblygiadau corfforaethol posib neu faterion na ellir eu datrys ar lefel Adrannol ar ôl defnyddio holl drefniadau rheolaeth llinell yr Adran.

3.2.11. Unrhyw faterion corfforaethol eraill o fewn sgôp ei gylch gorchwyl y cyfeirir atynt gan y Cabinet neu unrhyw Bwyllgor o'r Cyngor neu'r undebau llafur.

## 4. Aelodau'r Panel

### 4.1 Aelodau gyda Phleidlais

Y rhai a ganlyn fydd yr aelodau gyda phleidlais ar y Panel:

| | |
|---|---|
| Cynrychiolydd y Cyflogwr: | • Pedwar aelod etholedig o'r Cyngor (yn cynnwys Pencampwr Iechyd a Diogelwch)<br>• Prif Weithredwr<br>• Pennaeth Adran Cefnogaeth Gorfforaethol |
| Cynrychiolwyr y gweithiwr: | Dau gynrychiolydd o bob un o'r undebau cydnabyddedig – GMB, UNSAIN, Unite |

(Bydd cynrychiolwyr undebau eraill yn derbyn gwahoddiad fel aelodau heb bleidlais, pan fo mater a drafodir yn berthnasol i'w haelodau hwy.)

4.2 Bydd Pennaeth Cynorthwyol Cefnogaeth Gorfforaethol a'r Rheolwr Iechyd Diogelwch a Llesiant yn aelodau heb bleidlais o'r Panel.

### 4.3 Cadeirydd ac Is-gadeirydd

4.3.1. Penodir Cadeirydd ac Is-gadeirydd yng nghyfarfod cyntaf y Panel bob blwyddyn yn dilyn Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Cyngor.

4.3.2. Bydd aelod etholedig a chynrychiolydd y gweithwyr yn cymryd swydd y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd bob yn ail. Pan fo swydd y Cadeirydd wedi'i derbyn gan aelod etholedig bydd yr Is-gadeirydd yn gynrychiolydd y gweithwyr, neu fel arall.

4.3.3. Yn absenoldeb y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd, bydd y Panel yn penodi aelod arall o'r Panel i lywyddu'r cyfarfod.

### 4.4 Presenoldeb eraill

O bryd i'w gilydd, yn dibynnu ar y materion a gaiff eu trafod, bydd rhaid derbyn cyngor arbenigol gan unigolion nad ydynt yn aelodau'r Panel. Bydd rhaid hysbysu'r Cadeirydd cyn y cyfarfod os bydd angen presenoldeb unigolyn arall. Bydd yr unigolyn yn bresennol yn y cyfarfod ar sail ymgynghorol yn unig.

4.5 **Cworwm**

Y cworwm ar gyfer cyfarfod o’r Panel yw dau gynrychiolydd y cyflogwr a dau gynrychiolydd y gweithwyr.

4.6 **Cynrychiolwyr sy’n Dirprwyo**

Caniateir cynrychiolwyr sy’n dirprwyo. Os bydd aelodau’r Panel yn methu â bod yn bresennol rhaid iddynt hysbysu’r Cadeirydd gyda manylion eu dirprwy a bydd rhaid iddo/iddi fod mewn sefyllfa i wneud penderfyniadau ble bo’r angen ac yn achos undebau llafur, rhaid iddo/iddi fod o’r Undeb Lafur dan sylw.

## 5. Amlder Cyfarfodydd

5.1. Bydd y Panel yn cyfarfod o leiaf ddwy waith y flwyddyn. Bydd y dyddiadau ar gyfer cyfarfodydd y flwyddyn yn cael eu sefydlu yng nghyfarfod cyntaf y Panel ar ôl Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Cyngor.

5.2 Gall y Cadeirydd neu’r Is-gadeirydd wneud cais i Bennaeth yr Adran Cefnogaeth Gorfforaethol drefnu cyfarfod ar unrhyw amser er mwyn trafod unrhyw fater sydd mor bwysig fel na ellir ei ohirio tan y cyfarfod nesaf a drefnwyd, neu os bydd angen ystyried mater penodol yn fanwl.

## 6. Rheoli’r Rhaglen a’r Cofnodion

6.1 Bydd rhaglen y cyfarfod yn cael ei chylchredeg bum diwrnod gwaith cyn y cyfarfod.

6.2 Bydd hawl gan unrhyw aelod o’r Panel i hysbysu Pennaeth yr Adran Cefnogaeth Gorfforaethol ei fod ef/hi yn dymuno cynnwys eitem ar y rhaglen sy’n berthnasol i swyddogaeth y Panel er mwyn ei thrafod yng nghyfarfod y Panel.

6.3 Mewn amgylchiadau pan fydd ansicrwydd p’un ai yw eitem arfaethedig yn rhan o gylch gorchwyl y Panel neu beidio, bydd y Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol yn ymgynghori â’r Cadeirydd.

6.4 Bydd yr holl eitemau sydd i’w trafod mewn unrhyw gyfarfod o’r Panel yn cael eu datgan yn y rhaglenni a’u cefnogi ble bo’n bosib gan adroddiadau cyn belled na fydd materion brys eraill yn cael eu hystyried os y’u derbyniwyd gan y Cadeirydd cyn cychwyn y cyfarfod.

6.5 Pennaeth yr Adran Cefnogaeth Gorfforaethol sy’n gyfrifol am gadw cofnodion o weithrediadau pob cyfarfod o’r Panel. Bydd y cofnodion yn dangos yn glir pa swyddog(ion), aelod(au) etholedig, cynrychiolydd/cynrychiolwyr undebau llafur neu gorff sydd wedi’u rhoi ar waith i gymryd y camau a argymhellwyd gan y Panel.

6.6 Bydd holl argymhellion y Panel yn cael eu penderfynu gan fwyafrif yr aelodau sy’n bresennol. Os bydd y bleidlais yn gyfartal, bydd hawl gan y Cadeirydd i ail bleidlais neu bleidlais fwrw.

## 7. Awdurdod / Trefniadau Adrodd

7.1 Ffurfiwyd y Panel fel panel ymgynghorol ac nid oes ganddo bwerau gwneud penderfyniadau gweithredol.

7.2 Gall materion a drafodir gan y Panel sydd angen penderfyniad cyn eu gweithredu gael eu cyfeirio at y Pennaeth Adran perthnasol, y Prif Weithredwr neu’r Cabinet, fel

Drafft

bo'n briodol.

7.3 Bydd materion a drafodir gan y Panel sydd o fewn cylch gorchwyl y Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol yn cael eu cyfeirio at y Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol.

## 8. Cyfnod y Swydd

8.1 Mae cynrychiolwyr y cyflogwr yn aelodau'r Panel yn rhinwedd eu swyddi gwleidyddol a'r swyddi rheolaethol sydd ganddynt yn hytrach nag ar sail bersonol.

8.2 Bydd cynrychiolwyr undebau llafur yn aelodau'r Panel am y cyfnod y byddant yn parhau i fod wedi'u henwebu gan yr undebau y maent yn eu cynrychioli ac yn unol â rheolau a rheoliadau unigol y sefydliadau hynny.

## 9. Adolygu'r Cyfansoddiad

Bydd y Cyfansoddiad yn cael ei adolygu'n ffurfiol bedair blynedd ar ôl ei gyflwyno, neu'n gynharach os bydd monitro a phrofiad yn dangos bod angen diwygiadau, a/neu fod newid yn y trefniadau gwleidyddol a/neu rheolaethol sy'n effeithio ar ei gynnwys.

draft

# Asesiad Effaith Cydraddoldeb

Gweler y daflen *Sut i Wneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb* am gymorth i lenwi'r ffurflen yma. Mae croeso hefyd i chi gysylltu gyda Delyth Williams, Swyddog Polisi a Chydraddoldeb ar est 32708, neu DelythGadlysWilliams@gwynedd.llyw.cymru, am gymorth pellach.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor (dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig. Mae gan y Cyngor hefyd ddyletswyddau cyffredinol ychwanegol i sicrhau tegwch a meithrin perthnasau da. Rhaid felly gwneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb amserol cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl hefo nodwedd gwarchodedig).

## 1 Manylion

### 1.1 Beth yw enw'r polisi / gwasanaeth dan sylw?

| |
|---|
| Polisi Iechyd Diogelwch a Llesiant |

### 1.2 Beth ydi pwrpas y polisi/gwasanaeth sy'n cael ei greu neu ei newid? Pa newidiadau sy'n cael eu hystyried?

| |
|---|
| Gwarchod iechyd diogelwch a llesiant staff y Cyngor tra maent yn eu gwaith, ynghyd â gwarchod diogelwch aelodau'r cyhoedd all gael eu heffeithio gan waith y Cyngor. |

### 1.3 Pwy sy'n gyfrifol am yr asesiad yma?

| |
|---|
| Catrin Love, Rheolwr Iechyd Diogelwch a Llesiant |

### 1.4 Pryd wnaethoch chi gychwyn yr asesiad? Pa fersiwn yw hwn?

| |
|---|
| Fel rhan o'r broses ymgynghori ar y polisi |

## 2) Gweithredu

### 2.1 Pwy yw'r partneriaid fydd yn rhaid gweithio hefo nhw i wneud yr asesiad yma?

| |
|---|
| Gan mai polisi mewnol yw hwn, nid ydym wedi gweithio gyda partneriaid wrth gynnal yr asesiad ei hun, ond rydym wedi ymgynghori gyda cynrychiolwyr staff trwy'r Undebau llafur ar gynnwys y Polisi ei hun. |

### 2.2 Pa gamau ydych chi wedi ei gymryd i ymgysylltu gyda phobl hefo nodweddion gwarchodedig?

| |
|---|
| Rydym fel Gwasanaeth yn gweithio'n agos gydag unigolion sydd â nodweddion gwarchodedig yn rheolaidd iawn fel rhan o'n gwaith dydd i ddydd ac yn dysgu o brofiadau ac achosion unigol yn gyson ac mae hyn wedi ei adlewyrchu yng nghynnwys yr asesiad. |

### 2.3 Beth oedd canlyniad yr ymgysylltu?

| |
|---|
| Yn gyffredinol, mae unigolion gwarchodedig yn ddiolchgar am asesiadau penodol i'w diogelu yn y gwaith ac nid ydym wedi derbyn sylwadau negyddol. |

**2.4 Ar sail pa dystiolaeth arall ydych chi'n gweithredu?**

Mae ymgynghori wedi bod gyda'r Undebau Llafur ac nid oes unrhyw wrthwynebiadau / bryderon wedi eu lleisio.

Rydym yn gweithredu ar sail yr angen cyfreithiol i gael polisi iechyd a diogelwch

**2.5 Oes yna unrhyw flychau yn y dystiolaeth sydd angen ei gasglu?**

Na. Nid oes unrhyw newidiadau o fewn y Polisi sy'n newid trefniadau gwaith presennol yn y maes cydraddoldeb ac mae trefniadau presennol yn gweithio'n dda.

## 3) Adnabod yr Effaith

**3.1 Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r effaith fydd unrhyw newidiadau'n ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb isod. Beth yw'r effaith fydd y polisi/gwasanaeth newydd neu'r newidiadau arfaethedig yn ei gael ar bobl hefo'r nodweddion hyn? Mae croeso i chwi ychwanegu nodweddion eraill os ydych chi'n dymuno.**

| Nodweddion | Sut fath o effaith? * | Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth? |
|---|---|---|
| **Hil (gan gynnwys cenedligrwydd)** | Dim | |
| **Yr iaith Gymraeg** | Dim | |
| **Anabledd** | Positif | Mae'r polisi yn cydnabod rôl y Gwasanaeth Iechyd Diogelwch a Llesiant i roi cyngor arbenigol ar addasiadau rhesymol ar sail iechyd / anabledd. |
| **Rhyw** | Dim | |
| **Oedran** | Positif | Mae'r polisi yn nodi yn benodol fod angen asesiad risg ar weithwyr ifanc sydd o dan 18 oed oherwydd eu diffyg profiad yn y gweithle sy'n eu gwneud yn fwy tebygol o gael anaf. Mae hwn yn ofyniad cyfreithiol. |
| **Cyfeiriadedd rhywiol** | Dim | |
| **Crefydd neu gred (neu ddiffyg cred)** | Dim | |
| **Ailbennu rhywedd** | Dim | |
| **Beichiogrwydd a mamolaeth** | Positif | Mae'r Polisi yn nodi yn benodol yr angen cyfreithiol i gynnal asesiad risg arbenigol ar ferched beichiog a'r cyfrifoldeb ar Reolwyr i wneud hynny. |
| **Priodas a phartneriaeth sifil** | Dim | |

* I'w ddileu yn ôl yr angen

**3.2 Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i gyfrannu'n bositif i gymdeithas decach trwy hybu cydraddoldeb a pherthynas dda yn ei weithgareddau ym meysydd oedran, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, hil, trawsrywedd, anabledd a beichiogrwydd a mamolaeth. Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r ffordd mae unrhyw newid yn effeithio'r dyletswyddau yma.**

| Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb | A yw'n cael effaith?* | Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth? |
|---|---|---|
| **Cael gwared â cham-wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth** | Ydi | Trwy wneud addasiadau mae'n caniatáu i bobl barhau i weithio neu gychwyn gweithio, pan na fyddai hynny'n bosib fel arall felly mae'n cael gwared ar gamwahaniaethu. Mae'n adnabod pryd mae'n bosib gwneud addasiadau rhesymol a phryd nad yw addasiadau'n rhesymol |
| **Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal** | Ydi | Ar sail yr uchod, mae'n hyrwyddo cyfle cyfartal |
| **Meithrin perthnasau da** | Ydi | Mae'r polisi yn sôn lawer am gyfathrebu ac yn rhoi cyfrifoldeb ar Reolwyr i gynnwys staff ar bob lefel mewn penderfyniadau a chynnwys asesiadau risg. Mae hyn yn hybu perthnasau da a chael ymdeimlad o berchnogaeth ymysg staff. |

* I'w ddileu yn ôl yr angen

## 4) Dadansoddi'r canlyniadau

### 4.1 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, bositif ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol? Beth yw'r rheswm am hyn?

| |
|---|
| Mae'r polisi a'r potensial i fod ag effaith bositif a'r nifer o unigolion sydd wedi eu gwarchod gan y ddyletswydd gyffredinol ar gydraddoldeb. Mae'n adlewyrchu yn glir y ddyletswydd gyfreithiol sydd o dan ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch hefyd i warchod unigolion megis pobl ifanc a merched beichiog yn y gweithle. Mae iechyd a diogelwch yn gyffredinol yn faes ble fo ymwybyddiaeth a gweithrediad ar faterion cydraddoldeb ar lefel aeddfed iawn oherwydd yr angen cyfreithiol i warchod pobl, boed hynny o ran eu diogelwch yn y maes iechyd a diogelwch, neu ar raddfa llawer mwy eang dan ddeddfwriaeth Cydraddoldeb. Fyddai run asesiad risg diogelwch ar wacau adeilad mewn tân fel enghraifft yn gyflawn heb roi ystyriaeth lawn i sut fyddai pobl gydag anawsterau corfforaethol yn gwacau. Mae gwaith fel hyn yn digwydd yn ddyddiol yn barod o dan y polisi presennol ac nid oes unrhyw newid o fewn y Polisi yma yn llesteirio hynny. |

### 4.2 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, negyddol ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol? Beth yw'r rheswm am hyn?

### 4.3 Beth ddylid ei wneud?

Dewiswch un o'r canlynol:

| | |
|---|---|
| Parhau gyda'r polisi / gwasanaeth gan ei fod yn gadarn | ✓ |
| Addasu'r polisi i ddileu unrhyw rwystrau | |
| Atal a dileu'r polisi gan fod yr effeithiau niweidiol yn rhy fawr | |
| Parhau a'r polisi oherwydd gellir cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol | |

**4.4 Os yn parhau hefo'r cynllun, pa gamau fyddwch chi'n cymryd i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

**4.5 Os nad ydych yn gweithredu ymhellach i ddileu neu leihau effeithiau negyddol, esboniwch pam yma.**

Am y rhesymau sydd eisoes wedi eu hamlinellu, credir fod y polisi, ac yn wir, gofynion statudol ym maes iechyd a diogelwch yn plethu yn naturiol gyda gofynion deddfwriaethol ym maes Cydraddoldeb.

**5) Monitro**

**5.1 Pa gamau fyddwch chi'n cymryd i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi neu wasanaeth (cynllun gweithredu)?**

Mae'r Gwasanaeth Iechyd Diogelwch a Llesiant yn ymdrin â materion cydraddoldeb ac asesiadau risg arbenigol sy'n disgyn o dan warchodaeth y ddeddf yn rheolaidd iawn a byddwn yn parhau i fonitro yn barhaus fod trefniadau presennol yn ddigonol.

Eitem 7

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **21 Ionawr 2020** |
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Gareth Thomas** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Roland Evans** |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | **01286 679 450** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Cynllun Gwynedd 2018-2023**<br>**Adnoddau i'r Cynllun 'Cynyddu Budd Digwyddiadau Mawrion'** |

**1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

1.1 Yn unol a phenderfyniad y Cabinet yng nghyfarfod y 15fed o Ionawr 2019 cyflwynir cais am adnoddau ariannol i gynnal y cynllun strategol i 'Gynyddu Budd Digwyddiadau Marwion'.

1.2 Gofynnir i'r Cabinet ymrwymo £50,000 o Gronfa Trawsffurfio'r Cyngor ar gyfer 2020-2021. Bydd hyn yn ein galluogi i wireddu y weledigaeth o gefnogi digwyddiadau yn unol a Chynllun Gwynedd 2018-2023.

**2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD**

2.1 Yn dilyn mabwysiadu 'Cynllun Gwynedd 2018-2023' gan y Cyngor Llawn ar yr 8fed o Fawrth 2018, mae cael y deilliannau gorau ar gyfer cymunedau a busnesau o ddigwyddiadau sy'n cael eu cynnal yng Ngwynedd wedi ei gynnwys o fewn y flaenoriaeth 'Cynyddu Budd Digwyddiadau Mawrion'.

2.2 Er mwyn ymateb i drefnwyr digwyddiadau sydd wrthi'n cynllunio ar gyfer 2020-21 a thu hwnt, mae angen derbyn penderfyniad ar yr adnoddau fydd ar gael i gefnogi'r maes er mwyn gallu dylanwadu'n gadarnhaol ar benderfyniadau'r trefnwyr i ennill y budd mwyaf i'r sir.

2.3 Er mai cyfraniadau cymharol fychan sy'n cael eu cynnig i drefnwyr digwyddiadau trwy'r gronfa hon, mae'r dylanwad a'r effeithiau yn sgîl buddsoddiad y Cyngor yn sicrhau:

- creu cyfleon i fusnesau lleol fanteisio ar gytundebau a chyflenwi gwasanaeth
- cyfleon i gymunedau a phobl ifanc Gwynedd gyfrannu at lwyddiant
- lle canolog i iaith, diwylliant a naws am le Gwynedd
- perthynas gydweithredol dda gydag Uned Digwyddiadau Mawr Llywodraeth Cymru sy'n disgwyl gweld cyfraniad arian cyfatebol gan yr Awdurdod Lleol lle cynhelir y digwyddiadau - cyn cadarnhau eu cefnogaeth.
- codi proffil Gwynedd fel lle byrlymus a lle da i fyw, i fentro ac ymweld.
- cynyddu nifer, gwariant ac arhosiad ymwelwyr trwy'r flwyddyn.

## 3. CYFLWYNIAD A DIWEDDARIAD AR BERFFORMIAD 2019-20

3.1 Trwy gyflogi Rheolwr Digwyddiadau yn yr Adran Economi a Chymuned mae'r Cyngor yn sicrhau un pwynt cyswllt ar gyfer trefnwyr digwyddiadau o fewn y Sir ac yn hyrwyddo'r ddelwedd o 'un Cyngor' wrth ddelio gyda digwyddiadau.

3.2 Nid oes cyllideb i gefnogi trefnwyr digwyddiadau y tu hwnt i'r gyllideb sydd wedi ei ddyrannu i'r maes trwy Gynlluniau y Cyngor 2014-2017 a 2018-20.

3.3 Yn unol a chais y Cabinet yn ei gyfarfod y 15fed o Ionawr 2019 fe welir isod prif allbynnau'r digwyddiadau a gefnogwyd yn ystod 2019-20. Mae gwybodaeth allbynnau unigol bob digwyddiadau i'w gweld yn Atodiad A a gwybodaeth fanylach am amcanion, nodau a chyfraniad economaidd-gymdeithasol digwyddiadau unigol ar gael gan y Gwasanaeth.

3.4 Cyfrifir yr allbynnau gan ddefnyddio model cyfrifo sydd yn cael ei argymell gan Uned Digwyddiadau Mawr Llywodraeth Cymru.

3.5 Gellir gweld o'r isod bod y prosiect wedi cwrdd a churo ei uchelgais o greu budd economaidd i Wynedd o £5m gyda budd economaidd gwerth £5,470,143 yn cael ei amcangyfrif o ddigwyddiadau 2019-20.

3.6 Gwelir bod buddsoddiad arian cyfatebol o £8,000 Cyngor Gwynedd wedi arwain at ddenu £300,000 o arian Llywodraeth Cymru i ddigwyddiadau nodweddiadol a oedd yn cymryd lle yng Ngwynedd yn 2019-20.

| | |
|---|---|
| Cyfanswm Cyllidebau'r Digwyddiadau | £1,462,388.91 |
| Gwariant cyllidebau yng Ngwynedd | £521,292.74 |
| Nifer Digwyddiadau a Gefnogwyd | 25<br>(2 x wedi canslo) |
| Nifer a gymerodd rhan | 13,004 |
| Nifer a fynychodd | 110,781 |
| Nifer o ddyddiau digwyddiadau | 54 |
| Cwmnïau a gyflogwyd o Wynedd | 504 |
| Cwmnïau a gyflogwyd o du allan i Wynedd | 448 |
| Nifer o wirfoddolwyr a gafodd gyfle | 1,552 |
| Nifer o bobl ifanc a gafodd gyfle | 2,372 |
| Budd Economaidd i Wynedd | £5,470,143.00 |
| Swyddi a ddiogelwyd yn economi'r Sir | 215 |
| Cyfraniad ariannol Gwynedd | £ 39,000.00 |
| Arian wedi' ddenu trwy Llywodraeth Cymru | £300,000.00 |

O ran gwerth am arian, dylid amlygu bod pob **£1** mae Cyngor Gwynedd wedi ei fuddsoddi yn nigwyddiadau 2019, mae economi'r Sir wedi elwa o **£140.26**

**UCHAFBWYNTIAU ERAILL 2019-20**

- Cydweithio effeithiol wedi llwyddo i sicrhau ariannu dros dair blynedd i Red Bull Hardline gan Uned Digwyddiadau Mawr Llywodraeth Cymru.
- Red Bull a Red Bull Hardline yn defnyddio Portmeirion ar gyfer eu cynhadledd Marchnata Rhyngwladol a gweithgareddau Red Bull Hardline - hyn yn deillio'n uniongyrchol o'r berthynas a ddatblygwyd gan y Rheolwr Digwyddiadau hefo Red Bull.

- Defnydd Red Bull o Blas Tan y Bwlch fel llety ar gyfer Red Bull Hardline wedi ei ddatblygu unwaith eto trwy waith y Rheolwr Digwyddiadau
- Llwyddiant digwyddiad newydd 10K Abermaw fel rhan o weithgareddau Ras y Tri Copa yn gwerthu allan y 350 o lefydd mewn dau ddiwrnod a rhestr disgwyl o 150. Mae 450 wedi eu gwerthu yn barod ar gyfer 2020-21 gan obeithio cynyddu'r nifer i 1,000
- Sylw sylweddol a gafodd yr ardal o ddarllediad byw Red Bull Hardline o Ddinas Mawddwy
- Ras y Wyddfa yn cynnwys cymal o Gwpan Rhedeg Mynydd y Byd.
- Rheolwr digwyddiadau wedi gweithio gyda neu gynghori dros 50 o gwmnïau neu gymunedau penodol parthed materion yn ymwneud â digwyddiadau.
- Gweithio ar brosiectau amrywiol a mawr posib i'r Sir ar gyfer 2020 a 2021.

**CYFLEON 2020-2021**

Mae nifer o gyfleon eisoes yn cael eu trafod ar gyfer digwyddiadau 2020-21 yn cynnwys:

- Cyfle i ddenu digwyddiadau rhyngwladol amrywiol i Wynedd ac Eryri.
- Gweithio ar ddigwyddiad goleuo nodweddiadol efo Llywodraeth Cymru a Phortmeirion
- Gweitho ar ddatblygu strategaeth Hwylio hefo RYA Cymru a Llywodraeth Cymru i elwa Bae Ceredigion.
- Gweithio efo Uned Digwyddiadau Mawr Llywodraeth Cymru yn strategol ar ddigwyddiadau eraill i'w cynnal ar draws Gwynedd yn y dyfodol.
- Gweithio i ddatblygu a chynorthwyo digwyddiadau mewn cymunedau amrywiol ar draws y Sir.
- Cydweithio gydag hyrwyddwr amlwg i sefydlu digwyddiad cerddorol yn y Faenol ar ôl blynyddoedd o beidio gweld digwyddiadau ar y safle.
- Mae cyfleon eraill yn debygol o godi yn ystod y flwyddyn.

**RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD**

4.1 Ar gyfer cyfnod nesaf Cynllun Gwynedd, bwriedir cryfhau ar brofiadau cynlluniau'r gorffennol ac adeiladu ar y modd y mae'r Cyngor yn cyd-weithio gyda threfnwyr digwyddiadau.

4.2 Rydym wedi symud i ffwrdd o roi 'grant' i drefnwyr digwyddiadau, ond yn hytrach yn cydweithio gyda hwy trwy fuddsoddi yn eu digwyddiad er mwyn cael y deilliannau gorau i'r Sir a gwerth am arian.

4.3 Bwriedir adeiladu unwaith eto ar drefn asesu ffurfiol ar gyfer adnabod y digwyddiadau i'w cefnogi. Bydd hwn wedi ei selio ar yr allbynnau disgwyliedig a'r buddion mwyaf ffafriol i bobl Gwynedd. Trwy gynnig termau ac amodau safonol wrth fuddsoddi, mae'r Gwasanaeth yn credu bod modd:

   i. Darparu cymorth ariannol ac ymarferol i ddenu a chadw digwyddiadau o fudd economaidd yn y sir a'u hannog i weithio gyda chyflenwyr lleol a hyrwyddo Gwynedd;
   ii. Datblygu cadwyn gyflenwi lleol i ddarparu nwyddau a gwasanaethau i ddigwyddiadau yng Ngwynedd a thu hwnt;
   iii. Hyrwyddo'r sir i ymwelwyr a buddsoddwyr drwy law digwyddiadau;

4.4 Trwy weithredu'r uchod, bwriedir creu busnes newydd i fentrau cynhenid Gwynedd a denu ymwelwyr a buddsoddwyr i Wynedd.

4.5 Os na fydd cyllideb ar gael ar gyfer buddsoddi mewn digwyddiadau, ni fydd modd i'r Cyngor gydweithio mor effeithlon gyda threfnwyr na dylanwadu cystal er mwyn cynyddu'r buddion i'r Sir. Gallai hyn arwain at:

4.5.1 Y risg o golli digwyddiadau o Wynedd yn gyfangwbwl neu eu gweld yn ail leoli i ardaloedd eraill o Gymru a thu hwnt;

4.5.2 Colli'r buddion economaidd i fusnesau a chymunedau Gwynedd;

4.5.3 Colli'r cyfle i godi proffil a delwedd y sir ymysg pobl Gwynedd ac ymwelwyr;

4.5.4 Colli'r cyfle i ddylanwadu ar ddefnydd o iaith a diwylliant Gwynedd mewn digwyddiadau a chynnig profiadau gwerthfawr i bobl ifanc y Sir;

4.5.5 Methu cydweithio'n effeithiol efo Uned Digwyddiadau Mawr Llywodraeth Cymru i ddenu a chefnogi digwyddiadau mawr yn y Sir gan na fyddai modd iddynt gefnogi digwyddiadau yn y Sir heb arian cyfatebol gan Gyngor Gwynedd.

4.5.6 Methu cyfle i ddylanwadau ar a hybu ansawdd, Cymreictod, naws am le a chyfleon i gwmnïau a chymunedau lleol mewn digwyddiadau

**5. CAMAU NESAF AC AMSERLEN**

5.1 Yn dilyn penderfyniad y Cabinet, bydd y cynllun prosiect yn cael ei ymestyn a chydweithio'n parhau gyda threfnwyr digwyddiadau, adrannau perthnasol y Cyngor a phartneriaid i roi'r cynllun ar waith er mwyn cynyddu'r budd o ddigwyddiadau mawrion i bobl Gwynedd.

5.2 Bydd adroddiad ar weithgareddau a llwyddiannau 2020 yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet cyn diwedd 2020 ac wedyn yn flynyddol tan ddiwedd y cynllun.

**6. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD**

**Barn Y Prif Swyddog Cyllid:**
*"Mae adnoddau digonol yng Nghronfa Trawsffurfio'r Cyngor i gwrdd â'r cais yma. Serch hynny, bydd sawl angen / defnydd haeddiannol yn cystadlu am adnodd cyfyngedig y gronfa hon, a mater i aelodau'r Cabinet fydd blaenoriaethu'r ceisiadau perthnasol."*

**Barn y Swyddog Monitro:**
*"Rwyf yn nodi'r cynnydd a'r buddion sydd yn cael eu crybwyll o fewn yr adroddiad. Er mwyn sicrhau bod y cydweithio a buddsoddiad yn dwyn ffrwyth bydd angen telerau ac amodau safonol er mwyn ymrwymo trefnwyr digwyddiadau. Dim sylwadau pellach o ochr priodoldeb."*

**Barn Aelod Lleol**: Dim yn fater lleol

**Atodiad A**

| Enw'r Digwyddiad | Gwariant cyllideb y digwyddiad | Gwariant cyllideb y digwyddiad yng Ngwynedd | Incwm y Digwyddiad | Nifer a fynychodd | Nifer a gymerodd rhan | Nifer o ddyddiau | Cwmnïau a gyflogwyd o du allan i Wynedd | Cwmnïau a gyflogwyd o Wynedd | Nifer o wirfoddolwyr a gafodd gyfle yn y digwyddiad | Nifer o bobl ifanc a elwodd | Budd Economaidd | Swyddi a ddiogelwyd | Cyfraniad Gwynedd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Coron Triphlyg Abersoch | £86,146.00 | £57,250.00 | £105,422.00 | 14,000 | 3,200 | 4 | 230 | 170 | 70 | 650 | £965,442.00 | 42 | £4,000.00 |
| Camu Tua'r copa Llanc y Llechi Trail Marathon | £175,935.00 | £50,335.00 | £168,000.00 | 24,897 | 3,078 | 3 | 11 | 57 | 394 | 112 | £1,828,375.00 | 80 | £4,000.00 |
| Red Bull - Hardline | £744,850.00 | £164,000.00 | £266,660.92 | 3,500 | 26 | 2 | 20 | 15 | 60 | 26 | £324,404.00 | 14 | £4,000.00 |
| Bash Mawr y Bala | £76,344.79 | £22,604.38 | £32,418.00 | 3,000 | 979 | 2 | 4 | 14 | 94 | 244 | £301,268.00 | 6 | £4,000.00 |
| Syrcas / Pontio | £52,900.00 | £44,000.00 | £56,500.00 | 5,833 | 532 | 9 | 5 | 20 | 80 | 176 | £406,232.00 | 8 | £4,000.00 |
| Ras y Wyddfa & Cwpan y Byd | £42,492.56 | £36,000.00 | £47,071.07 | 4,000 | 894 | 1 | 25 | 15 | 130 | 200 | £221,916.00 | 9 | £4,000.00 |
| Wythnos Dingi Abersoch & Wythnos Celfadau Cwpan Caeredin | £25,022.00 | £22,019.36 | £51,105.00 | 1,300 | 655 | 21 | 5 | 30 | 50 | 270 | £458,539.00 | 20 | £2,000.00 |
| Rasio'r Trên - Tywyn | £49,184.00 | £16,984.00 | £68,150.00 | 4,500 | 2,250 | 1 | 15 | 30 | 450 | 400 | £411,384.00 | 18 | £2,000.00 |
| Bwrlwm Bermo | **Digwyddiad wed cael ei ganslo oherwydd tywydd drwg** | | | | | | | | | | | | |
| Roc Gwlad Zip | £73,973.00 | £25,000.00 | £59,647.00 | 1001 | 400 | 1 | 7 | 2 | 0 | 0 | £1,799.00 | 0 | £2,000.00 |
| Gŵyl Fwyd Caernarfon | £31,435.50 | £22,100.00 | £38,644.00 | 32,000 | 305 | 1 | 80 | 75 | 150 | 6 | £200,428.00 | 4 | £2,000.00 |
| Ras Cychod y Tri Copa | £21,488.06 | £3,000.00 | £19,950.00 | 3,000 | 448 | 1 | 0 | 15 | 20 | 0 | £46,200.00 | 2 | £2,000.00 |
| Y Wledd Symudol | £18,840.00 | £12,000.00 | £24,891.00 | 6,950 | 67 | 3 | 41 | 40 | 20 | 118 | £221,292.00 | 9 | £2,000.00 |
| Sesiwn Fawr Dolgellau | £47,238.00 | £41,000.00 | £49,150.00 | 2,300 | 60 | 3 | 3 | 7 | 30 | 170 | £51,694.00 | 2 | £1,000.00 |
| Rasus Cychod Pŵer Caernarfon | £16,540.00 | £5,000.00 | £5,500.00 | 4,500 | 110 | 2 | 2 | 14 | 4 | 0 | £31,170.00 | 1 | £2,000.00 |
| **Cyfanswm Gwariant** | **£1,462,388.91** | **£521,292.74** | **£993,108.99** | **110,781** | **13,004** | **54** | **448** | **504** | **1,552** | **2,372** | **£5,470,143.00** | **215** | **£39,000** |

**ADRODDIAD I'R CABINET**
21 IONAWR 2020

**Aelod Cabinet:** Cynghorydd Ioan Thomas, Aelod Cabinet Cyllid

**Pwnc:** Cyllideb Refeniw 2019/20 – Adolygiad Diwedd Tachwedd 2019

**Swyddog cyswllt:** Ffion Madog Evans, Uwch Reolwr Cyllid

---

## 1. Y penderfyniad a geisir

Gofynnir i'r Cabinet:

- Dderbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd Tachwedd 2019 o'r Gyllideb Refeniw, ac ystyried y sefyllfa ariannol ddiweddaraf parthed cyllidebau pob adran / gwasanaeth.

- Nodi fod gorwariant sylweddol gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant eleni, gan bod angen egluro manylder cymhleth yn y darlun yma yng ngofal Oedolion, mae'r Prif Weithredwr eisioes wedi galw cyfarfod o'r swyddogion perthnasol a chomisiynu gwaith er mwyn cael gwell dealltwriaeth a rhaglen glir i ymateb. I geisio cyfarch y gorwariant i'r dyfodol, mae adnodd ychwanegol wedi ei ddyrannu fel rhan o'r drefn bidiau ar gyfer cyllideb 2020/21.

- Nodi fod Tasglu Cyllideb Plant wedi ei gomisiynu gan y Prif Weithredwr i roi sylw i faterion ariannol dyrys yr Adran Plant a Theuloedd fel bod modd mynd at wraidd gorwariant yr Adran, gyda'r bwriad o gyflwyno adroddiad gerbron y Cabinet fydd yn manylu ar y cynllun ymateb. I geisio cyfarch y gorwariant i'r dyfodol, mae adnodd ychwanegol wedi ei ddyrannu fel rhan o'r drefn bidiau ar gyfer cyllideb 2020/21.

- Ar gyllidebau Corfforaethol, fod:

- (£198k) o gynnyrch treth ychwanegol ar Bremiwm Treth y Cyngor yn cael ei ychwanegu at y £2.7 miliwn sydd eisioes wedi ei neilltuo yn 2019/20 i'w ystyried ar gyfer y Strategaeth Dai.
- (£75k) yn ymwneud â chostau cyfalaf yn cael ei neilltuo i gronfa ariannu'r rhaglen gyfalaf.
- (£500k) o danwariant Corfforaethol yn cael ei neilltuo i gyllido diffyg grant yn y maes gwasanaethau cymdeithasol cynaliadwy.
- (£312k) i'w ddefnyddio i gyllido bidiau un-tro sydd wedi eu cyflwyno gan yr Adrannau ar gyfer gwariant yn 2020/21.
- y gweddill sef (£502k) yn mynd i falansau cyffredinol y Cyngor.

## 2. Cyflwyniad / Cefndir

Cyfrifoldeb y Cabinet yw cymryd camau, fel bo angen, er mwyn sicrhau rheolaeth briodol dros gyllidebau'r Cyngor (e.e. cymeradwyo trosglwyddiadau sylweddol neu gyllideb ychwanegol).

Cyflwynir yr adroddiad ddiwedd Tachwedd yma ar yr adolygiad diweddaraf o gyllideb refeniw'r Cyngor am 2019/20, ac amlinellir grynhoad o'r sefyllfa fesul Adran yn **Atodiad 1**. Mae'r adroddiad yma yn adlewyrchu'r strwythur diweddaraf, yn dilyn sefydlu'r Adran Tai ac Eiddo ar 1 Medi 2019, gyda gwasanaethau wedi trosglwyddo o'r Adran Amgylchedd ac hefyd o'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant.

Yn **Atodiad 2,** rhoddir fanylion pellach yn ymwneud â'r prif faterion a'r penawdau cyllideb ble rhagwelir gwahaniaethau sylweddol, ynghyd ag argymhellion penodol ble'n briodol.

Mae arwyddion fod rhai trafferthion cyflawni arbedion yn cael eu hamlygu eleni, gan ein bod yn ceisio isafu'r ardrawiad ar drigolion Gwynedd drwy gyflawni arbedion effeithlonrwydd, mae'n llawer anoddach na thorri gwasanaethau.

Yn amlwg mae trafferthion sylweddol yn rhai adrannau eleni:

### 2.1 Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant

Y rhagolygon diweddaraf yn awgrymu dros £1.8 miliwn o orwariant, sydd yn cael ei leddfu yn rhannol i £658k yn dilyn derbyniad grant a defnydd o gyllid un-tro. Y gorwariant yn gyfuniad o nifer o ffactorau gan gynnwys methiant i wireddu nifer o gynlluniau arbedion gwerth bron i filiwn. Pwysau cynyddol ar y gyllideb Llety Cefnogol yn Pobl Hŷn ac Anabledd Dysgu, gyda'r gorwariant gan y gwasanaeth Darparu yn parhau.

### 2.2 Adran Plant a Theuluoedd

Pwysau cynyddol ar y gwasanaethau gyda'r niferoedd o blant mewn gofal ar ei lefel uchaf i'w gymharu â blynyddoedd cynt, yn dilyn o hyn, lefel gorwariant yr Adran Plant a Theuluoedd wedi dwysáu ymhellach eleni i £3.2 miliwn, gyda rhagolygon o dros £2.6 miliwn o orwariant yn y maes lleoliadau, gyda chyfran sylweddol o'r gorwariant ar leoliadau all-sirol. Mae tasglu Cyllideb Plant eisioes wedi ei sefydlu i roi sylw i faterion ariannol dyrys y maes.

### 2.3 Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol

Problemau gorwariant yn y maes casglu a gwaredu gwastraff yn parhau eleni, costau trosiannol cyn symud i drefniadau newydd wedi arwain at orwariant uwch eleni.

## 2.4 Amgylchedd

Fel rhan o'r adolygiad diwedd Awst, derbyniodd yr Adran Amgylchedd gymeradwyaeth y Cabinet i neilltuo £220k o'u tanwariant eleni tuag at gostau yn dilyn adolygiad barnwrol yn ymwneud â Ffordd fynedfa Llanbedr. Gan nad yw'r rhagolygon tanwariant mor addawol erbyn hyn, yn dilyn dirywiad sylweddol yn y rhagolygon incwm parcio, nid yw'r tanwariant bellach yn ddigonol i'w gyllido ond gwell byddai aros tan ddiwedd y flwyddyn ariannol i gael cadarnhad o'r union sefyllfa.

## 2.5 Corfforaethol

Rhagolygon ffafriol o gynnyrch treth ychwanegol ar Dreth Cyngor a Premiwm Treth Cyngor, serch hyn, parhad yn y tueddiad i ôl-ddyddio trosglwyddiadau o Dreth Cyngor i Drethi Annomestig. Niferoedd sydd yn hawlio Gostyngiadau Treth Cyngor ar ei lefel isaf am y bedwaredd blynedd yn olynol, sydd yn gyson â'r tueddiad ar hyd Cynghorau'r Gogledd a Chanolbarth Cymru.

Tanwariant net ar gyllidebau Corfforaethol sydd yn cynnwys costau cyfalaf, dychwelyd bidiau, derbyniad grant ac nid yw'r pwysau ar nifer o gyllidebau mor ddwys â'r hyn a ragwelwyd yn wreiddiol.

Argymhellir neilltuo y tanwariant ar Premiwm Treth y Cyngor i'w ystyried ar gyfer y Strategaeth Dai a'r tanwariant ar gostau cyfalaf i'w neilltuo i ariannu'r rhaglen gyfalaf. Y galwad cyntaf ar y tanwariant cyffredinol Corfforaethol i gyllido'r £500k diffyg grant Cefnogi Gwasnaethau Cymdeithasol Cynaliadwy, (£312k) i ariannu bidiau un-tro sydd wedi eu cyflwyno gan yr Adrannau ar gyfer gwariant 2020/21 gyda'r gweddill sef (£502k) i fynd i falansau cyffredinol y Cyngor.

## 3. Cyffredinol

Mae'r adolygiad ddiwedd Tachwedd o'r cyllidebau yn dangos darlun cymysg, gyda rheolaeth ariannol dderbyniol gan nifer o adrannau'r Cyngor. Mae'r pwysau sydd ar adrannau yn amlwg eleni, gyda'r adrannau yn cael trafferthion dygymod gyda'r galw ychwanegol yma. Argymhellir cyfuniad o gamau gweithredu pendant i'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant a'r Adran Plant a Theuluoedd.

## 4. Camau nesaf ac amserlen

Gweithredu ar yr argymhellion gerbron a chyflwyno adroddiad dilynol i'r Cabinet ganol Mai 2020 ar sefyllfa diwedd y flwyddyn ariannol 2019/20.

**Barn yr aelod lleol**
Dim yn berthnasol

---

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Swyddog Monitro:**
Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Y Pennaeth Cyllid:**
Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

---

**Atodiadau**
Atodiad 1 – Crynhoad o sefyllfa net cyllidebau'r adrannau
Atodiad 2 – Manylion y cyllidebau a'r gwahaniaethau sylweddol

---

## Cyllideb Refeniw 2019/20 - Crynhoad o'r sefyllfa fesul Adran

| | Adolygiad Diwedd Tachwedd | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cyllideb Arfaethedig 2019/20 £'000 | Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2019/20 £ '000 | Addasiadau a Argymhellir £'000 | Amcan Gor/ (Tan) Wariant Addasedig 2019/20 £ '000 | *Amcan Sefyllfa Adolygiad Diwedd Awst £ '000* |
| **Oedolion, Iechyd a Llesiant** | **51,347** | **658** | **0** | **658** | *1,575* |
| **Plant a Theuluoedd** | **14,406** | **3,161** | **0** | **3,161** | *2,909* |
| **Addysg** | **89,501** | **16** | **0** | **16** | *87* |
| **Economi a Chymuned** | **5,170** | **14** | **0** | **14** | *(7)* |
| **Priffyrdd a Bwrdeistrefol** | **25,850** | **970** | **0** | **970** | *733* |
| **Amgylchedd** | **3,706** | **(105)** | **0** | **(105)** | *0* |
| **Ymgynghoriaeth Gwynedd** | **66** | **87** | **0** | **87** | *42* |
| **Tai ac Eiddo** | **5,296** | **30** | **0** | **30** | *24* |
| **Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol** | **1,705** | **(77)** | **0** | **(77)** | *(117)* |
| **Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth)** | **6,265** | **(75)** | **0** | **(75)** | *(61)* |
| **Cefnogaeth Gorfforaethol** | **7,405** | **(96)** | **0** | **(96)** | *(100)* |
| **Cyllidebau Corfforaethol** *(Gwahaniaethau yn unig)* | * | **(1,087)** | **1,087** | **0** | *0* |
| **Cyfansymiau (net)** | **210,717** | **3,496** | **1,087** | **4,583** | *5,085* |

Atodiad 2

**CYLLIDEB REFENIW 2019/20 - ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD**

| **Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant** | Cyllideb Arfaethedig 2019/20 | Amcan Sefyllfa Terfynol 2019/20 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2019/20** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2019/20** | Amcan Gor/(Tan) Wariant Adolygiad Awst 2019 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Gwasanaethau Oedolion** | | | | | | |
| Gwasanaethau Pobl Hŷn | | | | | | |
| Preswyl a Nyrsio - Cartrefi | 13,447 | 13,522 | 75 | 0 | 75 | 645 |
| Gofal Cartref | 6,831 | 6,336 | (495) | 0 | (495) | (461) |
| Eraill | 199 | 1,404 | 1,205 | 0 | 1,205 | 905 |
| | 20,477 | 21,262 | 785 | 0 | 785 | 1,089 |
| Gwasanaethau Anabledd Corff | 2,350 | 2,298 | (52) | 0 | (52) | (76) |
| Gwasanaethau Anabledd Dysgu | 18,189 | 18,670 | 481 | 0 | 481 | 308 |
| Gwasanaethau Iechyd Meddwl | 3,466 | 3,428 | (38) | 0 | (38) | 35 |
| Gwasanaethau Eraill (Oedolion) | 2,989 | 3,000 | 11 | 0 | 11 | 24 |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Oedolion** | **47,471** | **48,658** | **1,187** | **0** | **1,187** | **1,380** |
| **Gwasanaethau Darparu (dangos cyllideb net)** | | | | | | |
| Gofal Preswyl | 111 | 65 | (46) | 0 | (46) | (59) |
| Gofal Dydd | 64 | 359 | 295 | 0 | 295 | 314 |
| Gofal Cymunedol | 14 | 342 | 328 | 0 | 328 | 375 |
| Eraill | 16 | (10) | (26) | 0 | (26) | 32 |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Darparu** | **205** | **756** | **551** | **0** | **551** | **662** |

**CYLLIDEB REFENIW 2019/20 - ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD**

| **Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant** | Cyllideb Arfaethedig 2019/20 | Amcan Sefyllfa Terfynol 2019/20 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2019/20** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2019/20** | Amcan Gor/(Tan) Wariant Adolygiad Awst 2019 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Gwasanaethau Eraill** | | | | | | |
| Gwasanaethau Canolog Adrannol *(gan gynnwys arbedion yr Adran)* | 3,671 | 3,782 | 111 | 0 | 111 | 182 |
| Derbyniad Grant Ychwanegol Pwysau'r Gaeaf | 0 | (542) | (542) | 0 | (542) | 0 |
| Defnydd o gronfa benodol | 0 | (649) | (649) | 0 | (649) | (649) |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Eraill** | **3,671** | **2,591** | **(1,080)** | **0** | **(1,080)** | **(467)** |
| **Cyfanswm Oedolion, Iechyd a Llesiant** | **51,347** | **52,005** | **658** | **0** | **658** | **1,575** |

## Oedolion, Iechyd a Llesiant

**Gwasanaethau Pobl Hŷn** - niferoedd mewn gofal preswyl a nyrsio ar ei fyny, gyda 28 achos newydd yn 2018/19 a 35 achos pellach eleni, derbyniad grant ac ail-asesu incwm cleientiaid ac arian demograffi yn lleihau'r gorwariant a ragwelir. Methiant i wireddu gwerth £669k o arbedion o fewn y pennawd 'Eraill' a gorwariant o £431k ar Lety Cefnogol, gyda chostau sefydlu cynllun Hafod y Gest yn gyfrifol am gyfran sylweddol o'r gorwariant. Lleihad pellach yn y galw am becynnau gofal cartref.

**Gwasanaethau Anabledd Corff** - y tueddiad o leihad yn y nifer pecynnau gofal cartref yn parhau, ond cynnydd yn nifer y lleoliadau Preswyl a Nyrsio.

**Gwasanaethau Anabledd Dysgu** - effaith y galw cynyddol ar lety cefnogol a gwasanaethau dydd yn cael ei leihau gan danwariant ar breswyl a nyrsio.

**Gwasanaethau Darparu** - costau cysylltiedig â staffio uwchlaw lefel y gyllideb yn faterion yn Gofal Dydd a Gofal Cymunedol, gyda cartrefi wedi bod mewn mesurau arbennig, argymhellion gan Arolygiaeth Gofal Cymru, a phenodi uwchlaw'r gyllideb.

**Gwasanaethau Canolog Adrannol** - derbyniad grant, incwm a swyddi gwag yn lleihau effaith y llithriad mewn gwireddu gwerth £247k o gynlluniau arbedion.

Ers yr adolygiad diwethaf mae'r adran wedi derbyn grant ychwanegol o £542k gan Lywodraeth Cymru tuag at gostau cynyddol yn deillio o bwysau'r gaeaf, mae'r grant yma wedi cynorthwyo i leihau y gorwariant a ragwelir. Mae'r adran hefyd yn gwneud defnydd o gyllid un-tro o £457k, sydd gyfwerth â grant cefnogi gwasanaethau cymdeithasol a dderbyniwyd yn 2017/18 ynghyd â £192k o gronfa tanwariant hanesyddol yr adran i gynorthwyo i leddfu rhan o'r gorwariant eleni.

Oherwydd y gorwariant sylweddol gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant eleni, sydd yn £1.8m cyn y derbyniad grant ychwanegol a defnydd o'r arian un-tro, mae'r Prif Weithredwr eisoes wedi galw cyfarfod o'r swyddogion perthnasol a chomisiynu gwaith er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r materion a rhaglen glir i ymateb, fel bod modd cael gwell dealltwriaeth o fanylder cymhleth y darlun yng ngofal Oedolion.

**CYLLIDEB REFENIW 2019/20 - ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD**

| **Adran Plant a Theuluoedd** | Cyllideb Arfaethedig 2019/20 | Amcan Sefyllfa Terfynol 2019/20 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2019/20** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2019/20** | Amcan Gor/(Tan) Wariant Adolygiad Awst 2019 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Rheolaeth Gwasanaeth | 581 | 614 | 33 | 0 | 33 | 24 |
| Gweithredol | 2,210 | 2,298 | 88 | 0 | 88 | 78 |
| Lleoliadau | | | | | | |
| Lleoliadau All-Sirol | 1,628 | 3,149 | 1,521 | 0 | 1,521 | 1,618 |
| Maethu Drwy Asiant | 911 | 1,396 | 485 | 0 | 485 | 388 |
| Maethu Mewnol | 1,706 | 2,251 | 545 | 0 | 545 | 482 |
| Gwasanaethau Cefnogol ac Eraill | 1,668 | 1,773 | 105 | 0 | 105 | 36 |
| | 5,913 | 8,569 | 2,656 | 0 | 2,656 | 2,524 |
| Ôl-16 | 1,035 | 1,155 | 120 | 0 | 120 | 44 |
| Arbenigol/Derwen | 1,814 | 2,151 | 337 | 0 | 337 | 332 |
| Cyfiawnder Ieuenctid | 280 | 236 | (44) | 0 | (44) | (44) |
| Blynyddoedd Cynnar | 153 | 80 | (73) | 0 | (73) | (50) |
| Ieuenctid | 857 | 788 | (69) | 0 | (69) | (102) |
| Eraill | 1,563 | 1,676 | 113 | 0 | 113 | 103 |
| **Cyfanswm Plant a Theuluoedd** | **14,406** | **17,567** | **3,161** | **0** | **3,161** | **2,909** |

**<u>Plant a Theuluoedd</u>**

**Gweithredol** - yn parhau i orwario er fod y maes wedi derbyn adnodd ychwanegol o £100k ar gyfer 2019/20 ymlaen, gyda chostau staff uwchlaw lefel y gyllideb ynghyd â chynnydd yn y nifer o blant mewn gofal ond ddim mewn lleoliadau drytach.

**Lleoliadau** - y galw am yr ystod o wasanaethau yn dwysáu, rhan helaeth o'r gorwariant yn deillio o 5 achos lleoliad all-sirol newydd eleni, ynghyd ag effaith flwyddyn lawn 8 achos a ddechreuodd yn ystod 2018/19. Yn maethu drwy asiant, 9 achos newydd eleni ac effaith blwyddyn lawn 4 achos a gychwynwyd yn 2018/19. Cynnydd pellach hefyd yn y niferoedd lleoliadau maethu mewnol. Yn dilyn adolygiad o'r ymrwymiadau all-sirol, daeth yn amlwg y bu newid i'r math o achosion dros y blynyddoedd diwethaf, ac felly i'r costau cysylltiedig ac yn gydamserol, gwelwyd hefyd gwtogiad yng nghyfraniadau Iechyd. Ymhellach i hyn, gwerth £370k o arbedion o fewn Lleoliadau sydd eto i'w gwireddu.

**Ôl-16** - costau cefnogaeth cychwynol uchel yn deillio o 2 achos newydd sydd wedi trosglwyddo o Leoliadau All-sirol.

**Arbenigol/Derwen** – gorwariant o £337k yn bennaf ar gynlluniau cefnogol gyda cynnydd yn y galw am wasanaeth ac am gefnogaeth arbenigol.

**Blynyddoedd Cynnar** – derbyniad grantiau yn y maes gofal plant yn gyfrifol am y tanwariant cynyddol.

**Ieuenctid** – derbyniad grantiau yn erbyn gwariant ynghyd â thanwariant yn dilyn ail fodelu'r gwasanaeth yn ddiweddar.

**Eraill** - gofyn uwch ar yr ymrwymiad i wasanaeth adfocatiaeth Gogledd Cymru, gorwariant ar adolygiadau statudol, ffioedd proffesiynol ac ar y gwasanaeth tu allan i oriau.

O ystyried y tueddiad gorwariant cynyddol yr adran, mae Tasglu Cyllideb Plant, wedi ei gomisiynu gan y Prif Weithredwr i roi sylw i faterion ariannol dyrys yr adran.

Atodiad 2

**CYLLIDEB REFENIW 2019/20 - ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD**

| **Adran Addysg** | Cyllideb Arfaethedig 2019/20 | Amcan Sefyllfa Terfynol 2019/20 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2019/20** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2019/20** | Amcan Gor/(Tan) Wariant Adolygiad Awst 2019 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Ysgolion Datganoledig | 74,862 | 74,862 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gwasanaethau Ansawdd Ysgolion | (429) | (678) | (249) | 0 | (249) | (244) |
| Isadeiledd a Gwasanaethau Cefnogol | | | | | | |
| Cludiant | 4,919 | 5,147 | 228 | 0 | 228 | 188 |
| Gwasanaeth Atodol | 481 | 740 | 259 | 0 | 259 | 247 |
| Eraill | 2,979 | 2,632 | (347) | 0 | (347) | (318) |
| | 8,379 | 8,519 | 140 | 0 | 140 | 117 |
| Arweinyddiaeth a Rheolaeth | 2,263 | 2,238 | (25) | 0 | (25) | 0 |
| Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad | 4,426 | 4,576 | 150 | 0 | 150 | 214 |
| **Cyfanswm Addysg** | **89,501** | **89,517** | **16** | **0** | **16** | **87** |

## Addysg

**Gwasanaethau Ansawdd Ysgolion** - cyfuniad o arbedion ymlaen llaw, trosiant staff, cwtogi ar wariant a defnydd o grantiau yn gyfrifol am y sefyllfa ffafriol.

**Cludiant** - yn dilyn y gorwariant ar y maes yma dros y blynyddoedd diwethaf, dyrannwyd £400k o gyllid ychwanegol ar gyfer 2019/20. Serch hyn, mae'r gorwariant cynyddol yn parhau, gyda'r amcangyfrifon diweddaraf yn awgrymu £228k, gyda £65k ar Fysus Ysgol, £41k diffyg incwm ar Gludiant Ôl-16 a thaflunir gorwariant o £122k ar Gludiant Tacsis Ysgolion.

Mae'r maes Cludiant wedi bod yn destun adolygiad i geisio rheoli'r cynnydd yn y gwariant. Datrysiad rhannol oedd y £400k a ddyrannwyd eleni gyda'r angen am waith pellach gan yr Adran Addysg a'r Adran Amgylchedd yn parhau, fel bod modd manteisio ar gyfleoedd effeithlonrwydd.

**Isadeiledd a Gwasanaethau Cefnogol - Gwasanaeth Atodol** - diffyg incwm am yr elfen gofal o'r cynllun brecwast ac ar brydau ysgol ynghyd â gorwariant ar faterion staffio a salwch yn Arlwyaeth, Glanhau a Gofalu am ysgolion.

**Isadeiledd a Gwasanaethau Cefnogol - Eraill** - llai o alw ar nifer o gyllidebau amrywiol gan gynnwys ar y gyllideb integreiddio.

**Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad** - gorwariant sydd yn ymwneud ag amgylchiadau mewn un ganolfan benodol yn parhau i fod yn gyfrifol am ran helaeth o'r gorwariant, gyda gorwariant un-tro pellach yn deillio o gyfnod trosiannol Unedau Cyn Ysgol Addysg Blynyddoedd Cynnar ac Addysg heblaw mewn Ysgol.

**CYLLIDEB REFENIW 2019/20 - ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD**

| **Adran Economi a Chymuned** | Cyllideb Arfaethedig 2019/20 | Amcan Sefyllfa Terfynol 2019/20 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2019/20** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2019/20** | Amcan Gor/(Tan) Wariant Adolygiad Awst 2019 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Rheolaeth | 352 | 352 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Rhaglenni Adfywio a Chefnogi Cymunedau | 390 | 400 | 10 | 0 | 10 | (29) |
| Morwrol a Pharciau Gwledig | 82 | 46 | (36) | 0 | (36) | (14) |
| Cytundebau Hamdden | 1,430 | 1,498 | 68 | 0 | 68 | 33 |
| Rhaglenni Chwaraeon | 105 | 57 | (48) | 0 | (48) | (25) |
| Rhaglenni Datblygu Economiadd | 49 | 9 | (40) | 0 | (40) | (21) |
| Marchnata a Digwyddiadau | 308 | 308 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Llyfrgelloedd Gwynedd | 1,593 | 1,584 | (9) | 0 | (9) | (11) |
| Amgueddfeydd, Celfyddydau ac Archifau Gwynedd | 861 | 930 | 69 | 0 | 69 | 60 |
| **Cyfanswm Economi a Chymuned** | **5,170** | **5,184** | **14** | **0** | **14** | **(7)** |

## Economi a Chymuned

**Morwrol a Pharciau Gwledig** - trosiant staff yn gyfrifol am danwariant gan Parc Glynllifon a Parc Padarn. Y rhagolygon wedi gwella ers adrodd ar ddiwedd Awst gyda lleihad yn niffyg incwm y Traethau. Y ffigyrau diweddaraf yn awgrymu sefyllfa gytbwys gan yr Harbyrau a Hafan, Pwllheli yn dilyn i'w targed incwm gael ei leihau eleni, ond sydd wedi bod yn broblemus dros y blynyddoedd diwethaf.

**Cytundebau Hamdden** - trosglwyddwyd y ddarpariaeth Hamdden i Cwmni Byw'n Iach ar 1 Ebrill 2019, rhagwelir cynnydd yn y gorwariant i £68k yn bennaf ar gostau rhedeg un-tro y canolfannau hamdden.

**Rhaglenni Chwaraeon a Rhaglenni Datblygu Economaidd** - swyddi gwag a lleihad mewn gwariant yn gyfrifol am y sefyllfa tanwariant ar y penawdau yma.

**Amgueddfeydd, Celfyddydau ac Archifau Gwynedd** - problemau yn parhau yn Storiel gyda rhagolygon o ddiffyg o £71k, sydd yn gyfuniad o orwariant ar gostau staff a diffyg yn yr incwm. Tanwariant ar y Celfyddydau yn cynorthwyo rhywfaint ar y sefyllfa ariannol.

| CYLLIDEB REFENIW 2019/20 - ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol (yn cynnwys Cefnffyrdd)** | | Cyllideb Arfaethedig 2019/20 | Amcan Sefyllfa Terfynol 2019/20 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2019/20** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2019/20** | Amcan Gor/(Tan) Wariant Adolygiad Awst 2019 |
| **Maes:-** | | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Gwasanaethau Priffyrdd (cynnwys Cefnffyrdd) | | 9,994 | 9,859 | (135) | 0 | (135) | (6) |
| Gwasanaethau Peirianneg | | 386 | 441 | 55 | 0 | 55 | 54 |
| Gwasanaethau Bwrdeistrefol | Gwastraff | 11,413 | 12,409 | 996 | 0 | 996 | 721 |
| | Eraill | 4,057 | 4,111 | 54 | 0 | 54 | (36) |
| **Cyfanswm Priffyrdd a Bwrdeistrefol** | | **25,850** | **26,820** | **970** | **0** | **970** | **733** |

## Priffyrdd a Bwrdeistrefol (gan gynnwys Cefnffyrdd)

**Gwasanaethau Priffyrdd** - y rhagolygon incwm allanol yn fwy ffafriol wrth i'r flwyddyn fynd yn ei blaen.

**Gwasanaethau Peirianneg** - oediad mewn gwireddu cynllun arbedion ynghyd â diffyg incwm, ond trafodaethau'n parhau i geisio datrysiad.

**Gwastraff** - cynnydd pellach yn y tueddiad gorwariant a welwyd yn 2018/19 yn y maes Gwastraff i £996k. Rhagolygon gorwariant o £322k ar y costau trosiannol ymdrin a chludo gwastraff drwy'r cyfleuster rhanbarthol 'Troi Gwastraff yn Ynni' sydd wedi ei leoli yn Nglannau Dyfrdwy.

Er fod yr adran wedi cymryd camau i leihau costau drwy newid shifftiau a threfniadau cylchdeithiau casglu gwastraff, bu oediad mewn gweithredu. Mae'r trefniadau newydd bellach wedi dod i rym yn Nwyfor ac yn fwy diweddar yn Arfon gyda Meirionnydd i ddilyn yn fuan yn 2020, ond fod costau trosiannol cysylltiedig a chostau salwch yn gyfrifol am £276k o'r gorwariant.

Cynnydd mewn costau gweithredol a thrafnidiaeth, diffyg grant ac yn yr incwm ar wastraff a deunyddiau ailgylchu.

Er fod rhai camau ar yr ochr Gwastraff eisoes wedi eu cymryd yn ystod y flwyddyn i sicrhau mesurau i weithredu o fewn y gyllideb, nodir bu oedi gyda'r gweithrediad eleni.

**Gwasanaethau Bwrdeistrefol Eraill** - costau staffio a chostau cysylltiedig â salwch yn uwch, cynnydd yn y costau ymdrin â deunyddiau i'w gwaredu ac oediad mewn gwireddu cynlluniau arbedion.

**CYLLIDEB REFENIW 2019/20 - ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD**

| **Adran Amgylchedd** | Cyllideb Arfaethedig 2019/20 | Amcan Sefyllfa Terfynol 2019/20 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2019/20** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2019/20** | Amcan Gor/(Tan) Wariant Adolygiad Awst 2019 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Rheolaeth yr Adran | 409 | 356 | (53) | 0 | (53) | (58) |
| Gwasanaeth Cynllunio | 402 | 539 | 137 | 0 | 137 | 145 |
| Gwasanaethau Gofal Stryd a Thrafnidiaeth | | | | | | |
| Rheolaeth Rhwydwaith (Trafnidiaeth) | 605 | 555 | (50) | 0 | (50) | (57) |
| Parcio a Gorfodaeth Parcio | (1,681) | (1,693) | (12) | 0 | (12) | (221) |
| Cludiant Integredig | 1,592 | 1,568 | (24) | 0 | (24) | (1) |
| | 516 | 430 | (86) | 0 | (86) | (279) |
| Cefn Gwlad a Mynediad | 738 | 759 | 21 | 0 | 21 | 12 |
| Gwarchod y Cyhoedd | 1,641 | 1,517 | (124) | 0 | (124) | (40) |
| Addasiad Adolygiad Diwedd Awst 2019 | | | | 0 | 0 | 220 |
| **Cyfanswm Amgylchedd** | **3,706** | **3,601** | **(105)** | **0** | **(105)** | **0** |

## Amgylchedd

**Rheolaeth** - tanwariant cyffredinol ac arbedion ymlaen llaw yr adran wedi arwain at arbedion un-tro ar y pennawd Rheolaeth.

**Gwasanaeth Cynllunio** - y tueddiad cyffredinol o ddiffyg yn yr incwm yn y maes Rheolaeth Datblygu yn parhau, ond yn cael ei leihau gan danwariant ar wasanaethau, cyflenwadau a chludiant.

**Gwasanaethau Gofal Stryd a Thrafnidiaeth** - dirywiad sylweddol ers yr adolygiad blaenorol o ran y rhagolygon ar Barcio a Gorfodaeth, i ddiffyg yn yr incwm bellach sydd yn cael ei leddfu yn rhannol gan swyddi gwag. Rhagwelir gorgyflawni incwm yn y maes Traffig a Threfniadau Statudol sydd yn rhan o gynlluniau arbedion yr adran dros y blynyddoedd nesaf.

**Cludiant Integredig** - tanwariant un-tro ar gostau staff a rhagori ar incwm yn lleihau effaith y costau ychwanegol ar gytundebau bysus. Yr adran yn gwneud defnydd o gronfa a neilltuwyd i'r pwrpas tuag at y costau cynyddol. Mae'r adran yn y broses o gynnal adolygiad o gludiant cyhoeddus ac wedi comisiynu ymchwil gan y Brifysgol i adolygu'r ddarpariaeth.

**Gwarchod y Cyhoedd** - cynnydd yn y tanwariant ers yr adolygiad diwethaf o ganlyniad i ragori ar incwm yn y maes Trwyddedu, Tacsis a Safonau Masnach ynghyd â throsiant staff a gwariant is ar ddeunyddiau samplo dŵr a gwasanaethau a chyflenwadau.

Fel rhan o'r adolygiad Diwedd Awst, derbyniodd yr Adran Amgylchedd gymeradwyaeth y Cabinet i neilltuo £220k o'u tanwariant eleni tuag at gostau yn dilyn adolygiad barnwrol yn ymwneud â Ffordd fynedfa Llanbedr. Gan nad yw'r rhagolygon tanwariant mor addawol erbyn hyn, yn dilyn dirywiad sylweddol yn y rhagolygon incwm parcio, nid yw'r tanwariant bellach yn ddigonol i'w gyllido ond gwell byddai aros tan ddiwedd y flwyddyn ariannol i gael cadarnhad o'r union sefyllfa.

**CYLLIDEB REFENIW 2019/20 - ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD**

| **Adran Ymgynghoriaeth** | Cyllideb Arfaethedig 2019/20 | Amcan Sefyllfa Terfynol 2019/20 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2019/20** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2019/20** | Amcan Gor/(Tan) Wariant Adolygiad Awst 2019 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Gwasanaethau Ffyrdd a Pheirianneg | (637) | (612) | 25 | 0 | 25 | 17 |
| Uned Systemau Traenio Cynaliadwy (SuDS) | 37 | 37 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Uned Rheoli Risg Llifogydd | 572 | 573 | 1 | 0 | 1 | 1 |
| Rheolaeth Adeiladu | 94 | 155 | 61 | 0 | 61 | 24 |
| **Cyfanswm Ymgynghoriaeth** | **66** | **153** | **87** | **0** | **87** | **42** |

## Ymgynghoriaeth

**Gwasanaethau Ffyrdd a Pheirianneg** - y rhagolygon diweddaraf yn awgrymu diffyg incwm o £25k, ond y gwasanaeth yn parhau i ymgeisio am waith ac felly denu rhagor o incwm ar amrywiol gynlluniau gan sefydliadau allanol, megis Cynghorau eraill a Llywodraeth Cymru.

**Uned Systemau Traenio Cynaliadwy (SuDS)** - y rhagolygon diffyg incwm yn ystod y cyfnod o sefydlu'r uned newydd yma yn cael ei leddfu gan danwariant ar gostau staff.

**Rheolaeth Adeiladu** - diffyg incwm ynghyd â chostau un-tro i brynu system yn gyfrifol am gynnydd yn y gorwariant a ragwelir.

**CYLLIDEB REFENIW 2019/20 - ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD**

| **Adran Tai ac Eiddo** | Cyllideb Arfaethedig 2019/20 | Amcan Sefyllfa Terfynol 2019/20 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2019/20** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2019/20** | Amcan Gor/(Tan) Wariant Adolygiad Awst 2019 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Rheolaeth | 73 | 176 | 103 | 0 | 103 | 83 |
| Gwasanaethau Tai | | | | | | |
| Digartrefedd | 1,071 | 1,231 | 160 | 0 | 160 | 170 |
| Tai Sector Breifat | 409 | 340 | (69) | 0 | (69) | (110) |
| Eraill | 242 | 184 | (58) | 0 | (58) | (40) |
| | 1,722 | 1,755 | 33 | 0 | 33 | 20 |
| Gwasanaethau Eiddo | | | | | | |
| Eiddo | 3,474 | 3,367 | (107) | 0 | (107) | (80) |
| Gofalu, Arlwyo a Glanhau | 27 | 28 | 1 | 0 | 1 | 1 |
| | 3,501 | 3,395 | (106) | 0 | (106) | (79) |
| **Cyfanswm Tai ac Eiddo** | **5,296** | **5,326** | **30** | **0** | **30** | **24** |

## Tai ac Eiddo

**Rheolaeth** - Cynllun Arbedion sydd eto i'w wireddu sydd bennaf gyfrifol am y gorwariant. Mae'r Adran yn edrych ar gynllun amgen i ddisodli'r cynllun presennol.

**Gwasanaethau Tai** - pwysau ar y gyllideb Llety Dros Dro, Digartrefedd ac felly yn gorwario £225k. Tai Sector Breifat yn rhagori ar incwm, yn tanwario ar gostau staff ac ar gyflenwadau a gwasnaethau, gyda Tai Eraill hefyd yn tanwario ar gostau staff, felly yn cynorthwyo i leddfu'r gorwariant.

**Eiddo** - swyddi gwag a secondiadau sydd bennaf gyfrifol am y tanwariant a ragwelir.

**CYLLIDEB REFENIW 2019/20 - ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD**

| Adrannau Canolog | Cyllideb Arfaethedig 2019/20 | Amcan Sefyllfa Terfynol 2019/20 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2019/20** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2019/20** | Amcan Gor/(Tan) Wariant Adolygiad Awst 2019 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol | 1,705 | 1,628 | (77) | 0 | (77) | (117) |
| Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth) | 6,265 | 6,190 | (75) | 0 | (75) | (61) |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 7,405 | 7,309 | (96) | 0 | (96) | (100) |
| **Cyfanswm Adrannau Canolog** | **15,375** | **15,127** | **(248)** | **0** | **(248)** | **(278)** |

## Adrannau Canolog

**Tim Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol** - gostyngaid yn y tanwariant a adroddir gan fod cyfran o danwariant swydd wag y Cyfarwyddwr Corfforaethol yn cael ei ddargyfeirio i gyllido gwell darpariaeth lles yn swyddfeydd y Cyngor. Derbyniad incwm ychwanegol gan yr Uned Gyfreithiol yn cyfrannu at y sefyllfa ffafriol ond yn cael ei leihau o ganlyniad i gostau staffio uwch.

**Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth)** - cyfuniad o resymau yn gyfrifol am y tanwariant, gan gynnwys tanwariant un-tro ar drosiant staff, secondiadau, a derbyniad incwm a grantiau ychwanegol mewn nifer o feysydd. Incwm ychwanegol o wahanol ffynonellau, gan gynnwys Llywodraeth Cymru am y maes gweinyddu rhyddhad trethi annomestig a grant ychwanegol cyfnod trosiannol gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) yn y maes Budd-daliadau. Ymhellach, mae'r adran wedi llwyddo i gyflawni arbedion ymlaen llaw eleni ac wedi eu dargyfeirio i bwrpas Corfforaethol.

**Cefnogaeth Gorfforaethol** - y tanwariant yn bennaf ar dderbyniad incwm allanol uwchlaw lefel y gyllideb mewn nifer o feysydd ar draws yr adran, gan gynnwys Gwasanaeth Ymgynghorol Adnoddau Dynol, Cyfieithu, Cofrestru a Democratiaeth. Swyddi gwag a secondiadau hefyd yn cyfrannu at y sefyllfa ffafriol, mewn paratoad ar gyfer arbedion y blynyddoedd nesaf, gan nad oes galwad ar yr arbedion eleni mae'r adran eisoes wedi trosglwyddo rhan o'i arbedion ymlaen llaw i bwrpas Corfforaethol.

**CYLLIDEB REFENIW 2019/20 - ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD**

| **Corfforaethol (Dim ond yn adlewyrchu y gwahaniaethau)** | Cyllideb Arfaethedig 2019/20 | Amcan Sefyllfa Terfynol 2019/20 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2019/20** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2019/20** | Amcan Gor/(Tan) Wariant Adolygiad Awst 2019 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Treth Cyngor | * | * | (32) | 32 | 0 | 0 |
| Premiwm Treth Cyngor | * | * | (198) | 198 | 0 | 0 |
| Gostyngiadau Treth Cyngor | * | * | (213) | 213 | 0 | 0 |
| Costau Cyfalaf | * | * | (75) | 75 | 0 | 0 |
| Cyllidebau a Bidiau a ddychwelwyd gan Adrannau | * | * | (359) | 359 | 0 | 0 |
| Targed Incwm Grant Cefnogi Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy | * | * | 500 | (500) | 0 | 0 |
| Eraill | * | * | (710) | 710 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Corfforaethol** | ***** | ***** | **(1,087)** | **1,087** | **0** | **0** |

**Corfforaethol**

**Treth Cyngor a Premiwm Treth Cyngor** - sefyllfa ffafriol o dreth ychwanegol (£32k) ar Dreth Cyngor a (£198k) ar Bremiwm Treth Cyngor, gyda Swyddfa'r Prisiwr eisoes wedi caniatau trosglwyddo 255 eiddo o'r rhestr Treth Cyngor i Drethi Annomestig hyd at ddiwedd Tachwedd (453 blwyddyn llawn yn 2018/19, 282 yn 2017/18, a 199 yn 2016/17). Rydym yn aros i glywed gan Lywodraeth Cymru a'r Swyddfa Prisiwr am ymgyrch Gwynedd i atal perchnogion ail gartrefi rhag osgoi'r dreth.

**Gostyngiadau Treth Cyngor** - rhagwelir tanwariant o (£213k) gan fod niferoedd ceisiadau y cynllun Gostyngiad Treth Cyngor (Budd-daliadau) yn gyffredinol ar ei lefel isaf am y bedwaredd blynedd yn olynol ar hyd Gogledd a Chanolbarth Cymru. Yng Ngwynedd gwelwyd lleihad o 10% dros y cyfnod.

**Costau Cyfalaf** - cynnydd annisgwyl yn y graddfeydd benthyca yn gynharach eleni yn golygu na fyddwn yn benthyca, sydd felly yn rhyddhau £75k, awgrymir y dylid dargyfeirio'r tanwariant i gronfa i'w ddefnyddio i gynorthwyo gydag ariannu'r rhaglen gyfalaf.

**Cyllidebau a Bidiau a ddychwelwyd gan Adrannau** - cyfuniad o ddychwelyd cyllidebau yn dilyn derbyniad grant, dychwelyd bidiau ynghyd â materion eraill lle nad yw'r galw bellach mor ddwys o'i gymharu â'r hyn a ragwelwyd wrth osod y gyllideb.

**Targed Incwm Grant Cefnogi Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy** - gosodwyd cyllideb 2019/20 ar y dybiaeth fod gwerth £500k o grant yn dderbyniadwy, yn anffodus yn ôl y rhagolygon diweddaraf nid yw hyn yw'n debygol bellach, felly y swm i'w gyllido o arian y Cyngor.

**Eraill** - y pwysau ar nifer o gyllidebau ddim cymaint â'r hyn a ragwelwyd ac felly'n tanwario.

**Argymhellir** fod cynnyrch treth ychwanegol o (£198k) ar Bremiwm Treth y Cyngor yn cael ei ychwanegu at y £2.7 miliwn sydd eisioes wedi ei neilltuo yn 2019/20 i'w ystyried ar gyfer y Strategaeth Dai. (£75k) yn ymwneud â chostau cyfalaf yn cael ei neilltuo i gronfa ariannu'r rhaglen gyfalaf. (£500k) o danwariant Corfforaethol yn cael ei neilltuo i gyllido diffyg grant yn y maes gwasanaethau cymdeithasol cynaliadwy, (£312k) i'w ddefnyddio i gyllido bidiau un-tro sydd wedi eu cyflwyno gan yr Adrannau ar gyfer gwariant yn 2020/21 gyda'r gweddill sef (£502k) yn mynd i falansau cyffredinol y Cyngor.

**ADRODDIAD I'R CABINET**
21 IONAWR 2020

**Aelod Cabinet:** Cynghorydd Ioan Thomas, Aelod Cabinet Cyllid

**Pwnc:** Rhaglen Gyfalaf 2019/20 –
Adolygiad Diwedd Tachwedd (sefyllfa 30 Tachwedd 2019)

**Swyddog Cyswllt:** Ffion Madog Evans, Uwch Reolwr Cyllid

---

**Y penderfyniad a geisir / Pwrpas yr adroddiad**

Derbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd Tachwedd (sefyllfa 30 Tachwedd 2019) o'r rhaglen gyfalaf, a chymeradwyo'r ariannu addasedig a gyflwynir yn rhan 4 o'r adroddiad, sef:

- £50,000 lleihad mewn defnydd o fenthyca
- £1,072,000 cynnydd mewn defnydd o grantiau a chyfraniadau
- £114,000 cynnydd mewn defnydd o dderbyniadau cyfalaf
- £23,000 o leihad mewn defnydd o gyfraniadau refeniw
- Dim newid mewn defnydd o'r gronfa gyfalaf
- £228,000 cynnydd mewn defnydd o gronfeydd adnewyddu ac eraill

---

## 1. Cyflwyniad / Crynodeb

Cyflwynir yr adroddiad technegol yma fel rhan o'r drefn adolygu cyllideb 2019/20. Prif ddiben yr adroddiad yw cyflwyno'r rhaglen gyfalaf ddiwygiedig, a chymeradwyo'r ffynonellau ariannu perthnasol. Mae crynodeb yn rhan 3 a rhan 4 o'r adroddiad, gyda'r argymhellion yn rhan 6:

Rhan 3**:** Dadansoddiad fesul Adran o'r rhaglen gyfalaf £89.135m am y 3 blynedd 2019/20 – 2021/22.

Rhan 4: Ffynonellau ariannu'r cynnydd net oddeutu £1.341m ers yr adolygiad diwethaf.

Rhan 5: Manylder grantiau ychwanegol ers yr adolygiad diwethaf.

Y Cabinet sydd wedi eu hawdurdodi i addasu'r rhaglen gyfalaf. Gofynnir am gymeradwyaeth i'r rhaglen arfaethedig (rhan 3) a'i ariannu (rhan 4).

Mae gweddill yr adroddiad er gwybodaeth:
- Atodiad A: Prif newidiadau fesul ffynhonnell ariannu
- Atodiad B: Symudiadau o 2019/20 i 2020/21
- Atodiad C: Gwariant 8 mis cyntaf 2019/20

## 2. Prif Gasgliadau

Y prif gasgliadau sydd yn codi o'r sefyllfa ddiwygiedig yw :

- Fod cynlluniau pendant mewn lle i fuddsoddi tua £31.8m yn 2019/20 ar gynlluniau cyfalaf, gyda £13.0m (41%) ohono wedi'i ariannu trwy ddenu grantiau penodol.

- Mae £9.2m ychwanegol o wariant arfaethedig wedi'i ail-broffilio o 2019/20 i 2020/21, ond ni achoswyd unrhyw golled ariannu i'r Cyngor ble gwelwyd cynlluniau yn llithro.

## 3. Rhaglen Gyfalaf 2019/20 i 2021/22

Gweler isod y rhaglen gyfalaf arfaethedig ddiwygiedig ar ddiwedd Tachwedd 2019. Mae'r ffigyrau ar sail strwythur adrannol ddiwygiedig y Cyngor.

| ADRAN | ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD | | | | CYNNYDD / (LLEIHAD) ERS YR ADOLYGIAD DIWETHAF |
|---|---|---|---|---|---|
| | 2019/20 £'000 | 2020/21 £'000 | 2021/22 £'000 | CYFANSWM £'000 | £'000 |
| Addysg | 7,570 | 10,123 | 1,895 | 19,588 | 542 |
| Amgylchedd | 1,642 | 2,637 | 178 | 4,457 | 425 |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | - | 119 | - | 119 | - |
| Cyllid | 713 | 481 | 1,237 | 2,431 | - |
| Economi a Chymuned | 1,215 | 1,876 | 330 | 3,421 | 256 |
| Tai ac Eiddo | 6,534 | 9,484 | 4,528 | 20,546 | (183) |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | 1,756 | 3,123 | 2,400 | 7,279 | 278 |
| Plant a Chefnogi Teuluoedd | 1,344 | 1,113 | 250 | 2,707 | - |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 10,293 | 5,564 | 2,257 | 18,114 | 22 |
| Ymgynghoriaeth | 686 | 3,539 | 3,410 | 7,635 | 1 |
| Corfforaethol | - | 2,153 | 685 | 2,838 | - |
| **CYFANSWM** | **31,753** | **40,212** | **17,170** | **89,135** | **1,341** |

## 4. Newidiadau i'r Ffynonellau Ariannu

Mae cynnydd o £1.341m yn y gyllideb ar gyfer y rhaglen gyfalaf dair blynedd ers yr adolygiad diwethaf. Nodir isod y ffynonellau ariannu arfaethedig ar gyfer hyn:

| ARIANNU | ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD | | | | CYNNYDD / (LLEIHAD) ERS YR ADOLYGIAD DIWETHAF |
|---|---|---|---|---|---|
| | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | CYFANSWM | |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Benthyca gyda chefnogaeth | 7,995 | 7,535 | 6,610 | 22,140 | - |
| Benthyca Arall | 2,289 | 3,563 | 2,567 | 8,419 | (50) |
| Grantiau a Chyfraniadau | 13,037 | 9,447 | - | 22,484 | 1,072 |
| Derbyniadau Cyfalaf | 467 | 828 | - | 1,295 | 114 |
| Refeniw Adrannol a Chorfforaethol | 1,244 | - | - | 1,244 | (23) |
| Cronfa Cyfalaf | 1,448 | 837 | 3,801 | 6,086 | - |
| Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill | 5,273 | 18,002 | 4,192 | 27,467 | 228 |
| **CYFANSWM** | **31,753** | **40,212** | **17,170** | **89,135** | **1,341** |

## 5. Grantiau Ychwanegol

Ers yr adolygiad diwethaf llwyddodd y Cyngor i ddenu'r grantiau canlynol ychwanegol net o £1,072k (gweler Atodiad A am fwy o fanylion) :

- £541k Ehangu cynlluniau Grant Ysgolion Ganrif 21 i gynnwys cynlluniau Grantiau Gofal Plant a Lleihau Dosbarthiadau Babanod
- £286k Grant gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cynlluniau Prosiect Tir a Môr Llŷn
- £128k Grant Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) i ddatblygu Plas Heli
- £120k Grant o'r Gronfa Trafnidiaeth Leol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer nifer o wahanol gynlluniau
- £58k Grant gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cynlluniau yn Ardal Harddwch Naturiol Eithriadol Llŷn
- £29k Grant Llywodraeth Cymru tuag at gynlluniau Nofio am Ddim

## 6. Argymhellion

**Gofynnir i'r Cabinet:**

- **dderbyn y rhaglen gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer 2019/20 i 2021/22, a**
- **cymeradwyo'r ffynonellau ariannu perthnasol (rhan 4 uchod).**

## 7. Rhesymau Dros Argymell y Penderfyniad

Rhaid sicrhau trefniadau ariannu priodol ar gyfer cynlluniau'r Cyngor i wario ar gyfalaf, a rhaid i'r Cabinet gymeradwyo'r rhaglen gyfalaf a'r ffynonellau ariannu.

Mater o drefn yw ymgorffori ariannu trwy grant, ond hefyd mae angen delio gyda sefyllfaoedd lle bu newid rhwng blynyddoedd mewn proffil gwario a newid mewn gwerth cyfraniadau a derbyniadau cyfalaf.

Argymhellir yma gamau er mwyn sicrhau ffynonellau ariannu pendant am gynlluniau cyfalaf 2019/20 – 2021/22.

## 8. Ystyriaethau Perthnasol

Materion technegol ynghylch ariannu'r cynlluniau sydd gerbron ac mae ymhlygiadau a dadleuon eisoes wedi'u cyfarch wrth fabwysiadu'r cynlluniau cyfalaf unigol.

## 9. Camau Nesaf ac Amserlen

Gweithredu ar yr argymhellion i ariannu'r rhaglen.

---

**Barn yr Aelod Lleol**
Dim yn berthnasol.

---

**Barn y Swyddogion Statudol**

**Y Swyddog Monitro:**
Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Y Pennaeth Cyllid:**
Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

---

**Atodiadau**
Atodiadau A, B ac C

----------------------------

**Prif Newidiadau Fesul Ffynhonnell Ariannu**

Gweler isod y cynlluniau perthnasol sydd yn achosi'r prif newidiadau i'r ffynonellau ariannu ers yr adolygiad diwethaf:

| | 2019/20<br><br>£'000 | 2020/21-2021/22<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Grantiau a Chyfraniadau** | | |
| • Ehangu cynlluniau Grant Ysgolion Ganrif 21 i gynnwys cynlluniau Grantiau Gofal Plant a Lleihau Dosbarthiadau Babanod *(Adran Addysg).* | 541 | |
| • Grant o'r Gronfa Trafnidiaeth Leol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer nifer o wahanol gynlluniau *(Adran Amgylchedd).* | 120 | |
| • Grant gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cynlluniau yn Ardal Harddwch Naturiol Eithriadol Llŷn *(Adran Amgylchedd).* | 58 | |
| • Grant gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cynlluniau Prosiect Tir a Môr Llŷn *(Adran Amgylchedd).* | 196 | 90 |
| • Cywiriad Grant Rhaglen Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio (TRIP) oherwydd wedi ei ddefnyddio yn 18/19 *(Adran Tai ac Eiddo).* | (98) | |
| • Grant Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) i ddatblygu Plas Heli *(Adran Economi a Chymuned).* | 128 | |
| • Grant Llywodraeth Cymru tuag at gynlluniau Nofio am Ddim *(Adran Economi a Chymuned).* | 29 | |
| **Benthyciadau Arall** | | |
| • Cerbydau Ailgylchu a Bwrdeistrefol (*Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol).* | (49) | |
| **Derbyniadau Cyfalaf** | | |
| • Gwaith ychwnaegol yn y maes tai ym Mlaenau Ffestiniog *(Adran Tai ac Eiddo).* | 100 | |
| **Refeniw Adrannol** | | |
| • Cywiro ariannu Benthyciadau Dewisol - i fod o gronfa ac nid refeniw fel a gofnodwyd yn flaenorol *(Adran Tai ac Eiddo).* | (50) | |
| • Cynllun i wella cyfleusterau lles staff yn y dderbynfa, Pencadlys. *(Adran Tai ac Eiddo).* | 20 | |

| | | |
|---|---|---|
| **Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill** | | |
| • Cywiro ariannu Benthyciadau Dewisol - i fod o gronfa ac nid refeniw fel a gofnodwyd yn flaenorol *(Adran Tai ac Eiddo).* | 50 | |
| • Cywiro ariannu cynllun Adnewyddu Tanciau Tanwydd (*Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol ac eraill).* | 27 | |
| • Cynlluniau yn y maes Rheoli Gwastraff e.e. sgipiau, cartgylchu *(Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol).* | 35 | |
| • Cynllun i wella cyfleusterau lles staff yn y dderbynfa, Pencadlys. *(Adran Tai ac Eiddo).* | | 60 |
| • Cydariannu y cynllun Grant Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) i ddatblygu Plas Heli *(Adran Economi a Chymuned).* | 32 | |
| • Defnyddio Cronfa'r Adran i Adnewyddu Offer Hamdden *(Adran Economi a Chymuned).* | 61 | |

----------------------------

**Ail-broffilio Cyllideb - Prif Gynlluniau**

Gweler isod y prif gynlluniau sydd wedi eu hail-broffilio ers y gyllideb wreiddiol:

| | 2019/20 £'000 | 2020/21 £'000 |
|---|---|---|
| Adnoddau Cynllun Asedau heb ddyrannu tan 2020/*21 (Corfforaethol)* | (1,123) | 1,123 |
| Cynlluniau Ysgolion (Ganrif 21 ac Eraill) *(Adran Addysg)* | (5,257) | 5,257 |
| Cynlluniau Iechyd a Diogelwch *(Adran Cefnogaeth Gorfforaethol)* | (106) | 106 |
| Cynlluniau sefydliadau Oedolion *(Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant)* | (1,253) | 1,253 |
| Hwb Iechyd a Gofal Penygroes *(Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant)* | (250) | 250 |
| Cynllun i Ad-leoli Gwasanaeth Dydd Segontiwm *(Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant)* | (171) | 171 |
| Cynlluniau Atal Llifogydd *(Adran Ymgynghoriaeth)* | (181) | 181 |
| Adnewyddu Cerbydau *(Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol ac Adran Amgylchedd)* | (857) | 857 |
| Cynlluniau Trafnidiaeth *(Adran Amgylchedd)* | (2,190) | 2,190 |
| Ail-wynebu Meysydd Parcio *(Adran Amgylchedd)* | (219) | 219 |
| Cynlluniau Addasiadau, Cynnal a Chadw ayyb Eiddo'r Cyngor *(Adran Tai ac Eiddo)* | (2,176) | 2,176 |
| Cynlluniau Rheoli Carbon y Cyngor *(Adran Tai ac Eiddo)* | (1,099) | 1,099 |
| Cynlluniau Strategaeth Tai *(Adran Tai ac Eiddo)* | (1,450) | 1,450 |
| Cynllun Grant TRIP *(Adran Tai ac Eiddo)* | 300 | (300) |
| Cynllun Adfywio ac Adnewyddu Caernarfon a Bangor *(Adran Economi a Chymuned)* | (766) | 766 |
| Cynlluniau Morwrol a Hamdden *(Adran Economi a Chymuned)* | (230) | 230 |

**Noder:**
Ni fydd yr ail-broffilio uchod yn golygu unrhyw golled grant.
Mae amrywiol resymau dilys tu ôl i'r ail-broffilio mewn sawl achos, ond gall yr oedi cyn gweithredu'r cynlluniau yma olygu bod gwasanaethau yn ymdopi'n hirach gyda'r asedau presennol heb eu gwella.

**Gwariant Cyfalaf 8 Mis Cyntaf 2019/20**

| CRYNODEB | RHAGLEN GYFALAF BLWYDDYN LAWN (adolygwyd Tachwedd) 2019/20 £'000 | GWIR WARIANT 8 MIS HYD AT 30/11/2019 £'000 |
|---|---|---|
| Addysg | 7,570 | 5,152 |
| Amgylchedd | 1,642 | 284 |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | - | - |
| Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth) | 713 | 286 |
| Economi a Chymuned | 1,215 | 323 |
| Tai ac Eiddo | 6,534 | 3,434 |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | 1,756 | 478 |
| Plant a Chefnogi Teuluoedd | 1,344 | 230 |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 10,293 | 5,744 |
| Ymgynghoriaeth | 686 | 405 |
| Corfforaethol | - | - |
| **CYFANSWM** | **31,753** | **16,336** |

**Noder:**
Mae’r gyfran sydd wedi’i wario eleni (51%) yn uwch na’r sefyllfa adeg yma'r llynedd (gwariant 8 mis 2018/19 yn 47%).

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 21 Ionawr 2020 |
| **Teitl yr Eitem:** | Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Cyllid |
| **Pwrpas:** | Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad |
| **Aelod Cabinet:** | Y Cynghorydd Ioan Thomas |
| **Swyddog Cyswllt:** | Dilwyn Williams, Prif Weithredwr |

1. **CYFLWYNIAD**

1.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw diweddaru fy nghyd aelodau ar yr hyn sydd wedi digwydd yn y meysydd yr wyf yn gyfrifol amdanynt fel Aelod Cabinet Cyllid. Bydd hyn yn cynnwys amlinellu'r hyn sydd wedi digwydd yn erbyn addewidion Cynllun y Cyngor, lle mae'r mesurau perfformiad arni, a'r diweddaraf o ran cynlluniau arbedion a thoriadau.

1.2 Mae'r materion a nodir yn yr adroddiad hwn eisoes wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu craffu mewn cyfarfod o dîm rheoli'r Adran Cyllid. Roedd hefyd yn cynnwys cynrychiolaeth o'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, sy'n ymgymryd â'r swyddogaeth graffu yn y maes hwn.

1.3 Ar y cyfan, rwy'n gyfforddus gyda pherfformiad y prosiectau a'r mesurau perfformiad yr wyf yn gyfrifol amdanynt neu fod camau priodol wedi eu cymryd er mwyn gwella perfformiad.



**Cyswllt**:
01286 679868
01286 679490
cabinet@gwynedd.llyw.cymru

## 2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1 Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

## 3. PARHAD O WAITH AR BROSIECTAU CYNLLUN CYNGOR GWYNEDD 2017/18

3.1 Roedd y ddau brosiect isod yn flaenoriaeth o fewn y Cynllun uchod a ddaeth i ben fis Mawrth 2018. Mae'r gwaith o weithredu'r Strategaeth Technoleg Gwybodaeth yn waith parhaus ac felly byddaf yn parhau i adrodd ar y gwaith hyd y byddwn wedi mabwysiadu Strategaeth newydd. Mae amserlen gweithredu'r prosiect System Rheoli Dogfennau a Chofnodion Electronig (EDRMS) wedi llithro ers cyhoeddi Cynllun Cyngor Gwynedd 2017/18, ac felly rwyf hefyd am barhau i adrodd ar y gwaith hyd nes y bydd wedi ei gwblhau.

### *Cyngor Effeithiol ac Effeithlon*

**C6 - Strategaeth Technoleg Gwybodaeth (TG)**

3.2 Gydag oes y Strategaeth Technoleg Gwybodaeth bresennol yn dod i ben mae rhywfaint o waith wedi digwydd ar ddatblygu'r Strategaeth newydd er bod y cynnydd wedi bod yn araf yn ddiweddar o ganlyniad i'r angen i ganolbwyntio ar brosiect grant addysg sydd hefo amserlen dynn wedi ei gosod gan y Llywodraeth.

Fe adroddwyd y tro diwethaf y bwriad i ddatblygu Strategaeth newydd fydd yn canolbwyntio ar ddarparu'r gwasanaeth cefnogol TG orau i ysgolion Gwynedd. Bydd trafodaethau pellach yn cael eu cynnal hefo partneriaid allweddol dros yr wythnosau nesaf ynghylch gofynion ein hysgolion ac yn dilyn hyn fy mwriad yw dod a'r Strategaeth i sylw'r Cabinet am drafodaeth gan y bydd yna oblygiadau pell gyrhaeddol i rai o'r dewisiadau o ran y gwasanaeth i'w gynnig i ysgolion a'r gost o wneud hynny.

**C7 System rheoli dogfennau a chofnodion electronig (EDRMS)**

3.6 Erbyn hyn mae'r gwaith o drosgwlyddo neu fudo holl Adrannau'r Cyngor i ddenfyddio'r system EDRMS wedi ei gwblhau. Bydd datblygiadau pellach yn digwydd yn ystod y flwyddyn nesaf megis y gallu i rannu dogfennau yn allanol, mynediad o rhywle dros y wê a chydweithio ar ffeiliau ar yr un pryd ac eraill.

Mae gwaith wedi ei wneud er mwyn cynorthwyo defnyddwyr y system ac mae nifer o geisiadau datblygu a gwelliannau wedi deillio o'r gwaith hyn. Er mwyn ceisio sicrhau fod y defnyddwyr yn cael y mwyaf o'r system iGwynedd rwyf wedi gofyn i'r Adran gylchredeg neges i'r holl staff sy'n ei ddefnyddio er mwyn rhoi cyfle iddynt amlygu unrhyw faterion sy'n achosi pryder neu drafferth iddynt. Bydd hyn yn ein galluogi i roi camau yn eu lle er mwyn gwella'r system i'r defnyddwyr. Mae'r Gwasanaeth hefyd yn asesu faint o'r wybodaeth sydd ynddo sydd yn agored i bawb a faint sydd wedi ei gyfyngu er mwyn asesu a ydym yn cael y budd mwyaf o'r sustem

## 4. PERFFORMIAD

Mae ***Atodiad 1*** yn adrodd yn llawn ar y mesurau perfformiad sy'n gysylltiedig â fy maes cyfrifoldeb.

4.1 Mae'r **Gwasanaeth Archwilio Mewnol** y rhoi hyder i'r dinesydd a'r Cyngor am amgylchedd reolaeth a threfniadau llywodraethu'r Cyngor. Ar ddechrau 2019/20 bu i'r gwasanaeth ganolbwyntio eu hadnoddau ar gyflawni archwiliadau o gyfrifon 70 o gynghorau cymuned a thref. Mae'r gwaith bellach wedi ei gwblhau, gydag adroddiad terfynol wedi ei rhyddhau ar gyfer 69 allan o'r 70 cyngor gyda'r Gwasanaeth yn cydweithio gyda Swyddfa Archwilio Cymru ar ddiffygion a ddarganfuwyd mewn un cyngor tref.

Canlyniad hyn yw mai 20 archwiliad, neu 37.03%, o gynllun archwilio 2019/20 Cyngor Gwynedd sydd wedi cael eu cwblhau, allan o 60 archwiliad yn y cynllun addasedig. Er bod hyn yn ymddangos rhywfaint yn isel, mae'n unol â'r proffil disgwyliedig oherwydd y gwaith ar y cynghorau cymuned, felly nid yw hyn yn achos pryder ar hyn o bryd.

4.2 Pwrpas y **Gwasanaeth Risg ac Yswiriant** yw amddiffyn buddiannau trethdalwyr trwy sicrhau trefniadau yswiriant priodol ac ymdrin â hawliadau. **Cafodd 83.3% o hawliadau atebolrwydd cyhoeddus (15 hawliad allan o 18) eu hamddiffyn yn llwyddiannus gan yr uned, a 93.9% gan yr yswirwyr(31 hawliad allan o 33), yn y cyfnod ers yr adroddiad perfformiad diwethaf**. Fel yr wyf wedi nodi o'r blaen wrth amddiffyn hawliadau mae'r Gwasanaeth yn craffu ar y camau a gymerwyd gan y Gwasanaeth y gwnaed yr hawliad yn eu herbyn, gan roi adborth er mwyn gwella.

4.3 Mae'r **Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth** yn cefnogi a rhoi'r gallu i holl wasanaethau'r Cyngor wasanaethu dinasyddion Gwynedd mewn ffordd effeithiol, hyblyg a diogel.

Mae amser wedi ei fuddsoddi yn hyfforddi'r staff fel eu bod wedi eu harfogi i ymateb, a datrys, problemau'r defnyddiwr dros y ffôn ar y cyswllt cyntaf. Er mwyn asesu llwyddiant y gwaith hwn rwyf wedi gofyn iddynt gadw cofnod o'r datrysiadau a wneir ar y cyswllt cyntaf. Rwyf hefyd wedi gofyn i'r Gwasanaeth ystyried ffyrdd y gallwn leihau'r 5% o alwadau ffôn sydd ddim yn cael eu hateb a sut y cofnodir problemau sylweddol sy'n effeithio ar nifer fawr o bobl.

Fe fyddwch yn ymwybodol o ymdrechion sydd wedi eu gwneud yn ddiweddar er mwyn gwella gwytnwch ein systemau TG. Dros gyfnod o 3 wythnos yn ystod mis Tachwedd bu systemau'r Cyngor yn gweithredu oddi ar y gweinydd wrth gefn yn swyddfa Galw Gwynedd ym Mhenrhyndeudraeth ar 3 achlysur oherwydd toriad er nad oedd y defnyddwyr yn ymwybodol o hynny ac nid oedd unrhyw effaith ar y gwaith.

Un rhan bwysig o waith y Gwasanaeth yw datblygu datrysiadau technoleg mewn ymateb i anghenion Gwasanaethau. Enghraifft o waith o'r fath yw prosiect lle mae system gyfrifiadurol bwrpasol wedi ei datblygu ar gyfer y Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol i gofnodi eu gwaith gan hefyd arwain at arbed arian i'r Cyngor. Roeddent wedi derbyn prisiau ar gyfer prynu system allanol gan ddau gyflenwr gydag un wedi dyfynnu cost sefydlu o £14,850 a chostau blynyddol o £13,699 a'r llall wedi dyfynnu cost sefydlu o £22,319 a chostau blynyddol o £5,248.

4.4 Pwrpas y **Gwasanaeth Trethi** yw casglu trethi yn brydlon ac effeithlon, gan geisio bod yn gydymdeimladwy i amgylchiadau unigolion. Mae'r wybodaeth ynghylch y **cyfraddau casglu ar gyfer Treth Cyngor ac Annomestig yn gymharol gyda'r un cyfnodau yn y 2 flynedd diwethaf ar 57.2% ar gyfer Treth Cyngor a 62.9% ar gyfer Annomestig.**

Fe gofiwch i mi adrodd y tro diwethaf fod y Gwasanaeth wedi bod yn cael trafferth ymdopi gyda'r nifer o gyfathrebiadau oedd yn eu cyrraedd oedd wedi creu ôl-groniad. Erbyn hyn mae'r Gwasanaeth allan o'r ôl-groniad gwaith.

Soniwyd hefyd am y ffaith fod cwsmeriaid ar gyfartaledd yn aros am fwy na 5 munud i'w galwadau ffôn gael eu hateb tra roedd dros 2000 o alwadau'r mis yn cael eu methu'n gyfan gwbl. Tra disgwylir y bydd y trosglwyddiad tebygol i'r system hunan wasanaeth yn ysgafnhau rhywfaint ar y baich rwy'n awyddus i edrych ar sut y gellir gwella'r sefyllfa. O ganlyniad, mae bwriad i edrych ar y posibilrwydd o roi neges hefo opsiynau pan fydd cwsmeriaid yn ffonio lle gallant adael eu manylion os ydyn nhw yn aros dros 30 eiliad fel bod modd eu ffonio yn ôl.

4.5 Pwrpas y **Gwasanaeth Budd-daliadau** yw prosesu ceisiadau Budd-dal Tai a Chynllun Gostyngiad Treth Cyngor yn brydlon a chywir er mwyn rhoi cymorth i ddinasyddion Gwynedd i dalu eu rhenti a biliau treth Cyngor. Gwelwyd fod gostyngiad pellach yn y **Cyfartaledd amser a gymerwyd i brosesu cais budd-dal newydd i lawr i 15.42 diwrnod yn y cyfnod diwethaf** o'i gymharu â 21.14 diwrnod yn chwarter 2 2018/19.

Nodir hefyd gostyngiad yn y niferoedd o geisiadau newydd sy'n cael eu cyflwyno o'i gymharu hefo chwarter 2 2018/19 (lawr o 968 i 815) gan fod Gwynedd bellach yn ardal Credyd Cynhwysol Gwasanaeth Llawn.

Mae'r gwasanaeth yn cadw llygad ar ansawdd eu gwaith trwy fesur **Canran yr achosion mewn sampl a ddewiswyd ar hap lle bu rhaid addasu'r cyfrifiad yn dilyn gwiriad mewnol.** Gwelwyd gostyngiad yn y chwarter diwethaf gyda'r canran yn 4.52 o'i gymharu â 5 yn y chwarter blaenorol sydd hefyd yn is na'r canran ar gyfer yr un cyfnod yn ystod 2018/19 (4.82). Nid yw hyn o anghenraid yn arwain at daliad anghywir i unigolion ond er mwyn ceisio deall yn well beth yw effaith yr addasiadau rwyf wedi gofyn i'r Gwasanaeth amlygu'r gost neu'r symiau sydd dan sylw yn y prif gamgymeriadau dros gyfnod o chwarter.

4.6 Pwrpas y **Gwasanaeth Incwm** yw prosesu incwm a chasglu dyledion y Cyngor yn brydlon ac effeithlon er mwyn uchafu incwm, wrth ystyried anghenion yr adrannau a gweithredu'n sensitif i amgylchiadau ariannol dyledwyr.

Nodir fod **Gwerth holl ddyledion amrywiol dros 6 mis oed (ac eithrio taliadau gohiriedig a dyledion a gyfeiriwyd am weithrediad pellach i wasanaethau eraill)** yn uwch ar 30 Medi 2019 nag oedd ar 31 Mawrth 2019, ond yn well o gymharu gyda 30 Medi 2018. Roedd cyfanswm gwerth y dyledion dros 6 mis yn £1,075,566 ar 30 Medi 2019.

Un o'r rhesymau am hyn yw arafwch y Bwrdd Iechyd yn talu oherwydd eu bod yn cwestiynu os mai nhw ddylai fod yn talu ac mae trafodaethau yn parhau er mwyn ceisio dod i ddatrysiad. Yn y cyfamser, erbyn y cyfarfod herio perfformiad nesaf rwyf wedi gofyn i'r Gwasanaeth edrych ar y prif achosion dan sylw er mwyn gallu

sefydlu os oes yna sail dros gwestiynu ai peidio ag gwaith gweinyddol diangen ynghlwm a'r drefn fel y mae.

4.7 Pwrpas y **Gwasanaeth Cyflogau** yw talu staff yn gywir ac ar amser, a hefyd cadw cyfrifon priodol ar gyfer talu cyrff allanol fel CThEM (HMRC). Gwelwyd cynnydd yn y **Nifer o achosion sydd yn arwain at addasiadau pellach yn y cyflog** yn ystod mis Awst (315) a Medi (85) gyda cwpl o ddigwyddiadau sylweddol yn gyfrifol am hyn. Camgymeriadau dynol o fewn Gwasanaethau eraill oedd yn gyfrifol am yr achosion hyn ac mae camau wedi eu cymryd er mwyn datrys y sefyllfa.

4.8 Mae'r **Gwasanaeth Pensiynau** yn gweinyddu'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ar ran dros 40 o gyflogwyr er mwyn cyfrifo a thalu pensiynau yn brydlon a chywir. O ran mesur **Cyfartaledd nifer y dyddiau gwaith a gymerwyd i anfon llythyr yn hysbysu gwerth buddion ymddeol - amcangyfrif bu lleihad** o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2018/19 (**4.10 diwrnod gwaith o'i gymharu â 4.20 diwrnod gwaith**). Nodir fod y cynnydd yn y **Cyfartaledd nifer o ddyddiau gwaith a gymerwyd i gyflawni cyfrifiadau a thaliadau dibynyddion yn dilyn marwolaeth aelod o'r cynllun i fyny i 10 diwrnod o'i gymharu â 5.94 diwrnod yn y chwarter blaenorol**. Rwyf ar ddeall mai'r rheswm pennaf am hyn oedd ymddeoliad y swyddog oedd yn gwirio'r gwaith ac nad oedd modd dargyfeirio swyddogion eraill i wneud y gwaith yn y cyfnod dan sylw gan eu bod yn gweithio ar y prisiant. Rwy'n hyderus fod camau wedi eu cymryd er mwyn ymateb ac y bydd y cyfartaledd yn lleihau yn ystod y cyfnod nesaf.

Un o'r prif ddarnau o waith sydd wedi ei wneud dros y misoedd diwethaf yw'r prisiant o'r Gronfa Bensiwn sy'n digwydd bob 3 blynedd. Rwy'n falch o adrodd fod cynnydd yn lefel ariannu'r gronfa o 91% yn 2016 i 108% eleni sy'n golygu y gallwn weld elfen o leihad yn ein cyfraniad fel cyflogwr. Bydd yr adroddiad llawn yn cael ei ryddhau yn gyhoeddus erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

4.9 Pwrpas y **Gwasanaeth Buddsoddi a Rheolaeth Trysorlys** yw uchafu'r budd o fuddsoddi'r Gronfa Bensiwn, a chadw cyfrifon priodol; Buddsoddi llif arian y Cyngor yn saff, gyda llog derbyniol a rheoli benthyciadau tymor hir. Fe welir fod yr **Incwm llog ar adnau arian mewn banciau i'w mesur yn erbyn cyfradd 7 diwrnod LIBID heb ei gompowndio wedi gwella gyda dychweliadau yn y cyfnod diwethaf yn 1.82%** o'i gymharu hefo 0.65% yn yr un cyfnod yn 18/19 a 0.42% yn 17/18. Y rheswm pennaf dros hyn yw bod y cronfeydd wedi buddsoddi mewn cronfeydd ecwiti a cronfeydd eiddo, sy'n sicrhau gwell dychweliadau."

4.10 Mae'r **Gwasanaeth Taliadau Credydwyr** yn sicrhau fod credydwyr y Cyngor yn cael eu talu yn gywir ac amserol. Nodir fod cynnydd i'w weld yn y nifer o **Addasiadau i daliadau blaenorol gan y Cyngor a wnaed yn y cyfnod diwethaf gyda 12 achos** o'i gymharu â 8 yn yr un cyfnod yn 18/19 a 2 yn 17/18. Un o'r rhesymau am y cynnydd hwn yw'r ffaith fod mwy o gyflenwyr ac Adrannau a Gwasanaethu'r Cyngor yn gweithredu'n ddigidol. Nodir fodd bynnag fod trefn mewn lle i adnabod unrhyw ddyblygiadau er mwyn sicrhau nad yw anfonebau yn cael eu talu ddwywaith. Er mwyn ceisio lleihau'r achosion hyn 'rwyf wedi gofyn i'r Gwasanaeth adolygu eu systemau.

4.11 Gwelwyd gwelliant cyffredinol ym mherfformiad y mesurau **Canran yr anfonebau a dalwyd o fewn 30 diwrnod gyda 91% o anfonebau a dderbyniwyd gan y Cyngor, a 94% oedd wedi eu derbyn gan gyflenwyr lleol wedi eu talu o fewn 30 diwrnod** o'i gymharu â 88% a 91% ar gyfer yr un cyfnod yn 18/19. Er mwyn cael gwell dealltwriaeth pam nad ydym yn talu rwyf wedi gofyn i'r Gwasanaeth edrych ar 20 o anfonebau (fydd wedi eu dewis ar hap) sydd heb eu talu o fewn y cyfnod amser.

4.12 Mae'r **Gwasanaeth Cyfrifeg** yn parhau i gynnal strwythurwaith ariannol y Cyngor yn dda ac wedi bod yn canolbwyntio dros y cyfnod a fu ar sicrhau adroddiadau monitro ariannol amserol a pharatoi gwybodaeth ar gyfer medru sefydlu cyllideb hyfyw yn 2020/21. Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi gwneud asesiad yn ddiweddar o gynaliadwyedd ariannol awdurdodau yng Nghymru ac fe ddylem dderbyn eu adroddiad cyn hir. Byddwn yn disgwyl i'r adroddiad hwnnw adlewyrchu cryfder ein trefniadau ariannol ac ein gwasanaeth cyfrifeg.

## 5. SEFYLLFA ARIANNOL/ ARBEDION

5.1 Mae'r Adran wedi llwyddo i wireddu'r mwyafrif o gynlluniau arbedion 2019/20. Mae cynllun ar waith i symud slipiau cyflog i drefn electronig sydd eto i'w gwblhau, ond disgwylir iddo gael ei gyflawni yn llawn ac yn amserol yn unol â'r bwriad.

## 6. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

6.1 Dim i'w nodi.

## 7. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

7.1 **Barn y Swyddogion Statudol:**

**i. Y Swyddog Monitro:**

Dim i'w nodi o safbwynt priodoldeb.

**ii. Y Pennaeth Cyllid:**

Rwy'n cadarnhau cywirdeb cynnwys yr adroddiad, a byddaf yn cefnogi'r Aelod Cabinet i gyflawni'r amcanion perthnasol.

7.2 **Barn yr Aelod Lleol:**

Ddim yn fater lleol.

7.3 **Canlyniad Unrhyw Ymgynghoriad:**

Dim i'w nodi.

---

**Atodiadau**

**Atodiad 1 –** Mesurau Perfformiad


Atodiad 1


**MONITRO PERFFORMIAD ADRAN CYLLID**
**2019.20**

**<u>Gwasanaeth Risg ac Yswiriant - Mesurau Cyflawni (Chwarterol)</u>**

Pennaeth Cynorthwyol Cyfrifol : Dewi A Morgan
Rheolwr Cyfrifol: Gwyn Varney

<u>Pwrpas y Gwasanaeth:</u>
Cefnogi adrannau'r Cyngor wrth iddynt asesu'r bygythiadau a chyfleon all eu hwynebu wrth ddarparu eu gwasanaethau a blaenoriaethu eu gweithgareddau ar sail yr asesiad. Amddiffyn buddiannau trethdalwyr drwy sicrhau trefniadau yswiriant priodol ac ymdrin â hawliadau



# TG - Isadeiledd

Pennaeth Cynorthwyol Cyfrifol – Huw Ynyr
Rheolwr Cyfrifol – Gwyn Jones

**Pwrpas y Gwasanaeth**
Datblygu a chefnogi isadeiledd y Cyngor i ddarparu llwyfan gwydn a diogel i gynnal gwasanaethau technoleg gwybodaeth y Cyngor.

**Perfformiad Chwarter 2 2019-20**

| | Ebrill 2019 | Mai 2019 | Meh 2019 | Q1 | | Gorff 2019 | Awst 2016 | Medi 2019 | Q2 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rhwydwaith Craidd** | 99.99% | 99.99% | 99.99% | 99.99% | | 99.96% | 99.95% | 99.99% | 99.97% |
| **Systemau Cyllid** | 100.00% | 99.95% | 99.99% | 99.98% | | 99.98% | 99.98% | 99.99% | 99.98% |

Mae'r cyflwr y rhwydwaith craidd yn parhau i'r safon.
Dangosir lleihad yn cyfartaledd argaeledd rhwydwaith Gorffennaf ac Awst oherwydd problem caledwedd y wal-dân. Mae'r cyfarpar sefydlog yn ystod cael ei newid, gyda tendr caffael wedi ei gwobrwyo i gyflenwr newydd. Golygir hefyd bod darpariaeth mynediad i'r we yn cael ei ymestyn i Penrhyndeudraeth yn y flwyddyn newydd.

## **Gwasanaeth Trethi - Mesurau Cyflawni (Chwarterol)**

Pennaeth Cynorthwyol Cyfrifol : Dewi A Morgan
Rheolwr Cyfrifol: Bleddyn Jones

Pwrpas y Gwasanaeth:
Casglu trethi yn brydlon ac effeithlon, gan geisio bod yn hyblyg a chydymdeimladol i amgylchiadau unigolion


| **Cyf.** | **Mesur Cyflawni** | **Sylwadau Chwarter 2** | **Ch2 19/20** | **Ch1 19/20** | **Ch4 18/19** | **Ch3 18/19** | **Ch2 18/19** | **Ch2 17/18** | **Ch2 16/17** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CD11.01 | Cyfradd Casglu Treth Cyngor | Lleihad yn yr olgroniad, gwaith monitro eithriad wedi cychwyn | 57.2% | 29.8% | 96.7% | 84.6% | 57.2% | 57.8% | 58.06% |
| CD11.02 | Cyfradd Casglu Trethi Annomestig | Dim i adrodd | 62.9% | 29.4% | 98.1% | 88.0% | 62.5% | 62.44% | 62.8% |
| CD11.04 | Nifer o drethdalwyr treth cyngor ddaeth i gyswllt â'r tim adfer ac â gyfeirwyd at fudiad y CAB am gyngor dyledion ehangach | Effaith dileu traddodi fel opsiwn ad ennill, bosib nad yw trethdalwyr yn cysylltu gyda CAB i drafod problemau arianol | 9 | 10 | 24 | 26 | 24 | 41 | 68 |


# **Gwasanaeth Budd-daliadau - Mesurau Cyflawni**


Pennaeth Cynorthwyol Cyfrifol : Dewi A Morgan
Rheolwr Cyfrifol: Dylan Griffith

Pwrpas y Gwasanaeth:


Prosesu ceisiadau Budd-dal Tai a Chynllun Gostyngiad Treth Cyngor yn brydlon a chywir, er mwyn rhoi cymorth i ddinasyddion Gwynedd i dalu eu rhenti a biliau Treth Cyngor




Canran yr achosion mewn sampl a ddewiswyd ar hap lle bu rhaid addasu'r cyfrifiad yn dilyn gwiriad mewnol (CD12.05)
9.00%
8.00%
7.00%
6.00%
5.00%
4.00%
3.00%
2.00%
1.00%
0.00%
Wedi gwirio 155 cais y chwarter yma, gyda 7 angen ail-asesiad. O'r gwaith dadansoddi wnaethpwyd o ddata y chwarter yma rydym yn gweld fod 4 o'r ceisiadau efo camgymeriad sy'n ymwneud efo enillion y cwsmer, 2 gais efo camgymeriad cyffredinol a 1 cais oherwydd diffyg teipio cywir. Mae'r canran o 4.52 yn îs na'r ffigwr ar gyfer Chwarter 2 2018/19 (4.82) a hefyd yn dangos gostyngiad yn erbyn Chwarter 1 2019/20 (5.00).
CH3 2016-17
CH4 2016-17
CH1 2017-18
CH2 2017-18
Ch3 2017-18
Ch4 2017-18
CH1 2018-19
CH2 2018-19
CH3 2018-19
CH4 2018-19
CH1 2019-20
CH2 2019-20

**<u>Gwasanaeth Incwm - Mesurau Cyflawni</u>**
Pennaeth Cynorthwyol Cyfrifol : Dewi A Morgan        Rheolwr Cyfrifol: Stephen Williams
<u>Pwrpas y Gwasanaeth:</u>
Prosesu incwm amrywiol a chasglu dyledion y Cyngor yn brydlon ac effeithlon er mwyn uchafu incwm, tra’n ystyried anghenion yr adrannau a gweithredu’n sensitif i amgylchiadau ariannol dyledwyr






| Cyf. | Mesur Cyflawni | Sylwadau Chwarter 2 | Ch 2 19/20 | Ch 1 19/20 | Ch 4 18/19 | Ch 3 18/19 | Ch 2 18/19 | Ch 2 17/18 | Ch 2 16/17 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CD7.05 | Cyfradd casglu dyledion amrywiol o fewn y chwarter – Gwerth. | Mae'r perfformiad yn well na'r hyn a adroddwyd ar gyfer chwarter 2 18/19 a mwy na heb ar yr un lefel a chwarter 1 19/20. | 89.25% | 89.84% | 88.86% | 86.22% | 84.25% | 86.94% | 90.17% |

## **Gwasanaeth Cyflogau - Mesurau Cyflawni**

Pennaeth Cynorthwyol Cyfrifol : Dewi A Morgan
Rheolwr Cyfrifol: Martin Morris

Pwrpas y Gwasanaeth:
I dalu staff yn gywir ac ar amser, ac hefyd cadw cyfrifon priodol ar gyfer talu cyrff allanol fel CThEM (HMRC)



## Gwasanaeth Pensiynau - Mesurau Cyflawni

Pennaeth Cyfrifol : Dafydd L Edwards
Rheolwr Cyfrifol: Meirion Jones

Pwrpas y Gwasanaeth:
I weinyddu'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ar ran dros 40 cyflogwr gan gynnwys Cyngor Gwynedd, Cyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy er mwyn cyfrifo a thalu pensiynau yn brydlon a chywir.

| Cyf. | Mesur Cyflawni | Sylwadau Chwarter 2 | Ch 2 19/20 | Ch 1 19/20 | Ch 4 18/19 | Ch 3 18/19 | Ch 2 18/19 | Ch 2 17/18 | Ch 2 16/17 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CD9.03 | Cyfartaledd nifer y ddyddiau gwaith a gymerwyd i anfon llythyr yn hysbysu gwerth buddion ymddeol - amcangyfrif. | Perfformiad wedi aros yn gyson. | 4.10 | 4.10 | 4.64 | 4.40 | 4.20 | 2.40 | 9.70 |
| CD9.04 | Cyfartaledd nifer y ddyddiau gwaith a gymerwyd i anfon llythyr yn hysbysu gwerth buddion ymddeol - gwir werth. | Perfformiad wedi gwella ychydig bach. | 1.10 | 1.50 | 2.03 | 1.00 | 1.80 | 5.30 | 2.20 |
| CD9.05 | Cyfartaledd nifer o ddyddiau gwaith a gymerwyd i gyflawni cyfrifiadau a thaliadau dibynyddion yn dilyn marwolaeth aelod o'r cynllun. | Nifer o ddyddiau gwaith wedi cynyddu yn dilyn ymddeoliad hyblyg y rheolwr oedd yn gwirio'r gwaith cyn eu hanfon allan. Swyddogion eraill wedi bod yn gweithio ar y prisiant yn ystod y cyfnod i gallu helpu gyda'r gwaith gwirio. Dylai'r sefyllfa wella erbyn tro nesaf yn dilyn ymddeoliad llawn y rheolwr. | 10.00 | 5.94 | 6.89 | 8.73 | 9.10 | 4.56 | 5.80 |

**Gwasanaeth Buddsoddi a Rheolaeth Trysorlys - Mesurau Cyflawni**

Pennaeth: Dafydd L Edwards
Rheolwr Cyfrifol: Delyth Wyn Jones-Thomas

Pwrpas y Gwasanaeth:
Uchafu budd o fuddsoddi'r Gronfa Bensiwn, a chadw cyfrifon priodol;
Buddsoddi llif arian y Cyngor yn sâff, gyda llôg derbyniol;
Rheoli benthyciadau hir-dymor


| Cyf. | Mesur Cyflawni | Sylwadau Chwarter 2 | Ch2 19/20 | Ch1 19/20 | Ch4 18/19 | Ch3 18/19 | Ch2 18/19 | Ch2 17/18 | Ch2 16/17 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CD13.05 | Cronfa Bensiwn - Perfformiad buddsoddi'r rheolwyr portffolio o'i gymharu â'r meincnod penodol a osodwyd ar eu cyfer. | Tyfiant economaidd wedi bod yn araf, ond sefyllfa'r gronfa wedi cryfhau oherwydd newidiadau ffafriol mewn cyfraddau cyfnewid arian. | 0.50 | -0.40 | 1.90 | -0.30 | 0.70 | -0.20 | -0.10 |
| CD13.06 | Diogelwch arian y Cyngor wrth adnau arian mewn banciau - dadansoddiad chwarterol gan Arlingclose o'r sgôr credyd (1 ydi'r gorau, sef statws credyd AAA, 2 ydi AA+, 3 ydi AA, 4 ydi AA-, 5 ydi A+, 6 ydi A, 7 ydi A-). | Derbyniol bod y sgor yn sefydlog rhwng 4 a 5. | 4.97 | 4.44 | 4.96 | 5.19 | 4.21 | 3.97 | 3.00 |
| CD13.07 | Incwm llog ar adnau arian mewn banciau i'w mesur yn erbyn cyfradd 7 diwrnod LIBID heb ei compowndio | Dychweliadau cryf gan ein Cronfeydd eiddo wedi'i pwlio. | 1.82 | 1.68 | 1.09 | 0.62 | 0.65 | 0.42 | 0.58 |


**Gwasanaeth Taliadau Credydwyr - Mesurau Cyflawni**

Uwch Reolwr Cyfrifol : Ffion Madog Evans    Arweinydd Tîm Cyfrifol: Christopher Parry

Pwrpas y Gwasanaeth:

Talu credydwyr y Cyngor yn gywir ac yn amserol




| Cyf. | Mesur Cyflawni | Sylwadau<br>Cyfnod | Cyf 2 19/20 | Cyf 1 19/20 | Cyf 3 18/19 | Cyf 2 18/19 | Ch2 17/18 | Ch2 16/17 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CD6.03 | Addasiad i daliadau blaenorol gan y Cyngor | Gwnaed 12 addasiad o fewn yr ail gyfnod. Gyda 5 mis yn yr ail gyfnod o gymharu gyda 2 fis yng nghyfnod un. Cynnydd yn y niferoedd o addasiadau o'i gymharu gyda'r un cyfnod yn 2018/19, gyda nifer o resymau am yr addasiadau.<br><br>Mae cynnydd yn y tueddiad o daliadau dyblyg yn parhau wrth symud i drefn mwy electroneg a derbyn anfonebau gan gwmnïau drwy e-byst. Fodd bynnag mae trefn mewn lle i adnabod unrhyw ddyblygiad cyn talu'r cyflenwyr, felly nid yw wedi arwain at dalu ddwy waith. | 12 | 1 | 1 | 8 | 2 | 0 |

*Cyfnod 1: Ebrill a Mai;  Cyfnod 2: Mehefin, Gorffennaf, Awst, Medi, Hydref; Cyfnod 3: Tachwedd, Rhagfyr, Ionawr, Chwefor, Mawrth*

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **21ain Ionawr 2020** |
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Gareth Griffith** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Morwena Edwards, Cyfarwyddwr Corfforaethol** |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | **01286 679 468** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Amgylchedd** |

**1 Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

1.1 Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

**2 Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD**

2.1 Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad yn effeithiol.

**3 CYFLWYNIAD**

3.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw i'ch diweddaru ar beth sydd wedi'i gyflawni yn y maes rwy'n gyfrifol amdano fel Aelod Cabinet Amgylchedd. Mae hyn yn cynnwys amlinellu'r diweddaraf gyda'r addewidion yng Nghynllun y Cyngor; lle mae'r mesurau perfformiad arni; a'r diweddaraf o ran cynllun arbedion a thoriadau.

3.2 Rydym yn gweithredu ar Gynllun y Cyngor 2018-23, yma rwyf yn adrodd ar y cynnydd hyd at ddiwedd Tachwedd 2019.

3.3 Rwyf am eich atgoffa bod yr holl faterion eisoes wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu craffu gennyf mewn cyfarfodydd o'r Tîm Rheoli a gynhaliwyd yn benodol at y pwrpas sydd hefyd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r Pwyllgor Craffu perthnasol.

3.4 Ar y cyfan, rwyf yn hapus gyda perfformiad yr adran. Byddaf yn ymhelaethu ar y cynnydd yn yr adroddiad.

**4 RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD**

**4.1 PERFFORMIAD**

**4.2 Gwasanaeth Cynllunio**

4.2.1 Pwrpas y **Gwasanaeth Cynllunio** yw hwyluso a rheoli datblygiadau cynaliadwy er budd ein cymunedau, yr economi a'r amgylchedd o fewn ardal awdurdod cynllunio Gwynedd (nad yw'n cynnwys ardal y Parc Cenedlaethol).

4.2.2 Mae canran ***bodlonrwydd gyda'r gwasanaeth*** (C1) yn parhau i fod yn weddol uchel ar 82.86%. Rydw i yn falch iawn fod sylwadau o fodlonrwydd yn gyson, gyda sylwadau cadarnhaol iawn am y gwasanaeth a'r cyngor ddarperir gan swyddogion. Mae'r rhesymau dros y canran bychan o anfodlonrwydd yn parhau ogwmpas y drefn rhwystredig o gysylltu gyda'r gwasanaeth, mae sylwadau tebyg yn cael ei adrodd

gan gwsmeriaid sy'n fodlon a'r gwasanaeth.

4.2.3 Mae'r mesur ***Pa mor sydyn mae'r holl geisiadau Cynllunio ar gyfartaledd wedi cymryd i'w penderfynu*** (C2) yn dangos y gwahaniaeth rhwng yr amser a gymerir i geisiadau gael ei penderfynu gan Swyddog ynghyd a rhai gan y Pwyllgor Cynllunio. Mae'r nifer o ddyddiau ar gyfartaledd mae ceisiadau yn cymryd i'w prosesu yn gyson. Ers mabwysiadu'r Cynllun Dirprwyo nol yn mis Mai 2018, mae'r cyfartaledd wedi bod yn weddol gyson gyda'r cyfnod stautuol ar gyfer ymdrin a cheisiadau. O ganlyniad i fabwysiadu'r cynllun mae llai o geisiadau wedi mynd gerbron y Pwyllgor ac felly mae canran uwch o geisiadau yn cael ei penderfynu o dan y drefn dirprwyedig.

4.2.4 Blaenoriaeth yr **Uned Gorfodaeth** yw ymchwilio, darparu a chyflwyno rhybuddion gorfoadeth ar yr achosion mwyaf difrifol. Mae'r dangosyddion gorfodaeth yn mesur canran yr holl achosion y llwyddir i ymchwilio iddynt o fewn yr amserlen. Mae'r dangosydd yn y broses o gael ei ddatblygu a'i fireinio er mwyn adnabod y nifer o achosion sydd yn parhau yn agored ac er mwyn adnabod llwyth gwaith swyddogion ynghyd a pherffordmiad yr Uned Gorfodaeth yn ei gyfanrwydd at bwrpas rheolaeth effeithiol. Y nod fydd i allu archwilio mwy o achosion, gan roi blaenoriaeth i'r rhai risg uchel a chanolig yn y lle cyntaf, ac yn yr achosion yma i gael canran uwch o achosion ble mae camau cadarnhaol yn cael eu cwblhau.

4.2.5 Yn sgil mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol mae'n ofynnol i bob Awdurdod Lleol ddatblygu a mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol. Erbyn hyn mae 7 Canllaw Cynllunio Atodol wedi ei fabwysiadu ac yn cael ei defnyddio gan swyddogion, gyda un arall wedi bod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus yn ddiweddar.

4.2.6 Mae'r ddarpariaeth o dai fforddiadwy yn golygu fod yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn darparu lefel uwch o dai fforddiadwy na'r targed uchaf o fewn y Cynllun Datblygu Lleol sydd yn 30%. Mae hyn yn adlewyrchu'r patrwm blaenorol, ac mae'n gadarnhaol ar gyfer y nifer o dai fforddiadwy sy'n cael ei caniatáu.

**4.3 Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd**

4.3.1 Pwrpas y **Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd** yw gwarchod y cyhoedd mewn perthynas ag amrediad o faterion amgylcheddol ac iechyd.

4.3.2 Cafodd trefn newydd o gwestiynau ei ddefnyddio yn ystod y cyfnod ar gyfer mesur y ***canran o gwsmeriaid a ymatebodd i arolwg ddywedodd eu bod yn fodlon a'r lefel gwasanaeth (***G1) y tro hwn. Er defnyddio'r drefn newydd mae wedi dod i'r amlwg na fu'r cwestiynau diwygiedig yn ysgogi unigolion i gynnig sylwadau cynhwysfawr am y gwasanaeth a dderbyniwyd, felly bydd angen monitro ac asesu'r drefn yn bellach.

4.3.3 Mae'n ymddangos fod y mesur ***canran y busnesau uchel eu risg sydd wedi cael arolygiad yn unol â'r rhaglen*** (G2) ynghyd a'r ***canran y sefydliadau bwyd anifeiliaid sydd wedi cael arolygiad yn unol â'r rhaglen*** (G4) yn methu a chyflawni'r arolygiadau yn unol â'r rhaglen a hynny oherwydd diffyg capasiti. Mae swyddogion wedi fy sicrhau bydd capasiti mewn lle a byddem yn dal fyny efo'r rhaglen erbyn diwedd y flwyddyn ar gyfer G2. Ond mae pryder yn parhau ynghylch G4 oherwydd yr angen i gael staff cymwysedig i wneud yr arolygiadau, mae'n bosibl bydd angen comisiynu unigolyn/cwmni i helpu gyda'r gwaith er mwyn cyflawni, rydw i yn bryderus am y sefyllfa gyda G4 gan fod yn ofyn statudol ac felly byddaf yn parhau i fonitro'r sefyllfa.

4.3.4 Mae'r mesur ***canran sefydliadau bwyd sy'n cyrraedd safonau Hylendid Bwyd*** (G8) yn nodi fod 99.1% o'r sefydliadau bwyd yn cydymffurfio, gyda dim ond 0.9% yn methu sef 19 busnes allan o 2120. Mae'r busnesau sydd ddim yn cwrdd â safon foddhaol eisoes wedi derbyn sylw pellach i sicrhau nad ydynt yn parhau i weithredu mewn modd sydd yn peri risg i iechyd cwsmeriaid.

4.3.5 Cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor Trwyddedu ar yr 2il o Ragfyr, er mwyn edrych ar opsiynau ar gyfer adolygu'r Cynllun Dirprwyo ar gyfer Trwyddedau Tacsi. Dengys y wybodaeth ynghylch ***cyfartaledd y dyddiau a gymerir i benderfynu cais trwydded tacsi*** (G7) fod peth cynnydd ers diwedd mis Mawrth yn yr amser a gymerir i brosesu ceisiadau adnewyddu yn ogystal â cheisiadau o'r newydd. Y rheswm dros hyn yw oherwydd bod cyfartaledd uwch na'r arfer o geisiadau newydd ac adnewyddu wedi gorfod cael eu cyfeirio at Bwyllgor am benderfyniad.

**4.4 Gwasanaethau Trafnidiaeth a Chefn Gwlad**

4.4.1 Pwrpas y **maes gwaith Traffig, Prosiectau a Gwaith Stryd** yw galluogi'r cyhoedd ddefnyddio ffyrdd Gwynedd mewn modd diogel a dirwystr.

4.4.2 Mae'r Gwasanaeth Parcio yn rheoli 117 o feysydd parcio ledled y sir, a'n gweithredu trefniadau gorfodaeth parcio. Mae'r ***nifer o apeliadau i'r Beirniad Annibynnol*** (Eiddo 6) wedi lleihau yn sylweddol yn dilyn delio gyda lleoliadau megis y Maes yng Nghaernarfon. Rydw i yn awyddus i'r adran edrych ar yr opsiynau i ychwanegu mesurydd newydd er mwyn casglu bodlonrwydd cwsmer am y parcio yng Ngwynedd, byddaf yn adrodd arno i'r dyfodol.

4.4.3 Rydw i yn gyfforddus gyda pherfformiad yr Uned Trafnidiaeth, un rhwystr i'r Uned gyda'r ***cyfnod prosesu gorchmynion traffig*** (T1) ydi'r cyfnod pan mae angen i drosglwyddo'r gorchmynion i adrannau eraill neu i gontractwyr. Bydd trafodaethau pellach yn cael eu cynnal gyda'n hadran gyfreithiol er mwyn ceisio lleihau'r nifer o ddyddiau.

4.4.4 Pwrpas y **Gwasanaeth Cludiant Cyhoeddus** yw darparu cludiant diogel o ansawdd sy'n gost effeithiol. Mae'r gwasanaeth wedi cychwyn ar adolygiad cynhwysfawr ar y cyd gyda Thrafnidiaeth i Gymru a Phrifysgol Bangor o'r ddarpariaeth cludiant cyhoeddus yng Ngwynedd. Cafodd yr adolygiad ei roi ymlaen i'r gweinidogion yn ystod mis Hydref sydd yn cynnwys argymhellion ar gyfer dyfodol y rhwydwaith craidd ar gyfer 2020-2025. Rydw i yn gobeithio bydd yr adolygiad yn gyfle i ni edrych ar ddarparu gwasanaethau mewn ffyrdd tu hwnt i'r ffyrdd traddodiadol, ac yn hynny o beth yn lleihau'r risg o orddibyniaeth ar un cwmni bws.

4.4.5 Mae'r gwasanaeth yn gyfrifol am y ***nifer o gwynion a dderbyniwyd am wasanaethau cludiant dan gontract i'r Cyngor*** (Cludiant 02), roedd 8 cwyn wedi ei adrodd ond rydw i yn falch o adrodd fod y sefyllfa wedi gwella.

4.5 Dechreuodd yr **Uned Cefn Gwlad** ar yr adolygiad Ffordd Gwynedd flwyddyn yn ôl. Fel rhan o'r broses maent wedi adolygu'r pwrpas, bellach pwrpas yr uned yw *gofalu am rwydwaith llwybrau Gwynedd, harddwch y tirlun a byd natur ar dir ac yn y môr*. Y cam nesaf fydd canfod mesuryddion ar gyfer yr uned, ynghyd ac edrych ar sut i gyfathrebu efo cwsmeriaid a defnyddio systemau. Mae'n gadarnhaol iawn i adrodd fod yr uned yn datgan fod mynd drwy'r adolygiad Ffordd Gwynedd wedi bod yn ddefnyddiol.

4.6 Yn ddiweddar mae'r Adran Amgylchedd wedi sefydlu system newydd, sef Tascomi. Bydd y system yn cael ei defnyddio gan y Gwasanaethau Cynllunio, Gwarchod y

Cyhoedd a Rheolaeth Adeiladu. Bydd y system yn golygu gwell gwasanaethau i'r cyhoedd, yn ogystal â'n sicrhau bydd gwybodaeth yn gywir a chyson.

**5 SEFYLLFA ARIANNOL / ARBEDION**

**5.1 Cynlluniau Arbedion 2019/20**

5.1.1 Mae 12 o'r cynlluniau arbedion 2019/20 unai wedi eu gwireddu neu ar drac i'w gwireddu'n amserol cyn diwedd y flwyddyn ariannol.

5.1.2 Mae'r Adran yn rhagweld y bydd rhai risgiau i gyflawni'r arbedion ar gynllun *Cynyddu'r nifer meysydd parcio sy'n rai talu ac arddangos a chynyddu ffioedd parcio.* Yn dilyn cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau, sefydlwyd Grŵp Tasg. Bydd y Grŵp Tasg yn trafod opsiynau ac yn adrodd i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau yn Ebrill 2020 ac wedyn i'r Tîm Arweinyddiaeth ym Mehefin 2020.

5.1.3 Mae'r gwaith ar y cynllun *Darparu pwyntiau gwefru trydan mewn meysydd parcio* wedi cychwyn ond mae cryn dipyn o waith yn parhau er mwyn gwarantu bydd digon o incwm o'r cynllun erbyn 2021/22 ac 2022-23. Mae Bid Cyfalaf am adnodd wedi ei gyflwyno ar gyfer yr isadeiledd.

5.1.4 Cyflwynwyd adroddiad *Arbedion Teithio Staff Cyngor Gwynedd* i'r Cabinet ar y 5ed o Dachwedd 2019 a chytunwyd i fabwysiadu'r cynllun amgen sydd yn lleihau swm yr arbedion o £130k i £118k.

**6 UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD**

**6.1 Barn y Swyddogion Statudol:**

**Y Swyddog Monitro**

"Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb."

**Y Pennaeth Cyllid**


"Rwyf yn fodlon fod cynnwys yr adroddiad yn adlewyrchiad teg o'r sefyllfa ariannol. Mae hynny'n golygu fod 12 o gynlluniau arbedion 2019/20 eisoes wedi eu gwireddu neu ar drac i wireddu'n amserol, ac mae risgiau'r cynlluniau arbedion eraill wedi eu manylu yn rhan 5 o'r adroddiad. Bydd swyddogion Cyllid yn parhau i gynorthwyo'r Aelod Cabinet i fonitro'r cynnydd yn erbyn y cynlluniau yma, ac mae diweddariad o sefyllfa ariannol yr adran wedi ei gynnwys yn yr adolygiad cyllidol sy'n destun adroddiad yr Aelod Cabinet Cyllid ar raglen y cyfarfod yma."


**ATODIADAU:**

**Atodiad 1** Mesurau'r Adran Amgylchedd


# MESURAU AELOD CABINET AMGYLCHEDD


**Mesurau Gwasanaeth Cynllunio**









**Mesurau Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd**












G7: Cyfartaledd y dyddiau a gymerir i benderfynu cais Trwydded Tacsi (01/06/2018 - 31/10/2019)
Gyrwyr
Gweithredwyr
Cerbydau
NIFER O DDYDDIAU
50.00
45.00
40.00
35.00
30.00
25.00
20.00
15.00
10.00
5.00
0.00
46.88
42.36
41.85
38.92
28.47
21.15
19.10
18.62
18.64
18.22
28.13
25.69
26.35
20.75
19.21
20.03
20.28
1.85
1.83
1.76
1.66
1.60
1.74
1.77
1.67
1.63
1.70
1.11
1.58
1.67
1.81
2.05
2.12
2.27
0.40
0.29
0.23
0.25
01/06/18 - 30/06/18
01/07/18 - 31/07/18
01/08/18 - 31/08/18
01/09/18 - 30/09/18
01/10/18 - 31/10/18
01/11/18 - 30/11/18
01/12/18 - 31/12/18
01/01/19 - 31/01/19
01/02/19 - 28/02/19
01/03/19 - 31/03/19
01/04/19 - 30/04/19
01/05/19 - 31/05/19
01/06/19 - 30/06/19
01/07/19 - 31/07/19
01/08/19 - 31/08/19
01/09/19 - 30/09/19
01/10/19 - 31/10/19


G8 - CANRAN SEFYDLIADAU BWYD SY'N CYRRAEDD SAFONAU HYLENDID BWYD
(01/04/2019 - 30/09/2019)
Arolygwyd
Hwyr
I'w wneud
[GWERTH]
[GWERTH]
[GWERTH]

**Gwasanaethau Trafnidiaeth a Chefn Gwlad**



# CABINET CYNGOR GWYNEDD

**Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 21 Ionawr 2020 |
| **Teitl yr Eitem:** | Adroddiad Perfformiad yr Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant |
| **Pwrpas:** | Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad |
| **Aelod Cabinet:** | Y Cynghorydd Dafydd Meurig |
| **Swyddog Cyswllt:** | Morwena Edwards, Cyfarwyddwr Corfforaethol |

**1. CYFLWYNIAD**

1.1. Pwrpas yr adroddiad yma yw i ddiweddaru fy nghyd aelodau ar yr hyn sydd wedi digwydd yn y meysydd rydw i'n gyfrifol amdanynt fel Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant. Bydd hyn yn cynnwys egluro'r perfformiad yn unol â'r blaenoriaethau gwella a'n mesurau, yn ogystal â chyflwyno'r datblygiadau diweddaraf o ran cynlluniau arbedion a thoriadau.

1.2. Byddwn yn eich atgoffa fod y materion hyn eisoes wedi derbyn sylw ac wedi eu craffu mewn cyfarfodydd Herio Perfformiad oedd hefyd yn cynnwys cynrychiolydd o Bwyllgor Craffu.

1.3. Mae gwaith da iawn yn digwydd yn yr Adran ac rwy'n diolch iddynt am eu gwaith. Gan na fyddai'n bosib cyfeirio at yr holl brosiectau sy'n digwydd, rwyf yn canolbwyntio'n bennaf ar y prif faterion rwy'n credu sydd angen i'r Cabinet fod yn ymwybodol ohonynt.

**2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

2.1 Derbyn a nodi’r wybodaeth yn yr adroddiad.

**3. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD**

3.1 Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad effeithiol.

**4. PERFFORMIAD YN ERBYN MESURAU A BLAENORIAETHAU GWELLA CYNLLUN Y CYNGOR 2018-23**

**Gwasanaeth Anabledd Dysgu**

4.1 Pwrpas y **Gwasanaeth Anabledd Dysgu** yw i gyfarch anghenion llesiant corfforol, emosiynol, meddyliol a chymdeithasol unigolion ag anabledd dysgu. Y prif fesur ar gyfer y gwasanaeth yw ‘A wnaethom yr hyn sy’n bwysig?’ ac mae’r perfformiad hyd yma eleni yn 78%, gydag 18% o achosion hefyd yn nodi eu bod wedi cyflawni’r hyn sy’n bwysig yn ‘rhannol’, a 4% o achosion lle nad ydynt wedi cyflawni’r hyn sy’n bwysig.

4.2 Mae’r gwasanaeth wedi bod yn canolbwyntio ar yr achosion lle nad ydynt yn cyfarch yr anghenion llesiant er mwyn adnabod themâu, ac un thema sydd wedi’i amlygu yw’r angen i barhau i ddatblygu ystod eang o gyfleoedd dydd a gwaith. Rhwystrau eraill sy’n wynebu’r gwasanaeth yw’r diffyg llety addas, diffyg cyfleon gwaith addas a diffyg gwasanaethau iechyd arbenigol priodol.

4.3 Er mwyn mynd i’r afael â’r rhwystrau hyn, mae’r gwasanaeth wedi mynd ati i roi nifer o brosiectau mewn lle. Dau enghraifft yn unig yw’r siop newydd ‘Galwch Acw’ yng Nghaernarfon sy’n darparu hwb cymunedol ac sy’n cyfuno gwaith a chyfleoedd hyfforddi i oedolion ag anableddau dysgu, a datblygiad uned gofal ysbaid Tan y Marian ym Mhwllheli sydd yn anelu i agor ym mis Chwefror. Roeddwn i hefyd yn falch o glywed am y gwaith mae’r adran wedi ei wneud i ddatblygu cynlluniau parod i’w cadw ar y silff er mwyn elwa ar unrhyw gyfleon byr rybudd. Mae gwaith o’r fath i ddenu arian allanol eisoes wedi arwain at fwy na £800k o grantiau cyfalaf.

4.4 Mae’r broses o **ail-strwythuro'r gwasanaethau darparu anableddau dysgu** wedi ei gwblhau, ac edrychaf ymlaen i glywed sut y bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

**Gwasanaeth Iechyd Meddwl a Diogelu**

4.5 Pwrpas y **Gwasanaeth Iechyd Meddwl** yw i gynnig cefnogaeth i unigolion sy’n profi anawsterau iechyd meddwl, rhoi cymorth i unigolion dros ddeunaw i fyw bywyd llawn ac i gefnogi adfywiad. Fel rhan o’r flaenoriaeth **Gwydnwch Cymunedol**, mae’r gwaith i weithredu’r Strategaeth Iechyd Meddwl y parhau, ac mae lot o waith wedi digwydd dros y flwyddyn ddiwethaf i sefydlu a datblygu hybiau cymunedol ‘Mi Fedraf’ (ICAN). Nododd y gwasanaeth bryder fod y canolfannau’n ddibynnol ar wirfoddolwyr a bod felly risgiau i gynaliadwyedd y ddarpariaeth. Mae hyn yn amlwg yn fater o bryder ac felly byddaf yn eich diweddaru’n briodol wrth i mi gael trafodaethau pellach gyda’r adran.

4.6 Mae’r Gwasanaeth Iechyd Meddwl hefyd yn darparu cefnogaeth i ofalwyr, ond mae angen datblygu dull o dystiolaethu’r gwaith yma. Rydw i wedi cael sicrwydd gan y

gwasanaeth bod trafodaethau'n mynd yn eu blaen er mwyn cryfhau ar hyn dros y flwyddyn nesaf. Byddaf eto'n cadw golwg ar y sefyllfa.

4.7 Pwrpas y **Gwasanaeth Diogelu** yw diogelu unigolion sydd ag anghenion cefnogaeth ac sydd mewn perygl neu'n dioddef camdriniaeth. Rhwng Ebrill a Hydref 2020, derbyniwyd 264 o ymholiadau diogelu, a llwyddwyd i ddelio a bob un ond 5 ohonynt o fewn yr amserlen statudol o 7 diwrnod. Tra bod hyn yn adlewyrchu'n gadarnhaol ar berfformiad y gwasanaeth, nid yw'n glir i mi beth yw gwerth y mesurydd yn ei ffurf bresennol i'r dinesydd, felly rwyf wedi gofyn i'r adran ystyried yr angen i ddatblygu mesurydd sy'n dweud mwy wrthym am y gwasanaeth rydyn ni'n ei ddarparu.

4.8 O'r 264 achos, roedd 158 ohonyn nhw yn achosion diogelu gyda 12 achos heb eu rheoli. Mae hyn yn golygu nad ydym yn gwbl ymwybodol beth oedd canlyniad yr ymholiad neu nad ydi'r canlyniad wedi ei gofnodi. Nododd y gwasanaeth eu bod yn hyderus fod gwaith priodol i ddiogelu unigolion yn digwydd ond nad yw bob amser yn cael ei ddogfennu fel y dylai. Mae hyn yn destun pryder, ond eglurodd y gwasanaeth bod y cyfnod monitro dan sylw yn cydfynd â chyfnod lle na lwyddwyd i benodi swyddog gweinyddol. Byddent yn gweithio ar gywiro'r sefyllfa wrth symud ymlaen ar ôl penodi. Byddaf yn cadw golwg ar hyn.

**Gwasanaeth Oedolion (Anabledd Corfforol a Synhwyraidd a Phobl Hŷn)**

4.9 Pwrpas y **Gwasanaeth Oedolion** yw i helpu unigolion i gyflawni'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw, a dau prif fesur sydd gan y gwasanaeth, sef **'ydyn ni wedi adnabod beth sy'n bwysig?'** ac **'a ydyn ni wedi cyflawni beth sy'n bwysig?'**. Roeddent wedi adnabod eu bod wedi cyflawni beth sy'n bwysig 70% o'r amser, ond ni wnaethant adrodd ar eu perfformiad yn erbyn y mesur cyntaf. Gan fod y ddau fesur yma'n ddibynnol ar ei gilydd, rwyf wedi gofyn i'r adran ystyried i ba raddau y mae nhw wedi adnabod yr hyn sy'n bwysig i ddechrau, cyn ceisio ei gyflawni. Nododd y gwasanaeth mai rhai o'u rhwystrau mwyaf yw diffyg adnoddau gofal cartref, elfennau'n ymwneud â gofal iechyd parhaus a materion cymunedol megis cludiant, trafnidiaeth, unigrwydd a chyfleon cymdeithasol. Rwyf wedi gofyn i'r adran roi sylw i'r rhwystrau a'r hyn sydd angen digwydd er mwyn eu cyfarch.

4.10 Mae **Cyfradd oediad mewn gofal am resymau gofal cymdeithasol (mesul 1000 o'r boblogaeth 75 oed a drosodd)** yn fesur statudol Llywodraeth Cymru sy'n monitro faint o bobl sy'n methu gadael yr ysbyty'n amserol. Y cyfartaledd yng Ngwynedd dros 7 mis cyntaf 2019/20 yw 2.38, sydd fymryn yn is na chyfartaledd Cymru dros yr un cyfnod, sef 2.39. Yn 2018/19 roedd y gyfradd yn 5.23 yng Ngwynedd o'i gymharu â 4.20 yng Nghymru. Er fod y mesurydd yn dangos gwelliant yng Ngwynedd o'i gymharu â'r llynedd, nid wyf wedi fy argyhoeddi mai dyma'r mesurydd gorau ar gyfer dangos pa wahaniaeth mae gwaith y gwasanaeth yn ei gael ar ddinasyddion y sir, felly rwyf wedi gofyn iddynt ystyried a oes gwell ffordd o dystiolaethu profiadau'r trigolion yma.

4.11 Mewn perthynas â'r **Cynllun Gofal Cartref**, bu ambell rwystr wrth geisio cyflwyno'r achos i'r Bwrdd Iechyd ac o ganlyniad mae oediad o ran cyflawni rhaglen arbedion yr adran. Mae'r gwasanaeth hefyd yn bryderus fod darparwyr yn tynnu'n ôl o ddarparu gofal mewn sawl ardal sydd yn cynyddu risg i unigolion bregus fod heb ofal yn y gymuned ac yn cynyddu rhestrau aros. Mae'r gwasanaeth yn rhwystredig am y sefyllfa ac yn cydnabod fod rhaid blaenoriaethu gwireddu'r model newydd. Byddaf yn adrodd ar y mater hwn eto yn fy adroddiad nesaf.

4.12 Fel rhan o'r flaenoriaeth **Gwydnwch Cymunedol**, mae pethau wedi symud yn eu blaen ac mae'r pum tîm adnodd cymunedol wedi cytuno ar flaenoriaethau'r rhaglen waith hyd at Ebrill 2021. Mae'r timau wedi cydweithio i lenwi bylchau o safbwynt gwasanaethau cymunedol yn eu hardaloedd e.e. Cynllun Trafnidiaeth Cymunedol Dyffryn Nantlle, gwasanaeth Pryd ar Glud Blaenau Ffestiniog ac ymdrechion i wneud Pwllheli yn dref dementia gyfeillgar. Maent hefyd wedi cydweithio ag Antur Waunfawr ar gyfleoedd i gynnwys pobl hŷn ynysig yr ardal yn eu gweithgareddau.

4.13 Mewn perthynas â'r **Gweithlu a Recriwtio o fewn y maes gofal**, yr her fwyaf yw i gryfhau cefnogaeth Therapi Galwedigaethol o fewn y Timau Adnoddau Cymunedol – ond mae hyn yn hanfodol os am wireddu'r hyn sy'n bwysig i unigolion. Rydw i a'r adran yn pryderu eu bod wedi profi anawsterau wrth recriwtio i'r maes yma, ond rwy'n croesawu'r ffaith fod trafodaethau wedi eu cychwyn rhwng yr adran a Phrifysgol Bangor mewn perthynas â chreu llwybr ôl-radd a byddaf yn eich diweddaru ar y trafodaethau hyn maes o law. Mae'r gwasanaeth wedi penodi hyfforddai fydd yn dechrau ar y cwrs gradd Therapi Galwedigaethol fis Ionawr 2020.

4.14 Mae'n bryderus adrodd fod ansicrwydd yng nghynaliadwyedd y farchnad preswyl a nyrsio annibynnol, gyda'r ffaith fod nifer o wahanol fath o ffioedd yn cael eu codi, yn aml o dan label 'top-ups', yn achosi dryswch ac anawsterau cynyddol. Nododd yr adran fod y mater yn cael sylw ar lefel rhanbarthol a lleol, yn ogystal ag yn fewnol yn y cyngor, er mwyn sefydlu dealltwriaeth o'r ffioedd a'u mapio. Fodd bynnag, mae'n annhebygol y bydd newid yn y ffordd yr ydym ni'n comisiynu gwasanaethau erbyn y flwyddyn ariannol nesaf ac felly ar hyn o bryd mae'n cynyddu'r pwysau ariannol ar yr adran.

4.15 Mae dyletswyddau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson sydd yn cyflawni swyddogaethau o dan y ddeddf i geisio hyrwyddo llesiant pobl sydd angen gofal a chymorth. Mae hyn yn golygu cefnogi unigolion na fyddai'n dod o dan ganllaw mynediad i wasanaeth traddodiadol gwasanaethau Anabledd Corfforol, Pobl Hŷn, Anabledd Dysgu nac Iechyd Meddwl. Golyga hyn gynnydd yn y galw ar y gwasanaeth a rhwystrau wrth geisio cytuno ar y gwasanaeth mwyaf addas i gefnogi'r unigolion yma. Mae'r adran yn bwriadu cynnal gwaith manwl ar y rhwystr hwn gan edrych ar strwythurau'r gwasanaethau. Byddaf hefyd yn amlygu'r gwaith yma gyda'r Bwrdd Cefnogi Pobl cyngor-gyfan.

**Gwasanaeth Darparu**

4.16 Mae'r gwasanaeth wrthi'n sefydlu trefn newydd er mwyn cofnodi ac adrodd ar berfformiad gwasanaethau preswyl mewnol. Mae ystod a natur y mesurau yn esblygu a datblygu ac felly er nad yw'r drefn newydd yn gwbl aeddfed eto, y nod yw y bydd yr wybodaeth yn y pen draw o gymorth i roi darlun cynhwysfawr ac adnabod meysydd fydd angen sylw neu flaenoriaeth.

4.17 Mae **cyfradd defnydd o wlâu yng nghartrefi'r Cyngor fesul chwarter** yn gyson ar gyfer y chwarter yma (Hydref i Rhagfyr) ag y roedd rhwng Gorffennaf a Medi eleni, ar 82%. Mae'r ffigwr yn îs na'r gyfradd ddisgwyliedig o tua 90% oherwydd bod gwelyau yn cael eu cadw yn fwriadol wag er mwyn hwyluso gwaith uwchraddio adeiladau a sefydlu unedau dementia. Mae hefyd angen cofio nad yw'r wybodaeth yn gwbl gyflawn a chyfredol ar draws y mesurau ar hyn o bryd ac felly bydd modd i mi adrodd yn fwy cywir yn fy adroddiad nesaf.

4.18 Fel rhan o'r flaenoriaeth i **Ail-ddylunio gwasanaethau gofal**, mae'r gwasanaeth yn gobeithio croesawu preswylwyr i'r unedau dementia newydd yn gynnar yn y flwyddyn ariannol nesaf. Fel rhan o'r prosiect **Gwydnwch Cymunedol,** mae'r gwasanaeth wedi bod yn gweithio gyda'r cymdeithasau tai i geisio adnabod cyfleon i hyrwyddo a chynyddu annibyniaeth i'r dyfodol. Mae'r adran yn cydweithio â Grŵp Cynefin ar ddatblygiad Hwb Iechyd a Gofal Penygroes gyda'r bwriad o uwchraddio darpariaeth preswyl a chreu adnodd fydd yn cartrefu nifer o wasanaethau ac asiantaethau ar un safle. Rydw i hefyd yn falch o adrodd fod cais cynllunio Adra i ddatblygu fflatiau Gofal Ychwanegol ar safle Frondeg, Pwllheli wedi'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Cynllunio ym mis Rhagfyr – datblygiad positif iawn o ystyried y rhagdybiaeth y bydd y galw am ddarpariaeth o'r fath yn cynyddu dros yr ugain mlynedd nesaf yn yr ardal yma ac ar draws y sir gyfan.

4.19 Rwy'n falch o nodi'r gwaith positif sydd wedi'i wneud i hybu llesiant unigolion, gan gynnwys enghreifftiau megis trefnu i drigolyn yn un o'r cartrefi preswyl ar achlysur ei ben-blwydd yn gant oed, gael teithio unwaith eto mewn car yr oedd yn berchennog arno am 55 mlynedd a chynnal pencampwriaeth mabolgampau dementia rhwng y gwahanol gartrefi a oedd yn lwyddiant ysgubol gyda'n trigolion. Diolch i'r adran am waith fel hyn sydd wir yn gosod pobl Gwynedd yn ganolog.

4.20 Mae'r Gwasanaeth Darparu yn wasanaeth sy'n derbyn sylw fel rhan o flaenoriaeth **y Gweithlu a Recriwtio o fewn y maes gofal** gan fod heriau parhaus wrth geisio denu staff. Mae ymdrechion yn cael eu gwneud i hysbysebu a denu mewn ffyrdd gwahanol a chyfleoedd prentisiaethau'n cael eu hystyried yn barhaus.

4.21 Amlygodd y gwasanaeth yr angen i nifer o'n hadeiladau gael eu huwchraddio gan fod edrychiad rhai ohonynt wedi dyddio. Mae addurno a dodrefnu yn her barhaus ac yn elfen sydd yn gynyddol dderbyn sylw mewn archwiliadau. Bydd yr adran yn ystyried sut i ymateb i'r her gynyddol yma i'r dyfodol.

## 5. SEFYLLFA ARBEDION

### Cynlluniau Blynyddoedd Blaenorol

5.1 Mae'r adran yn rhagweld risg o fethu cyflawni gweddill yr arbedion effeithlonrwydd gwerth £64k ar y cynllun *Awtomeiddio prosesau cyllidol yr adran* a bydd yr adran yn ystyried a oes modd cyflawni'r arbediad drwy ddulliau amgen. Mae risg hefyd i gael yr arbediad *Gwella effeithlonrwydd gweithwyr maes* gwerth £113k ac mae penderfyniad wedi'i wneud i gadw staff ymlaen i wireddu arbedion ehangach y rhaglen a rhoi sail gadarn i'r gwasanaethau newydd.

5.2 Rhagwelir risgiau sylweddol o wireddu'r arbedion o £100k ar y cynllun *Comisiynu'n ddoeth Gwasanaeth Iechyd Meddwl* hefyd. Bwriedir adolygu'r sefyllfa dros y misoedd nesaf pan fydd yr adran yn ystyried ail-broffilio neu'n cyflwyno dulliau amgen o gyflawni unwaith y bydd y trefniadau darparu gwasanaethau rhwng y bwrdd iechyd a'r cyngor yn fwy cadarn.

### Cynlluniau Arbedion 2019/20

5.3 Mae 4 o gynlluniau arbedion 2019/20 un ai wedi eu gwireddu, ar drac i'w gwireddu'n amserol neu'n symud yn eu blaen.

5.4 Mae'r adran yn rhagweld rhai risgiau o gyflawni'r arbediad o £510k o'r cynllun **Integreiddio a thrawsnewid Gwasanaethau Pobl Hŷn**. Mae'r adran wedi rhoi adnodd ychwanegol mewn 3 ardal ac yn gobeithio penodi ymhellach trwy ddefnyddio adnodd y Bwrdd Iechyd a Chronfa Gofal Integredig i gefnogi a chryfhau'r gwaith yma.

5.5 Mae risgiau i gyflawni arbedion y cynllun **Ymestyn egwyddorion Cynllun Peilot Alltwen ar draws y gwasanaeth**, sydd werth £133,500 yn 2019/20 a £400,500 yn 2020/21. Mae hyn oherwydd cynnydd yn y galw am y math yma o ofal ac anawsterau recriwtio a chynnal lefelau staffio. Mae'r adran yn gweithio ar gymryd camau er mwyn newid diwylliant a dulliau gweithio sy'n greiddiol i gyflawni'r arbedion.

5.6 Cynllun arall sydd â risgiau o wireddu arbedion o £100k yw **Cydweithio â'r trydydd sector i sicrhau darparwyr newydd gymryd drosodd y ddarpariaeth gofal dydd** mewn rhai ardaloedd. Newid y ffordd o ddarparu sydd mewn golwg gan y cynllun hwn ac mae'r adran yn trafod ffyrdd o sicrhau gofal addas i gwrdd ag anghenion dwys unigolion sy'n mynychu'r canolfannau gyda'r bwrdd iechyd, yn ogystal ag yn parhau i drafod opsiynau gyda chymunedau lleol.

5.7 Mae'r adran hefyd yn rhagweld rhai risgiau o gyflawni arbedion sydd werth £25k yn 2019/20 o'r cynllun **Adolygu pecynnau gofal anableddau corff gan gwrdd ag amcanion mewn ffordd amgen**.

5.8 Rhagwelwyd yn ogystal y bydd elfen o lithriad ac angen ail broffilio cyflawni £101k o dan gynllun *Adolygu trefniadau gweithredu o fewn yr Adran Oedolion.*

**6. CAMAU NESAF AC AMSERLEN**

Dim i'w nodi.

**7. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD**

**7.1 Barn y Swyddogion Statudol**

**i. Y Swyddog Monitro:**

Dim i'w nodi o safbwynt priodoldeb.

**ii. Y Swyddog Cyllid Statudol:**

Mae adroddiad yr Aelod Cabinet Cyllid ar sefyllfa cyllideb refeniw 2019/20 fel yr oedd ar ddiwedd Tachwedd 2019 – sy'n eitem ar wahân ar raglen y cyfarfod yma – yn nodi fod y gorwariant a ragwelir ar gyllideb yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant yn gyfuniad o nifer o ffactorau gan gynnwys methiant i wireddu nifer o gynlluniau arbedion. Mae rhan 5 yr adroddiad perfformiad hwn yn ymhelaethu ar y risgiau sydd ynghlwm â'r cynlluniau arbedion perthnasol; rwyf yn fodlon fod rhan 5 yr adroddiad yn adlewyrchiad teg o'r sefyllfa.

**7.2 Barn yr Aelod Lleol:**

Ddim yn fater lleol

**7.3 Canlyniad Unrhyw Ymgynghoriad:**

Dim i'w nodi.

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **21 Ionawr 2020** |
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Gareth Thomas** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Dilwyn Williams, Prif Weithredwr** |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | **01286 679 685** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Datblygu'r Economi** |

**1 Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

1.1 Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

**2 Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD**

2.1 Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad yn effeithiol.

**3 CYFLWYNIAD**

3.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw i'ch diweddaru ar beth sydd wedi'i gyflawni yn y maes rwy'n gyfrifol amdano fel Aelod Cabinet Datblygu'r Economi. Mae hyn yn cynnwys amlinellu'r diweddaraf gyda'r addewidion yng Nghynllun y Cyngor; lle mae'r mesurau perfformiad arni; a'r diweddaraf o ran cynllun arbedion a thoriadau.

3.2 Rydym yn gweithredu ar Gynllun y Cyngor 2018-23, yma rwyf yn adrodd ar y cynnydd hyd at ddiwedd Tachwedd 2019.

3.3 Rwyf am eich atgoffa bod yr holl faterion eisoes wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu craffu gennyf mewn cyfarfod Herio Perfformiad sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r Pwyllgor Craffu.

3.4 Ar y cyfan, rwyf yn hapus gyda pherfformiad yr adran. Byddaf yn ymhelaethu ar y cynnydd yn yr adroddiad.

**4 RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD**

**4.1 PERFFORMIAD GWASANAETHAU'R ADRAN**

**4.2 Gwasanaeth Llyfrgelloedd a Gwybodaeth**

4.2.1 Pwrpas y **Gwasanaeth Llyfrgelloedd a Gwybodaeth** yw sicrhau mynediad trigolion Gwynedd at gefnogaeth, adnoddau a gwybodaeth sy'n rhoi'r cyfle iddynt ddysgu ac ennill sgiliau, darllen a mwynhau. Mae'n gadarnhaol iawn adrodd fod Bodlonrwydd Cwsmer y Gwasanaeth yn 99% (weler M1), dyma adborth gan un o ddefnyddwyr y Llyfrgell *"Mae'r Gwasanaeth hwn yn hanfodol ar gyfer fy lles a chynnydd bywyd. Heb y gwasanaeth hwn byddwn o dan anfantais fawr, ac yn colli ased gwerthfawr o gael darllen llyfrau."*

4.2.2 Gostwng mae tueddiadau i fenthyg llyfrau yn genedlaethol, hynny yn gyffredinol i Ogledd Cymru a Gwynedd, hyd yma mae 215,719 wedi benthyg eleni, hynny ar gyfartaledd o 35,846 y mis (sy'n is na'r cyfartaledd misol o 38,789 yn 2018/19). O ganlyniad mae sesiwn Gweithdy yn cael ei drefnu er mwyn edrych sut all y Gwasanaeth Llyfrgelloedd gefnogi gwasanaethau eraill y Cyngor ac asiantaethau eraill yn ein cymunedau yn y dyfodol.

4.2.3 Mae'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd yn cynnig nifer o wasanaethau, ac yn ddiweddar mae'n Llyfrgelloedd wedi cynnig cymorth i bobl oedd dros 60 oed oedd angen adnewyddu eu cerdyn bws. Bu i 5,440 o bobl fanteisio ar y cymorth gan mai proses gofrestru cwbl ddigidol oedd wedi ei mabwysiadu gan y Llywodraeth.

4.2.4 Mae Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2018/19 yn creu darlun calonogol o Lyfrgelloedd Gwynedd. O'r 10 o ddangosyddion ansawdd sydd â thargedau, roedd Gwynedd wedi cyflawni 9 yn llawn ac 1 yn rhannol, roedd Gwynedd yn un o ddim ond 4 Awdurdod i gyrraedd y lefel hon.

**4.3 Gwasanaeth Archifau**

4.3.1 Pwrpas y **Gwasanaeth Archifau** yw gwarchod ein cofnodion cyhoeddus a sicrhau fod gan bobl fynediad atynt, drwy ddarparu dau Archifdy yng Ngwynedd.

4.3.2 Mae'r defnydd a galw am y gwasanaeth yn dda, gyda 8,900 wedi defnyddio'r gwasanaeth i ddyddiad sy'n cymharu'n dda a blynyddoedd blaenorol, mae 95% yn adrodd ei bod yn fodlon gyda'r gwasanaeth (weler M2). Mae canran bach yr anfodlonrwydd gyda'r gwasanaeth yn sgil lleihad yn yr oriau agor rai blynyddoedd yn ôl.

4.3.3 Bu'n gyfnod prysur i Swyddogion Addysg y gwasanaeth Archifau, gan weithio gyda 1,214 o ddisgyblion cynradd. Rydym yn derbyn adborth cadarnhaol iawn i'r gwasanaeth, yn ddiweddar mwynhaodd disgyblion Blwyddyn 3 Ysgol Dolbadarn sesiwn, gyda un disgybl yn dweud *"Rydym wedi dysgu llawer iawn am y Tuduriaid. Roedd y gwisgoedd yn brydferth iawn, ac yn edrych yn neis iawn. Roedd y gemau yn ddiddorol iawn bryd hynny. Croeso i chi ddod atom unrhyw bryd eto*." Bydd y gwasanaeth addysg yn hanfodol ar gyfer dyfodiad y Cwricwlwm newydd, rydw i wedi gofyn i'r Adran Economi a'r Adran Addysg drefnu cyfarfod er mwyn trafod cynnal y gwasanaeth i'r dyfodol.

4.3.4 Mae'r Gwasanaeth Archifau wedi cydweithio ar draws y Rhanbarth er mwyn cychwyn ar y gwaith o ddigido'r casgliad, ond oherwydd problemau recriwtio mae'r gwaith yma wedi dod i ddiwedd. Er hynny, dwi yn awyddus i Wynedd barhau gyda'r gwaith o ddigido ein casgliad er mwyn sicrhau hyfywdra'r gwasanaeth ar gyfer y dyfodol. Felly rwyf wedi gofyn i'r Gwasanaeth geisio gosod amcan o'r gost ac amserlen ar gyfer digido ein casgliad yng Ngwynedd fydd yn ein galluogi i ymchwilio i'r posibiliadau o gychwyn ar y gwaith.

**4.4 Gwasanaeth Amgueddfeydd a'r Celfyddydau**

4.4.1 Pwrpas y **Gwasanaeth Amgueddfeydd a'r Celfyddydau** yw cyfoethogi bywyd pobl Gwynedd trwy hyrwyddo dealltwriaeth o'n hetifeddiaeth a'n diwylliant unigryw.

4.4.2 Er mwyn sicrhau fod **Neuadd Dwyfor** yn cynnig y profiad gorau posibl i drigolion Gwynedd, mae gwaith ar droed i adnabod gweledigaeth ac model busnes ar gyfer y dyfodol. Mae tîm defnyddwyr wedi ei sefydlu er mwyn ymgynghori gyda pobl leol. Bydd trafodaethau yn cael ei cynnal gyda'r tîm defnyddwyr a staff er mwyn edrych ar y weledigaeth, adnabod y galw, adnabod unrhyw rwystrau a chyfleoedd. Byddaf

yn cyflwyno'r achos busnes i'r Cabinet yn ystod mis Ionawr.

4.4.3 Pryder i mi yw bod **Storiel** yn parhau i or-wario fel gwasanaeth a bod targedau incwm ychwanegol yn cael eu gosod. Mae'r gwasanaeth yn adolygu'r trefniadau rheoli ar hyn o bryd yn ogystal â adolygu'r strwythur gweithredu er mwyn ymateb i hyn ar frys.

**4.5 Gwasanaeth Morwrol a Pharciau Gwledig**

4.5.1 Pwrpas y **Gwasanaeth Morwrol a Pharciau Gwledig** yw sicrhau adnoddau diogel o ansawdd yn ein parciau gwledig, ein harbyrau, ein marinas ac ar draethau Gwynedd er mwyn creu atyniadau hamdden i bobl leol ac ymwelwyr. I ddyddiad mae 40 o unigolion wedi derbyn cymorth cyntaf ar draethau Gwynedd, byddaf yn cadw llygaid ar y data yma er mwyn ei gymharu gyda blynyddoedd blaenorol (weler M3). Dyma un o fesurau'r gwasanaeth, rwyf wedi gofyn i'r adran ystyried y ffordd orau i fesur ansawdd o fewn y gwasanaeth, byddaf yn eich diweddaru ar hyn yn y dyfodol.

4.5.2 Mae'r sefyllfa garthu yn parhau i fod yn broblemus ym Mhwllheli, mae cytundeb allan ar Sell2Wales ar hyn o bryd er mwyn penodi cwmni i symud y tywod a'r llaid. Mae gwaith i gynnal adolygiad rheolaeth Harbwr a Hafan Pwllheli wedi cychwyn, a byddaf yn cyflwyno adroddiad i'r Cabinet yn fuan er mwyn paratoi Cynllun Datblygu ar gyfer Harbwr a Hafan Pwllheli.

**4.6 Gwasanaeth Chwaraeon am Oes**

4.6.1 Mae'r **Gwasanaeth Chwaraeon am Oes** yn cynnig ystod o weithgareddau corfforol cynhwysol ar gyfer y Cynradd, Uwchradd ac yn gymunedol.

4.6.2 Mae gwaith da iawn yn mynd ymlaen gyda'r oedran cynradd drwy'r Clwb Dal i Fynd, Play Maker ac DIT. Mae'r Clwb Dal i Fynd yn parhau i gael ei gynnal yn 80% o'r ysgolion, gyda Athrawon yn adrodd fod y clwb yn gwella ffitrwydd disgyblion. Mae pob Ysgol Uwchradd yng Ngwynedd yn derbyn darpariaeth 560 sy'n cynnig dros 20 o Chwaraeon gwahanol i'r disgyblion, ac yn ffordd wych o gael plant i fynychu sesiynau ffitrwydd.

4.6.3 Mae'r Adran Economi a Chymuned wedi gosod cytundeb i **Gwmni Byw'n Iach** i reoli'r Canolfannau Byw'n Iach, erbyn diwedd chwarter 2 roedd 566,427 o ymweliadau i'r Canolfannau, gyda lefel boddhad cwsmer yn 87.34%.

**4.7 Uned Rhaglenni Adfywio**

4.7.1 Pwrpas yr **Uned Rhaglenni Adfywio** yw datblygu, cydlynu, gweithredu a monitro rhaglenni adfywio er mwyn creu Gwynedd yn le gwell i fyw ynddo, mewn ymateb i Strategaeth Adfywio Gwynedd.

4.7.2 Yn hanesyddol mae gwaith yr uned yn deillio o gyfleoedd ariannu. Rydw i yn awyddus i sicrhau fod cynllun hirdymor mewn lle ar gyfer adfywio, ac mae'r Bwrdd Adfywio eisoes yn gweithredu er mwyn datblygu dealltwriaeth o anghenion adfywio cymunedau Gwynedd fel bod gennym weledigaeth gliriach traws-wasanaeth o'r hyn sydd ei angen i sicrhau cymunedau cryfach (bydd adroddiad ar wahân ar gyfer gweithgareddau'r Bwrdd Adfywio).

4.7.3 Pwrpas y prosiect **Hybu Canol Tref** yw cefnogi a hwyluso adfywio canol trefi er mwyn iddynt gynnal ystod o wasanaethau i drigolion lleol ac ymwelwyr o fewn amgylchedd bywiog â naws Gymreig. Mae prif gynllun drafft wedi ei baratoi ar gyfer Bangor er mwyn edrych ar symudedd a chysylltiadau o fewn y ddinas, bydd trafodaethau pellach rhwng swyddogion a'r ymgynghorwyr ar y cynllun drafft,

byddaf yn adrodd yn ôl yn y dyfodol ar y cynllun.

4.7.4 Pwrpas y prosiect **Rhoi Treftadaeth Llechi Gwynedd ar waith** yw gwireddu rhaglen o weithgareddau adfywio yn ardaloedd y llechi, a pharau i weithio i sicrhau statws Safle Treftadaeth y Byd i'r diwydiant llechi yng Ngwynedd. Mae amserlen newydd wedi ei gytuno gyda DCMS a bydd yr enwebiad yn cael ei gyflwyno i UNESCO yn Ionawr 2020 gyda phenderfyniad yn cael ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2021.

4.8 **Gwasanaeth Cefnogi Cymunedau**

4.8.1 Mae'r **Gwasanaeth Cefnogi Cymunedau** yn cefnogi cymunedau, boed yn Gyngor Cymuned, Grŵp gwirfoddol neu endid cymunedol i weithredu er mwyn gwneud eu cymunedau yn le gwell i fyw.

4.8.2 Yn ystod y chwarter diwethaf mae'r gwasanaeth wedi cefnogi 22 o brosiectau/gweithgareddau. Gan gynnwys gweithio ar gynllun i drosglwyddo adeilad hen Ysgol Beuno Sant i'r gymuned er mwyn sefydlu Canolfan Deulu yn nhref Y Bala; gweithio gyda Phlas Carmel ar gynllun i adfer Capel, Tŷ Capel a hen siop gan gyfuno hanes, diwylliant a'r amgylchedd lleol gan ddod a buddion economaidd a chymdeithasol i'r Gymuned.

4.9 **Gwasanaeth Rhaglenni Datblygu Economaidd**

4.9.1 Mae'r **Gwasanaeth Rhaglenni Datblygu Economaidd** yn ceisio gwella'r amodau i fusnesau ffynnu yng Ngwynedd, eu cefnogi i sefydlu, cystadlu a thyfu a helpu pobl Gwynedd i fanteisio ar y cyfleodd. Mae'r gwasanaeth yn arwain ar nifer o flaenoriaethau gwella Cynllun y Cyngor.

4.9.2 Hyd yma yn 2019/20 mae 204 o fentrau wedi derbyn cymorth (weler M5), sydd yn gynnydd ar llynedd o ganlyniad i ymestyn y ddarpariaeth ac cynydd yn y galw o ganlyniad i ffactorau allanol megis Brexit.

4.9.3 Mae'r prosiect **busnesau'n cael cymorth i ffynnu** am sicrhau dull gweithredu yn y Cyngor sy'n rhoi anghenion busnesau yn ganolog gan leihau rhwystrau iddynt sefydlu a thyfu yn y sir. Er mwyn cael gwell dealltwriaeth o farn busnesau o holl wasanaethau'r Cyngor, bydd dadansoddiad o'r ymatebion yn cael ei adrodd i'r Bwrdd Prosiect yn Ionawr 2020.

4.9.4 Pwrpas y prosiect ***mwy o drigolion Gwynedd yn chwarae rhan lawn yn y byd gwaith*** yw canolbwyntio ar gyfres o weithgareddau fydd yn annog trigolion Gwynedd gyfan i mewn i fyd gwaith. Mae'r prosiect wedi cefnogi 93 o bobl i mewn i gyflogaeth (weler M7). Mae cydweithio agos yn digwydd gyda busnesau yn sector dwristiaeth, gan gynnwys Hafan y Môr a Zip World. Wrth gydweithio bydd ymdrechion yn cael ei gwneud i sicrhau bydd trigolion lleol yn cael cefnogaeth i elwa o'r cyfleoedd cyflogaeth gan y cwmniau. Mae'n gadarnhaol iawn adrodd bydd dros 300 o swyddi ar gael rhwng y ddau gwmni yng Ngwynedd dros y misoedd nesaf.

4.9.5 Mae'r ***Rhaglen Datblygu Wledig*** yn adeiladu ar y gwaith da sydd eisoes wedi ei wneud i drawsnewid yr economi wledig trwy annog arloesedd o fewn sectorau traddodiadol (megis amaeth a thwristiaeth) ynghyd a gwella isadeiledd digidol cymunedau gwledig. Mae rhaglen Arfor bellach ar waith, cronfa arbrofol yw'r rhaglen sy'n bwriadu creu mwy a gwell swyddi yng nghadarnleoedd y Gymraeg a chefnogi'r iaith o ganlyniad. Mae Arfor yn cynnwys pedwar cynllun lleol yng Ngwynedd, un o rheiny ydi'r cynllun Her Cymunedau Mentrus lle mae tair cymuned wedi eu recriwtio i dreialu dulliau o sbarduno'r economi cylchol / sylfaenol. Mae

dau gofod gwneud hefyd wedi eu hagor o dan Arfor, ar y stryd fawr yn Porthmadog ac yn Bethesda ac maent eisoes wedi croesawy dros 140 o drigolion i ddod i ddysgu am dechnoleg newydd. Byddaf yn adrodd ar ddeilliannau Arfor yn y dyfodol.

4.9.6 Mae'r prosiect ***Creu Swyddi Gwerth Uchel (Cyflog £26,500 neu fwy)*** yn edrych i greu amgylchedd sy'n cefnogi busnesau newydd a thyfu busnesau presennol o fewn sectorau sy'n talu'n dda, a sicrhau fod y gweithlu lleol yn gallu manteisio ar y cyfleoedd. Mae 20 o swyddi gwerth uchel wedi eu creu gan fentrau sydd wedi derbyn cymorth eleni hyd yn hyn (weler M6). Mae ymdrechion y Cyngor i gynnal cyflogaeth yn safle Trawsfynydd drwy parhau gyda dadgomisiynnu'r safle i weld yn dwyn ffrwyth a mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu gofod ar gyfer dros 150 o swyddi yn maes awyr Llanbedr yn mynd rhagddo

Un mater ychwanegol sy'n parhau i fynnu sylw ac ymdrech swyddogion ac Aelodau yw Brexit. Mae'r Adran yn parhau i fod yn cyrchu barn busnesau lleol am effaith Brexit ac yn eu hannog i fanteisio ar bob cymorth ond mae'r ansicrwydd yn cael effaith andwyol ar barodrwydd mentrau i fuddsoddi a chreu swyddi. Mae Swyddogion ac Aelodau hefyd yn rhagweithiol yn datgan barn ac anghenion Gwynedd yn arbennig o ran dyfodol buddsoddiad i ddatblygu'r economi a chefnogaeth i amaethwyr a chefn gwlad wedi i arian Ewrop ddod i ben.

4.10 **Gwasanaeth Twristiaeth, Marchnata a Digwyddiadau**

4.10.1 Pwrpas y **Gwasanaeth Twristiaeth, Marchnata a Digwyddiadau** yw hyrwyddo'r ardal fel cyrchfan trwy'r flwyddyn a chydweithio gyda'r sector er mwyn uchafu buddion economaidd i bobl Gwynedd. Rydym wedi gweld twf yn y maes dros y blynyddoedd diwethaf, gyda mwy o bobl yn mynd ar ei gwyliau o fewn y DU. Mae'r adolygiad perfformiad wedi'i gwblhau er mwyn bwydo i mewn i'r broses o osod blaenoriaethau am y cyfnod 2020+.

4.10.2 Mae'r prosiect ***Cynyddu Budd Digwyddiadau Mawrion*** yn anelu i ddenu digwyddiadau proffil uchel i Wynedd er mwyn manteisio ar y budd economaidd a chymdeithasol fydd yn deillio o hyn. Yn ystod 2019/20 mae 25 o ddigwyddiadau wedi cefnogi drwy'r prosiect (weler M4. Mae trafodaethau eisoes ar droed gyda digwyddiadau newydd ar gyfer y flwyddyn nesaf, byddaf yn cyflwyno adroddiad i'r Cabinet yn gwneud cais am arian ar gyfer y gronfa yma ar gyfer 2020/21.

4.10.3 Pwrpas y prosiect **Elwa o Dwristiaeth** yw Atgyfnerthu statws Gwynedd fel cyrchfan gynaliadwy o ansawdd rhyngwladol, trwy archwilio a gweithredu'r opsiwn gorau er mwyn sicrhau bod pobl a busnesau Gwynedd yn elwa o'r twristiaid sy'n ymweld a'r Sir. Mae sawl sesiwn graffu o'r maes wedi cymryd lle a bydd gweithdy'n cael ei gynnal ar-y-cyd gydag Aelodau'r Cyngor ac Aelodau Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn fuan yn 2020 i drafod y maes a'n blaenoriaethau i'r dyfodol.

## 5 SEFYLLFA ARIANNOL / ARBEDION

### 5.1 Cynlluniau Arbedion 2017/18, 2018/19 & 2019/20

5.1.1 Mae oediad yn y 3 cynllun parcio sef *Cysoni ffioedd parcio drwy gyflwyno ffioedd parcio i safleoedd newydd (e.e. ardal Y Glyn), Sefydlu ffioedd parcio yn Dinas Dinlle a chynyddu ffioedd lansio* a hefyd *Adolygu ffioedd a threfniadau yn Storiel.* Mae gwaith rhagbaratoi yn cael ei wneud ar hyn o bryd o safbwynt cynigion i ymgorffori nifer o safleoedd newydd i mewn i Orchymyn Parcio Gwynedd. Mae bwriad hefyd i ddiweddaru strwythur ffioedd y Cyngor i gyd fynd efo'r gwaith a hefyd mae cais wedi ei wneud i ymgorffori agweddau ychwanegol (e.e. cardiau i bobl leol).

Rhagwelir cychwyn derbyn incwm ychwanegol o gynyddu Ffioedd Lansio ac Incwm parcio yn Storiel erbyn dechrau'r flwyddyn ariannol 2020/21.

5.1.2 Mae oediad mewn 2 gynllun arall sef *Cynyddu'r ffi i ysgolion am y gwasanaeth archifau* a *Dileu 1 swydd o'r Gwasanaeth Twristiaeth* ond maent yn symud yn eu blaen.

5.1.3 O ran y cynllun *Neuadd Dwyfor* mae'r adran yn rhagweld risgiau sylweddol i gyflawni'r arbedion. Mae'r Adran yn parhau i ddatblygu'r achos busnes fel nodir yn 4.4.2 a bydd angen buddsoddiad cyfalaf sylweddol ("buddsoddi i arbed") i wireddu'r arbedion. Yn ogystal bydd angen trafod gyda chyyllidwyr megis Cyngor Celfyddydau, Croeso Cymru ac eraill – ond nid oes cronfeydd amlwg i'r gweld ganddynt ar hyn o bryd. Rwyf wedi pwysleisio yr angen i sicrhau fod yr achos busnes ddaw ymlaen yn un sy'n debygol o gael ei wireddu.

5.1.4 Bydd rhaid rhoi cyfle i'r Cwmni Hamdden newydd sefydlu cyn adnabod cyfleon i symud y statws i felyn neu wyrdd ar y cynllun *Lleihau'r sybsidi i'r Cwmni Hamdden newydd.* Mae tebygolrwydd felly y bydd y cynllun yn llithro heibio 2021/22 – 2022-23.

**6 UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD**

**6.1 Barn y Swyddogion Statudol:**

**Y Swyddog Monitro**

"Dim sylwadau i'w hychwanegu ynglŷn a phriodoldeb."

**Y Pennaeth Cyllid**

"Gallaf gadarnhau cywirdeb yr agweddau ariannol yn adroddiad yr Aelod Cabinet Datblygu'r Economi a Chymuned, gyda rhan 5 yr adroddiad yn amlygu risgiau rhai o'r cynlluniau arbedion. Bydd swyddogion Cyllid yn parhau i gynorthwyo'r Aelod Cabinet i fonitro'r cynnydd yn erbyn y cynlluniau yma, ac mae diweddariad o sefyllfa ariannol yr adran wedi ei gynnwys yn yr adolygiad cyllidol sy'n destun adroddiad yr Aelod Cabinet Cyllid ar raglen y cyfarfod yma."

**ATODIADAU:**


**Atodiad 1** Mesurau'r Adran Economi

# MESURAU AELOD CABINET DATBLYGU'R ECONOMI


(hyd at ddiwedd Tachwedd 2019)

**<u>Mesurau Gwasanaeth</u>**


**Gwasanaeth Llyfrgelloedd**





**Gwasanaeth Archifau**




**Gwasanaeth Morwrol a Pharciau Gwledig**






**Gwasanaeth Twristiaeth a Marchnata**



**Gwasanaeth Rhaglenni Datblygu Economaidd**



# BLAENRAGLEN WAITH

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

| Dyddiad trafodaeth yn y Cabinet | Eitemau i'w trafod | Aelod Cabinet |
|---|---|---|
| **Chwarter 4 2019/20 –<br>1 Ionawr – 31 Mawrth** | | |
| **28 Ionawr** | Tir yn Llanrug | Cyng. Cemlyn Williams |
| | Dementia Go | Cyng. Dafydd Meurig |
| | Gwerthiant Canolfan Frondeg, Pwllheli | Cyng. Craig ab Iago |
| | Adroddiad ar Byrddau Rhaglen Adfywio a Cefnogi Pobl | Cyng. Dyfrig Siencyn |
| | Trosolwg Arbedion 2019/20 – Adroddiad Cynnydd ar Wireddu Cynlluniau Arbedion | Cyng. Ioan Thomas |
| | Adroddiad Perfformiad yr Aelod Cabinet dros Gefnogaeth Corfforaethol a Chyfreithiol | Cyng. Nia Jeffreys |
| | Adroddiad Perfformiad yr Aelod Cabinet dros Gyllid | Cyng. Ioan Thomas |
| | Adroddiad Perfformiad yr Aelod Cabinet dros Blant a Cefnogi Teuluoedd | Cyng. Dilwyn Morgan |
| | Adroddiad Perfformiad yr Aelod Cabinet dros Addysg | Cyng. Cemlyn Williams |
| | Adroddiad Perfformiad yr Aelod Cabinet dros Dai | Cyng. Craig ab Iago |
| **18 Chwefror** | Cyllideb 2020/21 | Cyng. Ioan Thomas |

| | | |
|---|---|---|
| | Addysg Ôl-16 | Cyng. Cemlyn Williams |
| | Ysgol Llanaelhaearn | Cyng. Cemlyn Williams |
| | Ysgol Abersoch | Cyng. Cemlyn Williams |
| | Cynllun y Cyngor | Cyng. Dyfrig Siencyn |
| | Ysgol Treferthyr | Cyng. Cemlyn Williams |
| | Canolfannau Ailgylchu – Cynllun Permit | Cyng. Catrin Wager |
| **10 Mawrth** | Cynllun Cydraddoldeb 2020-24 | Cyng. Nia Jeffreys |
| | Cynllun Asedau | Cyng. Ioan Thomas |
| **31 Mawrth** | Polisi Mynediad | Cyng. Nia Jeffreys |
| **Chwarter 1 2020/21 –**<br>**1 Ebrill – 30 Mehefin** | | |
| **Ebrill 21** | | |
| **Chwarter 1 2020/21 –**<br>**1 Ebrill – 30 Mehefin**<br>**Dyddiad heb ei bennu** | Cyfrifon Terfynol 2019/20 – Alldro Refeniw | Cyng. Ioan Thomas |
| | Rhaglen Gyfalaf 2019/20 – Adolygiad diwedd blwyddyn (31 Mawrth 2020) | Cyng. Ioan Thomas |
| | Trosolwg Arbedion: Adroddiad ar gynnydd ar wireddu cynlluniau arbedion | Cyng. Ioan Thomas |